# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 01/03/2016

Cynnwys Contents


Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Bil Cymru Drafft
3. Statement: The Draft Wales Bill

4. Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016
4. The Agricultural Advisory Panel for Wales (Establishment) Order 2016

5. Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2016
5. The Developments of National Significance (Specified Criteria and Prescribed Secondary Consents) (Wales) (Amendment) Regulations 2016

6. Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) (Diwygio) 2016
6. The Children (Secure Accommodation) (Wales) (Amendment) Regulations 2016

7. Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2016
7. The Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2016

8. Cyfnod Pleidleisio
8. Voting Time

9. Dadl Cyfnod 3 ar Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)
9. Stage 3 Debate on the Tax Collection and Management (Wales) Bill


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn Da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

# Datganiad gan y Llywydd

# Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Now, as well as being a day to celebrate our patron saint, today also marks the tenth anniversary of the official opening of the building, the Assembly's home, the Senedd. Many of you were here 10 years ago when the Senedd first opened, and some of you have the continued privilege of representing the people of Wales, and, hopefully, you will have the privilege of serving them 10 years from now.

Nawr, yn ogystal â bod yn ddiwrnod i ddathlu ein nawddsant, heddiw hefyd yw dengmlwyddiant agoriad swyddogol yr adeilad, cartref y Cynulliad, y Senedd. Roedd llawer ohonoch chi yma 10 mlynedd yn ôl pan agorwyd y Senedd gyntaf, ac mae gan rai ohonoch chi'r fraint barhaus o gynrychioli pobl Cymru, a, gobeithio, bydd gennych chi'r fraint o'u gwasanaethu nhw 10 mlynedd o nawr.

Now, the Senedd has established itself as one of the most distinctive buildings in the country and as an integral part of Welsh public life. We've welcomed through our doors 1.3 million visitors from Wales, the UK, and much further afield, and we have conducted nearly 30,000 tours. The building has hosted many major events, including the Wales national rugby team's six nations grand slam celebration, and the homecoming of the Welsh Olympians and Paralympians.

Nawr, mae'r Senedd wedi sefydlu ei hun fel un o'r adeiladau mwyaf nodedig yn y wlad ac fel rhan annatod o fywyd cyhoeddus Cymru. Rydym ni wedi croesawu 1.3 miliwn o ymwelwyr o Gymru, y DU, a llawer ymhellach i ffwrdd drwy ein drysau, ac rydym ni wedi cynnal bron i 30,000 o deithiau. Mae'r adeilad wedi cynnal llawer o ddigwyddiadau mawr, gan gynnwys dathliad camp lawn chwe gwlad tîm rygbi cenedlaethol Cymru, a'r digwyddiad i groesawu Olympiaid a Pharalympiaid Cymru adref.

Now, whilst this is a place that the people of Wales come to visit and celebrate national achievements, it is primarily a space for the Assembly to debate, consider and make decisions about the future of our country, decisions rooted in the principles of accessibility and transparency, which are also represented by the very fabric of this fine building.

Nawr, er bod hwn yn lle y mae pobl Cymru yn dod i ymweld ag ef ac i ddathlu llwyddiannau cenedlaethol, mae'n bennaf yn lle i'r Cynulliad drafod, ystyried a gwneud penderfyniadau am ddyfodol ein gwlad, penderfyniadau sydd wedi'u gwreiddio yn egwyddorion hygyrchedd a thryloywder, sydd hefyd yn cael eu cynrychioli gan union ffabrig yr adeilad ardderchog hwn.

# 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

# 1. Questions to the First Minister

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:31

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And now we move to the first item this afternoon, which is questions to the First Minister, and first is Rhodri Glyn Thomas.

A symudwn at yr eitem gyntaf y prynhawn yma nawr, sef cwestiynau i'r Prif Weinidog, a Rhodri Glyn Thomas sydd gyntaf.

### Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth

### Referral-to-treatment Times

13:31

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)2739(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on referral-to-treatment times in west Wales? OAQ(4)2739(FM)*

13:31

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, rwy'n erfyn i bob claf gael ei weld yn ôl trefn blaenoriaeth glinigol ac o fewn targedau Llywodraeth Cymru ar amseroedd aros. I helpu gyda hyn, rydym ni wedi sefydlu'r rhaglen gofal wedi'i gynllunio, dan arweiniad clinigwyr, er mwyn datblygu systemau cynaliadwy.

Well, I expect all patients to be seen in order of clinical priority and within Welsh Government waiting times targets. To assist this, we have set up the planned care programme, led by clinicians, to develop sustainable solutions.

13:32

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fe gysylltodd llawfeddyg o Loegr â fi, oherwydd roedd ei fam wedi cael mynediad i'r adran strôc yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili, ac roedd e'n gresynu nad oedd gwasanaeth ffisiotherapi yno ar gyfer ei fam—ei fod e'n gwbl annigonol, yn ei eiriau fe. Wedi hynny, mae llawer iawn o staff a chleifion, a theuluoedd cleifion, wedi cysylltu â fi oherwydd ei bod hi'n amlwg, o ran triniaeth orthopedig, fod cleifion yn cael eu cyfeirio yn y lle cyntaf tuag at yr adran ffisiotherapi, yn lle cael eu cyfeirio at yr adran llawfeddyg, ac, oherwydd hynny, y mae adnoddau ffisiotherapi yn brin iawn yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. A wnewch chi siarad â'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol am y materion yma er mwyn sicrhau bod yr arfer yma yn dod i be, a bod cleifion yn cael y driniaeth haeddiannol yn ysbyty Glangwili?

A surgeon from England contacted me because his mother had been taken into the stroke unit in Glangwili hospital, and he deeply regretted the fact that the physiotherapy service wasn't in place there for his mother. He said that it was entirely inadequate. Those were his words. Since then, many staff, patients and families of patients have contacted me because it's clear that, in terms of orthopaedic treatment, patients are initially referred to the physiotherapy department, rather than being referred to the surgery department, and, as a result of that, the physiotherapy resources are very few and far between in the Hywel Dda Local Health Board area. Will you speak to the Minister and the Deputy Minister responsible for these issues in order to ensure that this practice ceases and that patients are given the treatment that they deserve in Glangwili hospital?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Fel bydd yr Aelod yn gwybod, nid ydwyf yn ymwybodol o'r pwynt y mae e wedi ei godi, ond mae'n bwysig dros ben bod hyn yn cael ei ystyried. Fe fyddaf i'n gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu at yr Aelod er mwyn ateb y cwestiynau y mae e wedi eu codi yn y Siambr y prynhawn yma.

As the Member knows, I am not aware of this case, but it is important that this be considered. I will ask the Minister to write to the Member in order to respond to the questions he has posed in the Chamber this afternoon.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, un ffordd o fynd i'r afael ag amseroedd atgyfeirio a thriniaeth yng ngorllewin Cymru yw mynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw staff yn yr ardal. Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau recriwtio yma, mae'n bwysig sicrhau bod yna nifer priodol o leoedd hyfforddi ar gael i ddoctoriaid a nyrsys. Yn yr amgylchiadau, a allwch chi ddweud wrthym ni beth ydych chi fel Llywodraeth wedi ei wneud i sicrhau hyn, ac a allwch chi hefyd ddweud wrthym ni faint o leoedd hyfforddi ychwanegol sydd wedi eu creu yn y flwyddyn ddiwethaf, er enghraifft?

First Minister, one way of tackling referral-to-treatment times in west Wales is to tackle staff recruitment and retention problems in the area. In order to address these recruitment problems, it's important that we ensure that we have an appropriate number of training places available for doctors and nurses. In these circumstances, can you tell us what you as a Government have done to ensure that these places are in place, and can you tell us how many additional training places have been created over the past year, for example?

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, i'r ddeoniaeth, wrth gwrs, y mae hyn, ynglŷn â sicrhau bod yna lefydd hyfforddi ar gael. Wrth ddweud hynny, rydym ni wedi gweld y nifer sy'n cael eu hyfforddi yn Ysbyty Treforys dros y blynyddoedd yn codi, ac mae Treforys, wrth gwrs, yn ysbyty pwysig i ardal Hywel Dda o ystyried y gwasanaethau arbenigol sydd yn yr ysbyty hynny. Ac rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, ynglŷn â'r ffigurau yn Hywel Dda, fod yna fwy o gleifion yn cael eu gweld, bod amserau aros yn mynd lawr—86 y cant o leihad, er enghraifft, yn nifer y bobl sydd yn sefyll dros wyth wythnos am brawf diagnostig. Mae e wedi mynd i lawr dros y flwyddyn ddiwethaf. Ac, wrth gwrs, rydym ni wedi gweld, er enghraifft, leihad yn y nifer sydd yn aros mwy na 36 wythnos, mwy o gleifion yn cael triniaeth am ganser, a, hefyd, mwy o bobl yn cael triniaeth o fewn y targedau yr ydym wedi eu seto ynglŷn â chanser ei hunan. Felly, mae'r ffigurau ynglŷn â Hywel Dda wedi gwella, ac, wrth gwrs, rydym ni'n dal i weithio gyda'r proffesiwn, a hefyd gyda'r colegau brenhinol, er mwyn ystyried pa gyfleon eraill fyddai ar gael i greu llefydd hyfforddi ar draws Cymru.

Well, it's a matter for the deanery, of course, to ensure that these training places are available. Having said that, we've seen the numbers being trained at Morriston Hospital rising over the years. Morriston Hospital, of course, is an important hospital to the Hywel Dda area given the specialist services provided by that hospital. As regards the Hywel Dda figures, we know, of course, that more patients are being seen, and the waiting times are reducing. There's been an 86 per cent reduction in the number of people waiting over eight weeks for a diagnostic test. They've reduced over the last year. And, of course, we've seen, for example, a reduction in the numbers waiting more than 36 weeks, more patients receiving treatment for cancer, and more people receiving treatment within the targets that we have set in relation to cancer. So, the Hywel Dda figures have improved and, of course, we continue to work with the profession and the royal colleges in order to consider what other opportunities might be available to create training places across the whole of Wales.

Senedd.tv Fideo Video

## Buddsoddiad ym Maes Biotechnoleg

## Biotech Investment

13:35 **William Graham** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru i ddenu buddsoddiad ym maes biotechnoleg i Gymru? OAQ(4)2738(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's strategy to attract biotech investment into Wales? OAQ(4)2738(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We've committed to making Wales the best possible environment for life sciences innovation and business growth. Our life sciences strategy sets out our priorities to attract biotech investment into Wales, including funding, proposition strengthening and ecosystem development.

Rydym wedi ymrwymo i wneud Cymru yr amgylchedd gorau posibl ar gyfer arloesedd gwyddorau bywyd a thwf busnes. Mae ein strategaeth gwyddorau bywyd yn nodi ein blaenoriaethau i ddenu buddsoddiad biotechnoleg i Gymru, gan gynnwys cyllid, cryfhau'r cynnig a datblygu'r ecosystem.

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the First Minister for his reply. He'll be aware of rather critical comments recently, but he will also know that his predecessor was very keen that we should be a smart small country and how important the attraction of this investment is to Wales, both for the future of this generation and for future generations. Will the Minister outline what strategy he intends to employ to make sure this is another success?

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ateb. Bydd yn ymwybodol o sylwadau beirniadol braidd yn ddiweddar, ond bydd hefyd yn gwybod bod ei ragflaenydd yn awyddus iawn y dylem fod yn wlad fach glyfar a pha mor bwysig yw denu'r buddsoddiad hwn i Gymru, ar gyfer dyfodol y genhedlaeth hon ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa strategaeth y mae'n bwriadu ei dilyn i wneud yn siŵr bod hyn yn llwyddiant arall?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The life sciences investment fund has, to date, made 11 investments into nine companies. It has attracted considerable levels of co-investment and significantly raised the global profile of the sector in Wales as a thriving location for life science companies. On top of that, of course, the life sciences hub has been developed. That's welcomed more than 5,000 visitors and it has facilitated more than 80 life science events and 850 meetings, whilst 81 member organisations have joined the hub.

Hyd yn hyn, mae'r gronfa buddsoddi mewn gwyddorau bywyd wedi gwneud 11 buddsoddiad mewn naw cwmni. Mae wedi denu lefelau sylweddol o gyd-fuddsoddiad ac wedi codi proffil byd-eang y sector yng Nghymru yn sylweddol fel lleoliad ffyniannus ar gyfer cwmnïau gwyddorau bywyd. Yn ogystal â hynny, wrth gwrs, datblygwyd y ganolfan gwyddorau bywyd. Mae honno wedi croesawu dros 5,000 o ymwelwyr ac wedi hwyluso mwy na 80 o ddigwyddiadau gwyddor bywyd ac 850 o gyfarfodydd, ac mae 81 o aelod-sefydliadau wedi ymuno â'r ganolfan.

13:36 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

William Graham has already referred to the Wales Audit Office report last week. That confirms that the successful tenderer for delivery of the fund was paid £207,600 for deals that were in the pipeline in October 2012 and a further £480,000 thereafter. Finance Wales then asked for confirmation from the Welsh Government with regard to confirmation from the Minister that they should pay the additional sum that was being requested, but they refused to do so without confirmation from the Minister. The Welsh Government then went on to pay £370,800 directly to the successful tenderer and that was only some £32,000 less than the contract allowed for had he been in a position to sign the contract at the time originally intended. Can I ask whether or not the Welsh Government are in a position to explain the reasons for the totality of payments to the successful tenderer under the interim arrangements and why no deductions were made to the tenderer, given that they were unable, during that period, to perform one of the key functions because there was no registration with the Financial Services Authority?

Mae William Graham eisoes wedi cyfeirio at adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yr wythnos diwethaf. Mae hwnnw'n cadarnhau y talwyd £207,600 i'r tendrwr llwyddiannus ar gyfer darparu'r gronfa ar gyfer cytundebau a oedd ar y gweill ym mis Hydref 2012 a £480,000 arall wedi hynny. Gofynnodd Cyllid Cymru am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru o ran cadarnhad gan y Gweinidog y dylai dalu'r swm ychwanegol y gofynnwyd amdano, ond gwrthododd wneud hynny heb gadarnhad gan y Gweinidog. Aeth Llywodraeth Cymru yn ei blaen wedyn i dalu £370,800 yn uniongyrchol i'r tendrwr llwyddiannus ac nid oedd hynny ond tua £32,000 yn llai nag yr oedd y contract yn ei ganiatáu pe byddai wedi bod mewn sefyllfa i lofnodi'r contract ar yr adeg y bwriadwyd yn wreiddiol. A gaf i ofyn a yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i esbonio'r rhesymau am gyfanswm y taliadau i'r tendrwr llwyddiannus o dan y trefniadau dros dro a pham na wnaed unrhyw ddidyniadau i'r tendrwr, o gofio nad oedd yn gallu, yn ystod y cyfnod hwnnw, cyflawni un o'r swyddogaethau allweddol gan nad oedd cofrestriad gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Regarding the report itself, we will, of course, consider the report and respond in due course in a comprehensive manner.

O ran yr adroddiad ei hun, byddwn, wrth gwrs, yn ystyried yr adroddiad ac yn ymateb maes o law mewn modd cynhwysfawr.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon is the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:37 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch. Dydd Gŵyl Dewi hapus i bawb.

Thank you. Happy St David's Day to you all.

Happy St David's Day to everyone. First Minister, I'm aware that there's to be a statement later on on the Wales Bill, but on the day of our national patron saint and given developments this week, I think it's important to focus on the matter fully now. The Secretary of State for Wales has decided to press the pause button and delay the Bill now until the summer. Do you agree that the forthcoming Assembly elections are an opportunity to seek a mandate from people on the nature of devolution and do you agree with Plaid Cymru that it is their will that should shape the future of devolution and that Act, rather than the whim of Westminster?

Dydd Gŵyl Dewi hapus i bawb. Brif Weinidog, rwy'n ymwybodol y bydd datganiad yn nes ymlaen ar Fil Cymru, ond ar ddiwrnod ein nawddsant cenedlaethol ac o ystyried datblygiadau yr wythnos hon, rwy'n credu ei bod yn bwysig canolbwyntio ar y mater yn llawn nawr. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi penderfynu pwyso'r botwm saib ac oedi'r Bil nawr tan yr haf. A ydych chi'n cytuno bod etholiadau nesaf y Cynulliad yn gyfle i geisio mandad gan bobl ar natur datganoli ac a ydych chi'n cytuno â Phlaid Cymru mai eu hewyllys nhw ddylai lunio dyfodol datganoli a'r Ddeddf honno, yn hytrach na mympwy San Steffan?

13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

She and I are very much on the same page when it comes to our view of the Wales Bill. I'll go into more detail when I make the statement, but suffice it to say that it's quite clear that the points that were made by the Welsh Government have influenced the course of action that the Secretary of State has taken. The leader of Plaid Cymru is absolutely right to say that these things are a matter for the people of Wales and it's up to the people of Wales to decide what degree of power they wish to see devolved.

Mae hi a minnau yn sicr o'r un meddylfryd pan ddaw i'n barn ar Fil Cymru. Byddaf yn mynd i fwy o fanylder pan fyddaf yn gwneud y datganiad, ond nid oes amheuaeth ei bod yn gwbl eglur bod y pwyntiau a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru wedi dylanwadu ar y camau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi eu cymryd. Mae arweinydd Plaid Cymru yn llygad ei lle i ddweud bod y pethau hyn yn fater i bobl Cymru a chyfrifoldeb pobl Cymru yw penderfynu faint o bŵer yr hoffent ei weld yn cael ei ddatganoli.

13:39 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I would agree with that, First Minister, but the nature and pace of Welsh devolution have been a clear point of division within your party. Labour MPs, including Labour Secretaries of State for Wales, over many years have acted as roadblocks on Wales's devolution journey. Can you then give us an assurance today, First Minister, that the current position of the Welsh Government is the same as the current position of the Labour Party? If it is one position, can you tell us, please, what exactly your vision is for the next stage of Welsh devolution?

Byddwn yn cytuno â hynny, Brif Weinidog, ond mae natur a chyflymder datganoli yng Nghymru wedi bod yn bwynt eglur o raniad yn eich plaid. Mae ASau Llafur, gan gynnwys Ysgrifenyddion Gwladol Llafur dros Gymru, wedi rhwystro taith ddatganoli Cymru dros flynyddoedd lawer. A allwch chi roi sicrwydd i ni heddiw felly, Brif Weinidog, bod safbwynt presennol Llywodraeth Cymru yr un fath â safbwynt presennol y Blaid Lafur? Os yw'n un safbwynt, a allwch chi ddweud wrthym, os gwelwch yn dda, beth yn union yw eich gweledigaeth ar gyfer cam nesaf datganoli yng Nghymru?

13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, I would remind the leader of Plaid Cymru that it was a Welsh Government led by Welsh Labour that delivered the referendum in 2011 in the first place. We did campaign, alongside other parties, of course, very strongly and very hard to make sure that we delivered an overwhelming 'yes' vote in 2011. The Welsh Labour Party and the Welsh Government is one and the same. The Bill was inadequate. It was never going to be sustainable, and we wait to see what the Secretary of State wants to do next. To my mind, Minister of the Crown consents, as proposed in the Bill, were unacceptable, and the same with the necessity test and the same with the reservations. The issue of creating a sustainable constitutional framework for Wales cannot be done without addressing the issue of the jurisdiction.

Yn gyntaf oll, byddwn yn atgoffa arweinydd Plaid Cymru mai Llywodraeth Cymru dan arweiniad Llafur Cymru a ddarparodd y refferendwm yn 2011 yn y lle cyntaf. Fe wnaethom ymgyrchu, ochr yn ochr â phleidiau eraill, wrth gwrs, yn gryf iawn ac yn galed iawn i sicrhau ein bod yn cael pleidlais gadarnhaol enfawr yn 2011. Mae Plaid Lafur Cymru a Llywodraeth Cymru yr un fath. Roedd y Bil yn annigonol. Nid oedd byth yn mynd i fod yn gynaliadwy, ac rydym ni'n aros i weld beth mae'r Ysgrifennydd Gwladol eisiau ei wneud nesaf. Yn fy marn i, roedd cydsyniadau Gweinidog y Goron, fel y'u cynigiwyd yn y Bil, yn annerbyniol, ac roedd yr un peth yn wir am y prawf angenrheidrwydd a'r cymalau cadw. Ni ellir mynd i'r afael â'r mater o greu fframwaith cyfansoddiadol cynaliadwy i Gymru heb roi sylw i'r mater o awdurdodaeth.

13:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you and I know that it was Plaid Cymru in that Government that drove that referendum on further. [Interruption.] You were pulled to that table, in many instances, kicking and screaming, First Minister. [Interruption.] First Minister, Welsh devolution has been stalling because of splits in Labour, just as the UK's place in the European Union is under threat because of splits in the Conservative Party. It's no coincidence, is it, First Minister, that the nation with the weakest devolution settlement, the least generous funding arrangements, and the least influence is the only nation left with a Labour Government? Now, I wonder whether you can tell us: is there a single concession that you've won for Welsh devolution during your decade as First Minister that wouldn't have been secured in any event? Put simply, First Minister, what have you won from Westminster for the people of Wales?

Brif Weinidog, rydych chi a minnau'n gwybod mai Plaid Cymru yn y Llywodraeth honno wnaeth sbarduno'r refferendwm hwnnw ymhellach. [Torri ar draws.] Cawsoch eich llusgo at y bwrdd hwnnw, mewn llawer o achosion, yn cicio ac yn sgrechian, Brif Weinidog. [Torri ar draws.] Brif Weinidog, mae datganoli yng Nghymru wedi bod yn arafu oherwydd rhaniadau yn y Blaid Lafur, yn union fel y mae lle'r DU yn yr Undeb Ewropeaidd o dan fygythiad oherwydd rhaniadau yn y Blaid Geidwadol. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad, ydy e, Brif Weinidog, mai'r genedl â'r setliad datganoli gwannaf, y trefniadau ariannu lleiaf hael, a'r lleiaf o ddylanwad yw'r unig wlad sydd yn dal i fod â Llywodraeth Lafur? Nawr, tybed a allwch chi ddweud wrthym: a oes unrhyw un consesiwn yr ydych chi wedi ei ennill ar gyfer datganoli yng Nghymru yn ystod eich degawd fel Prif Weinidog na fyddai wedi cael ei sicrhau beth bynnag? Yn syml, Brif Weinidog, beth ydych chi wedi ei ennill i bobl Cymru gan San Steffan?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The referendum itself, for a start, that gave us the powers to do what we have done to pass 24 Acts since 2011—a large body of legislation, proposed by Government; a body of legislation that the Assembly itself was able to scrutinise properly, because we know that sound legislation has been the result. So, we have delivered on the referendum. I do regret that she's suggesting that somehow we were reluctant in 2011. She can't surely think that I was reluctantly spending every day campaigning in favour of a 'yes' vote. Indeed, it was Welsh Labour—and, indeed, her party as well—that delivered the votes and the voters that were needed to make sure that this place became a proper legislature. We will continue to make the case to the UK Government that we need that process to continue. Now, she asked me what influence we have had. We have made sure that the Secretary of State was not able to proceed with the Wales Bill as he proposed. We were the ones who pointed out the weaknesses constitutionally. We were the ones that pointed out the issues regarding Minister of the Crown consents, the issues regarding the necessity test, the issues regarding the reservations and, indeed, the issues regarding the jurisdiction and the need for a distinct jurisdiction. So, from our point of view, as a Government, we have made sure that we very much stood up for Wales's interests.

Y refferendwm ei hun, i ddechrau, a roddodd y pwerau i ni wneud yr hyn yr ydym ni wedi ei wneud i basio 24 Deddf ers 2011—casgliad mawr o ddeddfwriaeth, a gynigiwyd gan y Llywodraeth; casgliad o ddeddfwriaeth yr oedd y Cynulliad ei hun yn gallu craffu arno'n iawn, gan ein bod yn gwybod mai deddfwriaeth gadarn fu'r canlyniad. Felly, rydym ni wedi cyflawni o ran y refferendwm. Rwy'n gresynu ei bod hi'n awgrymu rywsut ein bod ni'n amharod yn 2011. Does bosib ei bod hi'n meddwl fy mod i'n treulio bob diwrnod yn anfodlon yn ymgyrchu dros bleidlais gadarnhaol. Yn wir, Llafur Cymru—ac, yn wir, ei phlaid hithau hefyd—a ddarparodd y pleidleisiau a'r pleidleiswyr yr oedd eu hangen i sicrhau bod y lle hwn yn ddeddfwrfa wirioneddol. Byddwn yn parhau i ddadlau'r achos i Lywodraeth y DU bod angen i'r broses honno barhau. Nawr, gofynnodd i mi pa ddylanwad yr ydym ni wedi ei gael. Rydym ni wedi gwneud yn siŵr nad oedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu bwrw ymlaen â Bil Cymru fel yr oedd yn ei gynnig. Ni oedd y rhai a nododd y gwendidau yn gyfansoddiadol. Ni oedd y rhai a nododd y problemau'n ymwneud â chydsyniadau Gweinidog y Goron, y problemau'n ymwneud â'r prawf angenrheidrwydd, y problemau'n ymwneud â'r cymalau cadw ac, yn wir, y problemau'n ymwneud â'r awdurdodaeth a'r angen am awdurdodaeth ar wahân. Felly, o'n safbwynt ni, fel Llywodraeth, rydym ni wedi gwneud yn siŵr ein bod wedi sefyll yn gadarn dros fuddiannau Cymru.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:43

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer. First Minister, last week we heard from the current Member for the Rhondda that he had a rousing reception at the Labour Party conference in Llandudno. [Interruption.] He also gets a very good reception here; no doubt, before he is sent off packing. The point I want to ask you about, First Minister, is that you launched your pledge card at that conference. One thing about this Assembly is that you've spent a lot of time in the last five years talking about local government reorganisation and, time and time again, you've commissioned reports, such as the Williams report, and pieces of work to look at what would be the best local government map for Wales going forward. Because it was the one thing that didn't come out of your conference, can you confirm today that if you are re-elected in May—and God help us if you are—the Vale of Glamorgan, Pembrokeshire, Carmarthenshire, Monmouthshire, Denbighshire and Conwy will disappear from the face of the local government map here in Wales?

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf clywsom gan yr Aelod presennol dros y Rhondda iddo gael croeso bywiog yng nghynhadledd y Blaid Lafur yn Llandudno. [Torri ar draws.] Mae hefyd yn cael croeso da iawn yma; cyn iddo gael ei anfon ar ei ffordd, yn ddiau. Y pwynt yr hoffwn eich holi amdano, Brif Weinidog, yw eich bod wedi lansio eich cerdyn addewid yn y gynhadledd honno. Un peth am y Cynulliad hwn yw eich bod wedi treulio llawer o amser yn y pum mlynedd diwethaf yn siarad am ad-drefnu llywodraeth leol a, dro ar ôl tro, rydych chi wedi comisiynu adroddiadau, fel adroddiad Williams, a darnau o waith i ystyried beth fyddai'r map llywodraeth leol gorau i Gymru yn y dyfodol. Oherwydd mai dyna'r un peth na ddaeth allan o'ch cynhadledd, a allwch chi gadarnhau heddiw, os cewch eich ail-ethol ym mis Mai—a Duw a'n helpo os cewch chi—y bydd Bro Morgannwg, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Sir Fynwy, Sir Ddinbych a Chonwy yn diflannu oddi ar wyneb y map llywodraeth leol yma yng Nghymru?

13:44

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think it's a sign of desperation from the leader of the opposition that he's already given up on the election campaign. There we are; it was an interesting comment that he made. Local government mergers we would seek to move ahead with in order to provide a stronger basis for local government in Wales. We've always said that.

Wel, rwy'n meddwl ei fod yn arwydd o anobaith gan arweinydd yr wrthblaid ei fod eisoes wedi rhoi'r ffidil yn y to yn yr ymgyrch etholiadol. Dyna ni; roedd yn sylw diddorol a wnaeth. Byddem yn ceisio bwrw ymlaen ag uno llywodraeth leol er mwyn darparu sail gryfach ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Rydym ni wedi dweud hynny erioed.

13:44

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I take it, by your answer, that you do mean that if the people of Wales were to re-elect you—and I'm sure that they're not going to do that, but if they were to re-elect you—they would be losing the Vale of Glamorgan, Monmouthshire, Pembrokeshire, Carmarthenshire, Denbighshire and Conwy, and, ultimately, those great place names will disappear from the face of Wales and people will lose the services that they depend on from those local authorities. The one thing that you and I can agree on, I hope, is that the health service needs total reorganisation like a hole in the head. Under Labour in the last 10 years, along with Plaid Cymru, we've had two reorganisations. Can you confirm, on your assessment of where the NHS is at the moment, First Minister, that the NHS does not need complete reorganisation here in Wales? That would be devastating to morale and costly in financial terms.

Rwy'n cymryd, o'ch ateb, eich bod yn golygu pe byddai pobl Cymru yn eich ail-ethol—ac rwy'n siŵr nad ydynt yn mynd i wneud hynny, ond pe bydden nhw'n eich ail-ethol—byddent yn colli Bro Morgannwg, Sir Fynwy, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych a Chonwy, ac, yn y pen draw, byddai'r enwau lleoedd gwych hynny'n diflannu oddi ar wyneb Cymru a bydd pobl yn colli'r gwasanaethau y maen nhw'n dibynnu arnynt gan yr awdurdodau lleol hynny. Yr un peth y gallwch chi a minnau gytuno arno, rwy'n gobeithio, yw bod y gwasanaeth iechyd angen ad-drefnu llwyr cymaint ag y mae angen twll yn y pen. O dan Lafur yn y 10 mlynedd diwethaf, ynghyd â Phlaid Cymru, rydym ni wedi cael dau ad-drefniad. A allwch chi gadarnhau, o'ch asesiad chi o sefyllfa'r GIG ar hyn o bryd, Brif Weinidog, nad oes angen ad-drefnu'r GIG yn llwyr yma yng Nghymru? Byddai hynny'n drychinebus i ysbryd ac yn gostus o safbwynt ariannol.

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, first things first: Pembrokeshire, Radnorshire, Breconshire, Denbighshire, Flintshire were all abolished in 1974 by his party. So, in fact, his party have a very good track record of abolishing historic counties in Wales, and now he accuses us of doing the same thing. He's forgotten that—that it was the Heath Government that actually took that forward under the Local Government Act 1972. So, we're not going to take any lessons from the Conservative Party on local government reorganisation: they got rid of the 13 counties at that point, and then they imposed 22 authorities that nobody wanted in the mid-1990s. There will be no wholesale reorganisation of the health service. We want to see the health service deliver, and we don't want to see it end up as a giant quango. We don't want to see it in a position where we have health boards that only look at their own area. We want to have a health service where health boards work together to deliver the best for the people of Wales.

Wel, yn gyntaf oll: cafodd Sir Benfro, Sir Faesyfed, Sir Frycheiniog, Sir Ddinbych, Sir y Fflint i gyd eu dileu ym 1974 gan ei blaid ef. Felly, mewn gwirionedd, mae gan ei blaid ef hanes da iawn o ddileu siroedd hanesyddol yng Nghymru, ac yn awr mae'n ein cyhuddo ni o wneud yr un peth. Mae wedi anghofio hynny—mai Llywodraeth Heath a wnaeth hynny mewn gwirionedd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid ydym yn mynd i dderbyn unrhyw wersi gan y Blaid Geidwadol ar ad-drefnu llywodraeth leol: cawsant wared ar y 13 sir yr adeg honno, gan gyflwyno 22 o awdurdodau nad oedd neb eu heisiau yng nghanol y 1990au. Ni fydd unrhyw ad-drefnu graddfa eang o'r gwasanaeth iechyd. Rydym ni eisiau gweld y gwasanaeth iechyd yn cyflawni, ac nid ydym ni eisiau ei weld fel cwango enfawr yn y pen draw. Nid ydym ni eisiau ei weld mewn sefyllfa lle mae gennym ni fyrddau iechyd sy'n edrych ar eu hardaloedd eu hunain yn unig. Rydym ni eisiau gwasanaeth iechyd lle mae byrddau iechyd yn cydweithio i ddarparu'r gorau ar gyfer pobl Cymru.

13:46 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, you got there in the end, and I think you did confirm that you agree with me that reorganisation of the health service—complete reorganisation of the health service—is something that's completely unwarranted and is not needed here in Wales, although you did bizarrely talk about Radnorshire when I didn't even mention Radnorshire to you, First Minister. But, there you go, that's something time and time again you'll bring up. [Interruption.]

Wel, fe gyrhaeddoch chi yn y pen draw, ac rwy'n meddwl eich bod wedi cadarnhau eich bod yn cytuno â mi bod ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd—ad-drefniad llwyr o'r gwasanaeth iechyd—yn rhywbeth sy'n hollol ddiangen ac nad oes ei angen yma yng Nghymru, er eich bod yn sôn yn rhyfedd iawn am Sir Faesyfed pan na wnes i hyd yn oed grybwyll Sir Faesyfed wrthych, Brif Weinidog. Ond, dyna ni, mae hynny'n rhywbeth y byddwch chi ei godi dro ar ôl tro. [Torri ar draws.]

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order. Order.

Trefn, trefn. Trefn.

13:46 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of the other pledges you've talked of coming out of your conference was the help to buy scheme that your Government, 18 months after the UK Government brought it forward in England, actually brought into Wales, and you talked of this giving a leg up to homebuyers in Wales. Well, actually, you're talking about taking two thirds of the budget from the help to buy scheme out in this financial year. How is taking two thirds of that budget out helping people to get the homes that they require across Wales? If you look at the figures, in Ceredigion, only six people benefited from the scheme. In Newport, 435 people benefited from it. So, how are you giving homebuyers a leg up when you're taking two thirds of that budget away from people in Wales?

Brif Weinidog, un o'r addewidion eraill yr ydych chi wedi dweud y bydd yn deillio o'ch cynhadledd oedd y cynllun cymorth i brynu a gyflwynwyd gan eich Llywodraeth, 18 mis ar ôl i Lywodraeth y DU ei gyflwyno yn Lloegr, a soniasoch y byddai hwn yn rhoi hwb i brynwyr tai yng Nghymru. Wel, mewn gwirionedd, rydych chi'n sôn am gymryd dwy ran o dair o'r gyllideb o'r cynllun cymorth i brynu allan yn y flwyddyn ariannol hon. Sut y mae cymryd dwy ran o dair o'r gyllideb honno allan yn helpu pobl i gael y cartrefi sydd eu hangen arnynt ledled Cymru? Os edrychwch chi ar y ffigurau, yng Ngheredigion, dim ond chwech o bobl wnaeth elwa ar y cynllun. Yng Nghasnewydd, fe wnaeth 435 o bobl elwa arno. Felly, sut ydych chi'n rhoi hwb i brynwyr tai pan eich bod yn cymryd dwy ran o dair o'r gyllideb honno oddi wrth bobl yng Nghymru?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First of all, the scheme is demand-led. Secondly, what we will not do is see the continued sell-off of public housing, which is why we're going to abolish the right to buy. Why? Because, otherwise, it's the equivalent of trying to fill up a bath with the plug out, which is what the Conservative Party wants to do. I'm looking again at the figures that they've put forward in terms of housing. They wanted to cut the environment, sustainability and housing budget by 25 per cent—there we are—just to remind us all of where they actually stand on this. And I have to remind him that I'm more than happy to talk about our pledges, our six pledges to the people of Wales. We believe they'll resonate with the people of Wales. They are ambitious for Wales, and they are six pledges that we believe people will be supportive of. We look forward to seeing what the Conservative Party will produce, and we particularly look forward to seeing their costings, because, the last time we asked them this, they said they hadn't crunched the numbers.

Yn gyntaf oll, mae'r cynllun yn cael ei arwain gan alw. Yn ail, yr hyn na fyddwn yn ei wneud yw gweld tai cyhoeddus yn parhau i gael eu gwerthu, a dyna pam yr ydym ni'n mynd i ddiddymu'r hawl i brynu. Pam? Oherwydd, fel arall, mae'n cyfateb i geisio llenwi bath gyda'r plwg allan, sef yr hyn y mae'r Blaid Geidwadol eisiau ei wneud. Rwy'n edrych eto ar y ffigurau y maen nhw wedi eu cyflwyno o ran tai. Roedden nhw eisiau torri 25 y cant ar gyllideb yr amgylchedd, cynaliadwyedd a thai—dyna ni—dim ond i'n hatgoffa ni i gyd o'u safbwynt gwirioneddol yn hyn o beth. Ac mae'n rhaid i mi ei atgoffa fy mod i'n fwy na hapus i siarad am ein haddewidion, ein chwe addewid i bobl Cymru. Rydym ni'n credu y byddant yn cyseinio gyda phobl Cymru. Maen nhw'n uchelgeisiol dros Gymru, ac maen nhw'n chwe addewid yr ydym ni'n credu y bydd pobl yn eu cefnogi. Rydym ni'n edrych ymlaen at weld beth fydd y Blaid Geidwadol yn ei gynhyrchu, ac yn edrych ymlaen yn arbennig at weld eu costau, oherwydd, y tro diwethaf y gofynnwyd hyn iddynt, dywedasant nad oeddent wedi dadansoddi'r rhifau.

13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd.

First Minister, this week, we've seen news reports of doctor shortages across the UK, and a poll today that says that the NHS is the top concern for people in Wales. Now, last week, in questions, you said that you were not aware of any patient suffering due to a lack of GPs in north Wales, and, in response, the chairman of the Royal College of GPs in north Wales said, and I quote:

Brif Weinidog, yr wythnos hon, rydym ni wedi gweld adroddiadau ar y newyddion ar brinder meddygon ledled y DU, ac arolwg heddiw sy'n dweud mai'r GIG yw'r prif bryder i bobl yng Nghymru. Nawr, yr wythnos diwethaf, yn ystod cwestiynau, dywedasoch nad oeddech yn ymwybodol o unrhyw ddioddefaint cleifion oherwydd diffyg meddygon teulu yn y gogledd, ac, mewn ymateb, dywedodd cadeirydd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu yn y gogledd, a dyfynnaf:

'The number of GPs working full-time has not increased and GP provision in the north is getting worse. Patients are bearing the brunt of this with longer waiting times and pressured consultations.'

Nid yw nifer y meddygon teulu sy'n gweithio'n llawn amser wedi cynyddu ac mae darpariaeth meddygon teulu yn y gogledd yn gwaethygu. Cleifion sy'n dioddef oherwydd hyn trwy amseroedd aros hwy ac ymgynghoriadau dan bwysau.

What makes you think that you know better than GPs working on the ground in north Wales?

Beth sy'n gwneud i chi feddwl eich bod yn gwybod yn well na meddygon teulu sy'n gweithio ar lawr gwlad yn y gogledd?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, could I answer that question in two ways—first of all, to outline where we are in terms of doctor numbers in Wales, and, secondly, what we're doing to address challenges in some parts of Wales, which, undoubtedly, are there? The number of hospital consultants working in the Welsh NHS increased by nearly 50 per cent between 2004 and 2014. The number of medical and dental staff has increased by 27.5 per cent. The number of GPs—and this excludes registrars, retainers and locums—saw an increase of 10.5 per cent during that time, where there were 2,006 GPs as of September 2014. Between 2013 and 2014, 137 new GPs joined the profession in Wales, and the number of registered patients per general practitioner has fallen by 5.5 per cent to 1,582. That said, there are parts of Wales where there are challenges in attracting GPs. What we're doing is working with the British Medical Association, with the general practitioners committee and with the royal college in order to address those particular issues, and of course to encourage more people to work in those parts of Wales that have experienced difficulties with recruitment in the recent past.

Wel, gallwn i ateb y cwestiwn yna mewn dwy ffordd—yn gyntaf oll, trwy amlinellu ein sefyllfa o ran niferoedd meddygon yng Nghymru, ac, yn ail, yr hyn yr ydym ni'n ei wneud i ymateb i heriau mewn rhai rhannau o Gymru, sydd, heb os, yn bodoli? Cynyddodd nifer y meddygon ymgynghorol mewn ysbytai sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru gan bron i 50 y cant rhwng 2004 a 2014. Mae nifer y staff meddygol a deintyddol wedi cynyddu 27.5 y cant. Bu cynnydd o 10.5 y cant i nifer y meddygon teulu—ac nid yw hyn yn cynnwys cofrestryddion, meddygon ar gadw a staff locwm—yn ystod y cyfnod hwnnw, pan yr oedd 2,006 o feddygon teulu ym mis Medi 2014. Rhwng 2013 a 2014, ymunodd 137 o feddygon teulu newydd â'r proffesiwn yng Nghymru, ac mae nifer y cleifion sydd wedi'u cofrestru fesul meddyg teulu wedi gostwng 5.5 y cant i 1,582. Wedi dweud hynny, mae rhannau o Gymru lle ceir heriau o ran denu meddygon teulu. Yr hyn yr ydym ni'n ei wneud yw gweithio gyda Chymdeithas Feddygol Prydain, gyda'r pwyllgor meddygon teulu a chyda'r coleg brenhinol i roi sylw i'r materion penodol hynny, ac wrth gwrs i annog mwy o bobl i weithio yn y rhannau hynny o Gymru sydd wedi cael anawsterau o ran recriwtio yn y gorffennol diweddar.

13:50 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm glad you've acknowledged that the figure for GP increases is 10 per cent. I think maybe the answers that you gave last week could have been misunderstood by people, when you said that you'd recruited over 2,000 GPs. I mean, we do have 2,006 GPs in Wales, but we haven't recruited an additional 2,000 GPs in the last 10 years, and your documents do state that a number of health boards have identified difficulties in recruiting general practitioners. What that means for patients was reflected in your own health survey, when 40 per cent of those who responded to the Wales health report said that they've had difficulties securing a GP appointment. Now, will you accept that there are issues with GP recruitment and a knock-on effect to patients gaining an appointment, or should we conclude that the north Wales GP, who, in response to your questions last week, accused you of being 'removed from reality'—who was right?

Rwy'n falch eich bod wedi cydnabod mai 10 y cant yw'r ffigur ar gyfer y cynnydd yn nifer y meddygon teulu. Rwy'n meddwl efallai y gallai'r atebion a roesoch yr wythnos diwethaf fod wedi cael eu camddeall gan bobl, pan ddywedasoch y byddech yn recriwtio dros 2,000 o feddygon teulu. Hynny yw, mae gennym ni 2,006 o feddygon teulu yng Nghymru, ond nid ydym ni wedi recriwtio 2,000 o feddygon teulu ychwanegol yn y 10 mlynedd diwethaf, ac mae eich dogfennau yn datgan bod nifer o fyrddau iechyd wedi nodi anawsterau wrth recriwtio meddygon teulu. Adlewyrchwyd yr hyn y mae hynny'n ei olygu i gleifion yn eich arolwg iechyd eich hun, pan ddywedodd 40 y cant o'r rhai a ymatebodd i adroddiad iechyd Cymru eu bod wedi cael trafferth i gael apwyntiad gyda meddyg teulu. Nawr, a wnewch chi dderbyn bod problemau gyda recriwtio meddygon teulu a sgil-effaith i gleifion o ran cael apwyntiad, neu a ddylem ni ddod i'r casgliad mai'r meddyg teulu o'r gogledd, a'ch cyhuddodd, mewn ymateb i'ch cwestiynau yr wythnos diwethaf, o fod ar wahân i realiti—pwy oedd yn iawn?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I do use a GP, as does everyone else in Wales, so it's not as if we're 'removed from reality'. I think it's right to say that there's inconsistency in different services across Wales; that's true. There are some GP surgeries where it is possible to get an appointment tomorrow; I know that. There are others where it's more difficult, and working with the profession—they are independent contractors at the end of the day—we want to make sure that those inconsistencies are ironed out. In fairness, the profession has responded to that. We see more GP surgeries open now during core hours, we're seeing more open in the evenings, and that's something we want to work with the profession on to make sure that that trend continues in the future.

Wel, rwy'n defnyddio meddyg teulu, fel y mae pawb arall yng Nghymru, felly nid yw fel pe byddem 'ar wahân i realiti'. Rwy'n meddwl ei bod yn iawn i ddweud bod anghysondeb mewn gwahanol wasanaethau ledled Cymru; mae hynny'n wir. Ceir rhai meddygfeydd lle mae'n bosibl cael apwyntiad yfory; rwy'n gwybod hynny. Ceir eraill lle mae'n fwy anodd, a chan weithio gyda'r proffesiwn—contractwyr annibynnol ydyn nhw yn y pen draw—rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod yr anghysondebau hynny'n cael eu datrys. A bod yn deg, mae'r proffesiwn wedi ymateb i hynny. Rydym ni'n gweld mwy o feddygfeydd teulu ar agor yn ystod oriau craidd nawr, rydym ni'n gweld mwy ar agor fin nos, ac mae hynny'n rhywbeth yr hoffem ni weithio arno gyda'r proffesiwn i wneud yn siŵr bod y duedd honno'n parhau yn y dyfodol.

13:51 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, what we do need to do is ensure that we are training more people to become GPs to work in our health service, but Wales has only filled 85 per cent of its GP training places. That's a total of 107 new trainees, but, based on expected future demands, we need to be training 190 new trainees every year. Now, given the difficulties of recruiting to existing training places, and the fact that those training places will not meet future demand for general practitioner services, would you agree with me that, potentially, the problem is going to get worse for patients in Wales, not better?

Wrth gwrs, yr hyn y mae angen i ni ei wneud yw sicrhau ein bod yn hyfforddi mwy o bobl i fod yn feddygon teulu i weithio yn ein gwasanaeth iechyd, ond dim ond 85 y cant o'i lleoedd hyfforddi meddygon teulu y mae Cymru wedi eu llenwi. Mae hynny'n gyfanswm o 107 o hyfforddeion newydd, ond, yn seiliedig ar alw a ddisgwylir yn y dyfodol, mae angen i ni fod yn hyfforddi 190 o hyfforddeion newydd bob blwyddyn. Nawr, o ystyried yr anawsterau o recriwtio i leoedd hyfforddi presennol, a'r ffaith na fydd y lleoedd hyfforddi hynny'n bodloni galw'r dyfodol am wasanaethau meddyg teulu, a fyddech chi'n cytuno â mi bod y broblem, o bosibl, yn mynd i waethygu i gleifion yng Nghymru, yn hytrach na gwella?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No. I take the point about ensuring that we can train as many people as possible, but the reality is that, for more than 50 years, we have attracted doctors into Wales from other countries. It will always be the case. It has been the case since that time. The key to recruiting more GPs is to create the environment for them where they can prosper, where they can innovate, where they can truly feel part of a community and working for a community. It's not about money. It's about making sure that the freedoms to innovate are there that GPs would want to see, and those freedoms that they would want to use. We constantly look to recruit abroad, and we say to doctors in other countries, 'Come to Wales; it's a good working environment', and, historically, over the last 50 years or more, we have recruited from other countries. We will continue, of course, to work with the profession to make sure that we can attract more GP training places. There is a problem across England, Wales and Northern Ireland in terms of recruiting doctors, so it's not a problem that is peculiar to Wales, but nevertheless it's an issue that we will look, with the profession, to address.

Na fyddwn. Rwy'n derbyn y pwynt ynghylch sicrhau y gallwn hyfforddi cynifer o bobl â phosibl, ond y gwir amdani yw ein bod ni wedi denu meddygon i Gymru o wledydd eraill ers mwy na 50 mlynedd. Bydd hynny'n wir bob amser. Mae wedi bod yn wir ers yr adeg honno. Yr allwedd i recriwtio mwy o feddygon teulu yw creu'r amgylchedd iddyn nhw lle gallant ffynnu, lle y gallant arloesi, lle y gallant wir deimlo'n rhan o gymuned a gweithio i gymuned. Nid yw'n ymwneud ag arian. Mae'n ymwneud â sicrhau bod y rhyddid i arloesi yno y byddai meddygon teulu eisiau ei weld, a'r rhyddid hwnnw y byddent eisiau ei ddefnyddio. Rydym ni'n ceisio recriwtio o dramor yn gyson, ac rydym ni'n dweud wrth feddygon mewn gwledydd eraill, 'Dewch i Gymru; mae'n amgylchedd gweithio da', ac, yn hanesyddol, dros y 50 mlynedd diwethaf neu fwy, rydym ni wedi recriwtio o wledydd eraill. Byddwn yn parhau, wrth gwrs, i weithio gyda'r proffesiwn i wneud yn siŵr ein bod yn gallu denu mwy o leoedd hyfforddi meddygon teulu. Ceir problem ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o ran recriwtio meddygon, felly nid yw'n broblem sy'n unigryw i Gymru, ond serch hynny, mae'n fater y byddwn yn ceisio rhoi sylw iddo gyda'r proffesiwn.

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper, and question 3 is Julie Morgan.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr, a daw cwestiwn 3 gan Julie Morgan.

### Swyddi Gweithgynhyrchu

### Manufacturing Jobs

13:53 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn mwy o swyddi gweithgynhyrchu medrus yn ne Cymru? OAQ(4)2747(FM)*

*3. What plans does the Welsh Government have to invest in more skilled manufacturing jobs in south Wales? OAQ(4)2747(FM)*

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The skills implementation plan sets out a key role for regional skills partnerships to advise Welsh Government on future prioritisation of skills funding in line with regional employment and skills needs, and both regional skills partnerships in the south of Wales identified advanced materials and manufacturing as a priority sector for their regions.

Mae'r cynllun gweithredu sgiliau yn nodi swyddogaeth allweddol i bartneriaethau sgiliau rhanbarthol i gynghori Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethu cyllid sgiliau yn y dyfodol yn unol ag anghenion cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol, a nodwyd deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch gan y ddwy bartneriaeth sgiliau rhanbarthol yn y de fel sector blaenoriaeth i'w rhanbarthau.

13:53 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the First Minister for that response. Is there anything the Welsh Government can do to help support GE Healthcare's operations at Forest Farm in my constituency in Cardiff North—perhaps to diversity—in view of the fact that 86 roles are being lost? The manufacture of paper products used in the pharmaceutical industry is going to China, and some research roles are being lost, and, of course, it's not in an assisted area, where it's located. So, is there anything the Government can do to help?

Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna. A oes unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu i gefnogi gweithrediadau GE Healthcare yn Fferm y Fforest yn fy etholaeth i yng Ngogledd Caerdydd—i arallgyfeirio efallai—o ystyried y ffaith bod 86 o swyddi'n cael eu colli? Mae gwaith gweithgynhyrchu cynhyrchion papur a ddefnyddir yn y diwydiant fferyllol yn mynd i Tsieina, ac mae rhai swyddi ymchwil yn cael eu colli, ac, wrth gwrs, nid yw mewn ardal a gynorthwyir, lle mae wedi ei leoli. Felly, a oes unrhyw beth y gall y Llywodraeth ei wneud i helpu?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, we are working with GE Healthcare to identify alternative employment opportunities for the affected staff within the growing number of life sciences companies in Wales. We've supported the creation of the GE innovation village, which has attracted eight life sciences small and medium-sized enterprises to establish their business at the GE site, and officials are in discussion with GE Healthcare to explore how further space at GE could provide space to house innovative SMEs, in order, of course to provide opportunities for those whose jobs might be at risk at the moment.

Oes, rydym ni'n gweithio gyda GE Healthcare i nodi cyfleoedd cyflogaeth eraill ar gyfer y staff sydd wedi'u heffeithio yn y nifer gynyddol o gwmnïau gwyddorau bywyd yng Nghymru. Rydym ni wedi cefnogi sefydliad pentref arloesi GE, sydd wedi denu wyth o fentrau gwyddorau bywyd bach a chanolig eu maint i sefydlu eu busnesau ar safle GE, ac mae swyddogion mewn trafodaethau gyda GE Healthcare i archwilio sut y gallai mwy o le yn GE gynnig lle i gartrefu BBaChau arloesol, er mwyn, wrth gwrs, cynnig cyfleoedd i'r rhai efallai y mae eu swyddi mewn perygl ar hyn o bryd.

13:55 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, as well as any investment in bringing skilled manufacturing jobs to Wales, there needs to be investment in developing those skills. What is your Government doing to involve the manufacturing sector in designing the national curriculum and increasing uptake of science, technology, engineering and mathematics subjects?

Brif Weinidog, yn ogystal ag unrhyw fuddsoddiad mewn dod â swyddi gweithgynhyrchu medrus i Gymru, mae angen buddsoddiad mewn datblygu'r sgiliau hynny. Beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i gynnwys y sector gweithgynhyrchu yn y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm cenedlaethol a chynyddu'r nifer sy'n astudio pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Uptake of STEM subjects is important, but skills more generally are important to manufacturing, as well. We know that Wales is a country where manufacturers want to come—we saw that with Aston Martin last week. After two years of hard work, working with Aston Martin, we beat off competition from 19 other sites to get that investment into the Vale of Glamorgan.

Mae'r nifer sy'n astudio pynciau STEM yn bwysig, ond mae sgiliau yn fwy cyffredinol yn bwysig i weithgynhyrchu, hefyd. Gwyddom fod Cymru'n wlad lle mae cynhyrchwyr eisiau dod—gwelsom hynny gydag Aston Martin yr wythnos diwethaf. Ar ôl dwy flynedd o waith caled, gan weithio gydag Aston Martin, trechwyd cystadleuaeth gan 19 o safleoedd eraill i gael y buddsoddiad hwnnw i Fro Morgannwg.

In terms of developing further skills, two examples I can give: Jobs Growth Wales—Jobs Growth Wales was a scheme that was born of discussions with SMEs. They were saying to us that they needed to train people—they had jobs for them, but they didn't have the time or the money to train them. And that's why Jobs Growth Wales was so successful. And, of course, as the Member will be aware, we have plans to create 100,000 apprenticeships for all ages in the coming Assembly.

O ran datblygu sgiliau pellach, gallaf roi dwy enghraifft: Twf Swyddi Cymru—roedd Twf Swyddi Cymru yn gynllun a sefydlwyd yn sgil trafodaethau gyda BBaChau. Roedden nhw'n dweud wrthym ni eu bod angen hyfforddi pobl—roedd ganddyn nhw swyddi ar eu cyfer, ond nid oedd ganddyn nhw'r amser na'r arian i'w hyfforddi. A dyna pam yr oedd Twf Swyddi Cymru mor llwyddiannus. Ac, wrth gwrs, fel y bydd yr Aelod yn ymwybodol, mae gennym ni gynlluniau i greu 100,000 o brentisiaethau ar gyfer pob oedran yn y Cynulliad nesaf.

13:56 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ar y pwynt yna, rwy'n credu y byddem ni'n cytuno, Brif Weinidog, fod angen prentisiaethau o'r newydd er mwyn hybu'r agenda yma. Fedrwch chi, felly, fod yn glir? Rydych chi newydd sôn am 100,000 o brentisiaethau. Ai 100,000 fel cyfanswm erbyn diwedd y Cynulliad nesaf—sef, gyda llaw, yr un targed â Plaid Cymru—neu 100,000 ychwanegol ar ben yr 50,000 sydd eisoes gyda ni?

On that point I think we would be agreed, First Minister, that we do need new apprenticeships to promote this agenda. Can you therefore provide us with some clarity? You've just mentioned 100,000 apprenticeships. Is that 100,000 as a total by the end of the next Assembly—which, by the way, is the same target as Plaid Cymru—or an additional 100,000 on top of the 50,000 that are already in place?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Can mil yn ystod pum mlynedd nesaf y Cynulliad, a mwy na hynny, rŷm ni'n gobeithio. Beth sy'n bwysig yw ein bod ni'n sicrhau ein bod ni'n targedu'r rhai yna o bob oedran, o gofio'r faith ei bod hi'n anodd cael jobyn am oes rhagor, ac felly mae'n bwysig dros ben fod pobl yn cael y cyfle i gael hyfforddiant yn ystod eu bywydau gweithio.

A hundred thousand during the next five years of the Assembly, and more than that, hopefully. What's important is that we should target people of all ages, bearing in mind the fact that it's very difficult to get a job for life these days, and so it's extremely important that people have the opportunity to retrain during their working lifetime.

13:57 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, investments like the Aston Martin factory in St Athan are a fantastic opportunity for local people, so long as they can access the opportunities for training and development. But older apprentices have said to me that a barrier to them taking on an apprenticeship is the financial cost of doing so. What will the Welsh Government be doing in practical terms to make sure that apprenticeships are truly open to people of all ages?

Brif Weinidog, mae buddsoddiadau fel y ffatri Aston Martin yn Sain Tathan yn gyfle gwych i bobl leol, cyn belled ag y gallant gael mynediad at y cyfleoedd ar gyfer hyfforddi a datblygu. Ond mae prentisiaid hŷn wedi dweud wrthyf mai un rhwystr sy'n eu hatal rhag ymgymryd â phrentisiaeth yw cost ariannol gwneud hynny. Beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn ymarferol i wneud yn siŵr bod prentisiaethau yn wirioneddol agored i bobl o bob oedran?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That is what we intend to do post May. Aston Martin's mentioned as an example. We have been working with Aston Martin in order to develop the skills that they need for the future. They're confident that they can find those skills in the area anyway, and we will continue to work not just with Aston Martin but with other companies in order to ensure that we understand what their skills needs are and then, of course, to meet them.

Dyna yr ydym ni'n bwriadu ei wneud ar ôl mis Mai. Caiff Aston Martin ei grybwyll fel enghraifft. Rydym ni wedi bod yn gweithio gydag Aston Martin, i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer y dyfodol. Maen nhw'n hyderus y gallant ddod o hyd i'r sgiliau hynny yn yr ardal beth bynnag, a byddwn yn parhau i weithio, nid yn unig gydag Aston Martin ond gyda chwmnïau eraill er mwyn sicrhau ein bod yn deall beth yw eu hanghenion sgiliau ac yna, wrth gwrs, eu diwallu.

13:57 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, investment in manufacturing brings with it the opportunities for good-quality apprenticeships, and I do welcome Welsh Labour's commitment to 100,000 extra apprenticeships in the next Assembly term. Manufacturing apprentices tend to be male, so more needs to be done to encourage women into these roles. The cross-party women in the economy group has put forward suggestions on how we can do this, by, for example, disaggregating data by gender and having more female tutors and mentors. Will you look at how we can take these suggestions forward to get the very best apprentices and tap into all of the Welsh talent pool?

Brif Weinidog, mae buddsoddiad mewn gweithgynhyrchu yn dod â'r cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau o ansawdd da gydag ef, ac rwy'n croesawu ymrwymiad Llafur Cymru i 100,000 o brentisiaethau ychwanegol yn y tymor Cynulliad nesaf. Mae prentisiaid gweithgynhyrchu yn tueddu i fod yn ddynion, felly mae angen gwneud mwy i annog menywod i mewn i'r swyddi hyn. Mae'r grŵp trawsbleidiol menywod yn yr economi wedi cynnig awgrymiadau o ran sut y gallwn wneud hyn, trwy, er enghraifft, ddatgrynhoi data yn ôl rhyw a chael mwy o diwtoriaid a mentoriaid benywaidd. A wnewch chi ystyried sut y gallwn ni fwrw ymlaen â'r awgrymiadau hyn i gael y prentisiaid gorau posibl a manteisio ar holl gronfa dalent Cymru?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely. It's hugely important that in industries that are seen as, wrongly, traditionally male, we encourage more women and girls to go into those industries and into apprenticeships particularly. If I can give one example: if we look at the Airbus Industrial Cadets, this took 70 female students from schools across the north of Wales through a 10-week programme with the support of female Airbus mentors and role models. I think that's one example amongst many that can be rolled out further to make sure that that gender imbalance, which undoubtedly exists in some sectors, is addressed in future.

Yn sicr. Mae'n hynod bwysig mewn diwydiannau sy'n cael eu hystyried, yn anghywir, fel rhai i ddynion yn draddodiadol, ein bod yn annog mwy o fenywod a merched i fynd i mewn i'r diwydiannau hynny ac i brentisiaethau yn arbennig. Os caf i roi un enghraifft: os edrychwn ni ar Gadetiaid Diwydiannol Airbus, cymerodd hwn 70 o fyfyrwyr benywaidd o ysgolion ar draws y gogledd trwy raglen 10 wythnos gyda chefnogaeth mentoriaid ac esiamplau benywaidd o Airbus. Rwy'n credu bod honno'n un enghraifft ymhlith llawer y gellir eu cyflwyno ymhellach i sicrhau y rhoddir sylw i'r anghydbwysedd hwnnw rhwng y rhywiau, sy'n sicr yn bodoli mewn rhai sectorau, yn y dyfodol.

Senedd.tv Fideo Video

## Cynllun Trafnidiaeth Leol De-ddwyrain Cymru

## The South-east Wales Local Transport Plan

13:59 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

*4. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at weithredu cynllun trafnidiaeth leol de-ddwyrain Cymru? OAQ(4)2734(FM)*

*4. What progress is being made towards implementing the south-east Wales local transport plan? OAQ(4)2734(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The implementation of the local transport plans is a matter for local authorities.

Mater i awdurdodau lleol yw gweithrediad y cynlluniau trafnidiaeth lleol.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

First Minister, we know that one of the most important aims of the Assembly and future Assemblies is the economic regeneration of the south Wales Valleys, working closely with those same local authorities, whatever they may be. How will this local transport plan stimulate economic growth in the south-east Wales Valleys? In particular, do you think we should consider free transport for 16 to 25-year-olds to assist them to increase their employment opportunities?

Brif Weinidog, rydym ni'n gwybod mai un o nodau pwysicaf y Cynulliad a Chynulliadau'r dyfodol yw adfywiad economaidd cymoedd y de, gan weithio'n agos gyda'r un awdurdodau lleol hynny, beth bynnag y byddant. Sut wnaiff y cynllun trafnidiaeth lleol hwn ysgogi twf economaidd yng nghymoedd y de-ddwyrain? Yn benodol, a ydych chi'n credu y dylem ni ystyried cludiant am ddim i bobl ifanc 16 i 25 mlwydd oed i'w cynorthwyo i gynyddu eu cyfleoedd am gyflogaeth?

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

What we need to do is to make sure that transport is affordable and available, which is why, of course, the metro is so important to make sure that we have faster, more comfortable and more frequent services across what will become the metro network. I look forward to the UK Government's contribution to the city deal particularly, which will help to regenerate and to assist large parts of the south-east of Wales.

Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yw gwneud yn siŵr bod cludiant yn fforddiadwy ac ar gael, a dyna pam, wrth gwrs, y mae'r metro mor bwysig i wneud yn siŵr fod gennym ni wasanaethau cyflymach, mwy cyfforddus ac amlach ar draws yr hyn a fydd y rhwydwaith metro. Rwy'n edrych ymlaen at gyfraniad Llywodraeth y DU at y cytundeb dinas yn arbennig, a fydd yn helpu i adfywio ac i gynorthwyo rhannau helaeth o'r de-ddwyrain.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

First Minister, the south-east Wales local transport plan forecasts a 20 per cent increase in the number of residents commuting to work in the Cardiff capital region in the next 25 years. What consideration has the Welsh Government given to the creation of a rail park and ride station, similar to Bristol Parkway, to serve as the major rail hub for Cardiff, which could also serve Cardiff Airport at the same time?

Brif Weinidog, mae cynllun trafnidiaeth leol de-ddwyrain Cymru yn rhagweld cynnydd o 20 y cant i nifer y trigolion sy'n cymudo i weithio ym mhrifddinas-ranbarth Caerdydd yn y 25 mlynedd nesaf. Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi i greu gorsaf parcio a theithio, yn debyg i Bristol Parkway, i wasanaethu fel y canolbwynt rheilffyrdd mawr i Gaerdydd, a allai hefyd wasanaethu Maes Awyr Caerdydd ar yr un pryd?

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, these are all matters wrapped up in the metro, because we have made it clear that we are ambitious to create a fully integrated transport system that encompasses heavy rail, light rail, bus rapid transit, and that is something that is moving forward now apace.

Wel, mae'r rhain i gyd yn faterion sy'n gysylltiedig â'r metro, gan ein bod wedi ei gwneud yn eglur ein bod yn uchelgeisiol i greu system drafnidiaeth gwbl integredig sy'n cwmpasu rheilffyrdd trwm, rheilffyrdd ysgafn, bysiau cludo gyflym, ac mae hynny'n rhywbeth sy'n cael ei symud ymlaen yn gyflym erbyn hyn.

## Gofal Iechyd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed

## Healthcare in Brecon and Radnorshire

14:01 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau gofal iechyd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)2746(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on healthcare services in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)2746(FM)*

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We expect Powys Teaching Local Health Board to ensure the people of Brecon and Radnor have access to health services that are safe, sustainable and deliver the best possible clinical outcomes for patients.

Rydym ni'n disgwyl i Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys i sicrhau bod pobl Brycheiniog a Sir Faesyfed yn cael mynediad at wasanaethau iechyd sy'n ddiogel, yn gynaliadwy ac yn cyflawni'r canlyniadau clinigol gorau posibl i gleifion.

14:01 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the refurbishment work in Llandrindod Wells hospital is well under way, and will allow us to bring new services to that community. One thing my constituents would dearly love to have in Llandrindod Wells hospital and, indeed, other community hospitals, is access to chemotherapy services. At present, many constituents are travelling well over an hour to access chemo services in other district general hospitals, yet there are no clinical reasons why those services could not be provided in community hospitals in Brecon and Radnorshire, thus negating the need to travel as far. What will the Welsh Government do to work with Powys local health board to deliver chemotherapy services in our community hospitals?

Brif Weinidog, mae'r gwaith ailwampio yn ysbyty Llandrindod wedi cychwyn ers cryn amser, a bydd yn ein galluogi i ddod â gwasanaethau newydd i'r gymuned honno. Un peth y byddai fy etholwyr wrth eu boddau'n ei gael yn ysbyty Llandrindod ac, yn wir, ysbytai cymuned eraill, yw mynediad at wasanaethau cemotherapi. Ar hyn o bryd, mae llawer o etholwyr yn teithio ymhell dros awr i gael mynediad at wasanaethau cemotherapi mewn ysbytai cyffredinol dosbarth eraill, ac eto nid oes unrhyw resymau clinigol pam na allai'r gwasanaethau hynny gael eu darparu mewn ysbytai cymuned ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, gan gael gwared ar yr angen i deithio mor bell. Beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i weithio gyda bwrdd iechyd lleol Powys i ddarparu gwasanaethau cemotherapi yn ein hysbytai cymuned?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First of all, I thank the leader of the Liberal Democrats for the acknowledgement of the investment at Llandrindod Wells. It does form part of the first phase of wider refurbishment proposals, which will total £5.3 million, for essential hospital services on the site, as part of the strategy to improve staff and patient environments while, of course, enhancing the long-term viability of the hospital. I will ask the health Minister to write on the particular issue of chemotherapy. I don't know whether there are clinical reasons—she's told me that there aren't—or whether there are other reasons that prevent chemotherapy from being taken forward, certainly for certain conditions, on site. But, I will certainly investigate that and make sure that she gets a letter back.

Yn gyntaf oll, diolchaf i arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol am y gydnabyddiaeth o'r buddsoddiad yn Llandrindod. Mae'n rhan o'r cam cyntaf o gynigion ailwampio ehangach, a fydd yn dod i gyfanswm o £5.3 miliwn, ar gyfer gwasanaethau ysbyty hanfodol ar y safle, yn rhan o'r strategaeth i wella amgylcheddau staff a chleifion ac, wrth gwrs, gwella hyfywedd hirdymor yr ysbyty. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog iechyd ysgrifennu ar y mater penodol o gemotherapi. Nid wyf yn gwybod a oes rhesymau clinigol—mae hi wedi dweud wrthyf nad oes—neu a oes rhesymau eraill sy'n atal cemotherapi rhag cael ei ddarparu, yn sicr ar gyfer cyflyrau penodol, ar y safle. Ond, byddaf yn sicr yn ymchwilio i hynny ac yn gwneud yn siŵr ei bod hi'n cael llythyr yn ôl.

14:02 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Mae Brycheiniog a Maesyfed, a chanolbarth Cymru yn gyffredinol, yn un o'r ardaloedd lle ceir problemau o ran cael mynediad at feddygon teulu, yn enwedig gyda'r nos, ac yn enwedig ar y penwythnos. Rydych chi'n hoff iawn o ddweud, Brif Weinidog, eich bod chi wedi cynyddu nifer y meddygon teulu 10 y cant yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ond cafwyd cynnydd yn Lloegr dros yr un cyfnod o 20 y cant. Felly, bob tro rydych yn ei gynyddu, rydym yn cwympo ar ei hôl hi. Beth sydd gennych yn benodol i ddenu meddygon teulu i rywle fel canolbarth Cymru, a'r gorllewin hefyd, lle nad oes, ar hyn o bryd, y fath o arlwy sy'n debyg o ddenu'r rhai sydd eisiau bod yn bartneriaid, a lle mae hi hyd yn oed yn anodd cael rhai sydd ar gyflog?

Brecon and Radnor, and mid Wales more generally, is one of those areas where there are problems in terms of access to GPs, particularly in the evenings and on the weekends. You're very fond of saying, First Minister, that you've increased the number of GPs 10 per cent over the past 10 years, but the increase in England over the same period is 20 per cent. So, every time you increase, we fall further behind. What specifically do you have in place to attract GPs to somewhere like mid Wales, and west Wales too, where, at the moment, there isn't the kind of offering that is likely to attract those who would want to become partners, and where it's even difficult to get employed GPs in place?

14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yn gyntaf, wrth gwrs, mae hwn yn rhywbeth y mae'r 'collaborative' wedi bod yn rhan ohono ac wedi bod yn gweithio arno, sef edrych ar ffyrdd o ddenu pobl i mewn i'r canolbarth a sicrhau, wrth gwrs, eu bod nhw'n sefyll yn y canolbarth. Mae hynny'n rhywbeth y maen nhw wedi bod yn gweithio arno. Mae'n bwysig dros ben, os ydym yn ystyried Powys, er enghraifft, bod gwaith wedi cael ei wneud ym Machynlleth ac yn y Drenewydd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i'r boblogaeth a'r trigolion yn y fan yna. Felly, lle mae materion yn codi ynglŷn â rhai meddygfeydd, wedyn, wrth gwrs, mae'r bwrdd yn dod i mewn i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gadw i bobl.

First of all, this is something that the collaborative has been part of and has been working on, namely looking at ways of attracting people into mid Wales and ensuring that they remain there, of course. This is something they've been working on. It's extremely important, if we were to consider Powys, for example, that work has been done in Machynlleth and in Newtown in order to ensure that the service is maintained for the population there. So, when issues do arise as regards some surgeries, then, of course, the board must ensure that the service is retained for the public there.

Mae'r system yn gweithio fel hyn: mae'r meddygon teulu yn gontractwyr. Mae hi lan iddyn nhw i sicrhau eu bod nhw'n cadw at y contract. Lle maen nhw'n ffaelu, wedyn, wrth gwrs, mae'r bwrdd iechyd yn gallu ystyried dodi meddygon ar gyflog i mewn er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau. Dyna, wrth gwrs, sydd wedi digwydd yn y gogledd, yn ardal Prestatyn.

The way the system works is this: the GPs are contractors and it's up to them to ensure that they adhere to the contract. When they fail, then, of course, the health board can consider putting salaried doctors in, in order to ensure that the service continues. That's what's happened in Prestatyn in north Wales.

## Lleihau'r Perygl o Lifogydd

## Reducing the Risk of Flooding

14:04 **Janet Haworth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i leihau'r perygl o lifogydd yn y dyfodol? OAQ(4)2741(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on actions taken by the Welsh Government to reduce flooding risk in the future? OAQ(4)2741(FM)*

14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. Over the lifetime of this Government, we will have invested over £285 million across Wales to reduce flood risk and strengthen our resilience to climate change.

Gwnaf. Yn ystod oes y Llywodraeth hon, byddwn wedi buddsoddi dros £285 miliwn ledled Cymru i leihau perygl llifogydd a chryfhau ein gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

14:05

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for your response, Minister. Could you please clarify these areas of concern for me? That your Government will give full consideration to the work being carried out by Aberystwyth University's river dynamics and hydrology department, which challenges current thinking on floods in Wales; and that the work to rethink and remap the drainage systems in the upland forest around Llanrwst will proceed urgently—I'm told these drainage systems do date back to the 1940s. And you will be aware that one hydropower station is already capable of discharging 8 million tonnes of water into the river Conwy. Another is planned. Will your Government be calling in the plan for Conwy falls at the head of this river?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. A allech chi egluro'r meysydd hyn sy'n peri pryder i mi? Y bydd eich Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth lawn i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan adran dynameg afonydd a hydroleg Prifysgol Aberystwyth, sy'n herio syniadau presennol am lifogydd yng Nghymru; ac y bydd y gwaith i ailystyried ac ail-fapio'r systemau draenio yn y goedwig ucheldir o gwmpas Llanrwst yn digwydd ar frys—dywedwyd wrthyf fod y systemau draenio hyn yn dyddio'n ôl i'r 1940au. A byddwch yn ymwybodol bod un orsaf ynni dŵr eisoes yn gallu rhyddhau 8 miliwn tunnell o ddŵr i mewn i afon Conwy. Bwriedir cael un arall. A fydd eich Llywodraeth yn galw'r cynllun ar gyfer rhaeadrau Conwy ar ben yr afon hon i mewn?

14:05

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Firstly, we can't, obviously, take the view of one person and one department and say that that necessarily is the only evidence in a particular area. What needs to be looked at is the weight of evidence; it's a matter for Natural Resources Wales to examine that. When it comes to flooding, especially around Llanrwst, I know that the people who live in Llanrwst have been happy to see the work that's been taken forward. I visited Llanrwst on New Year's Eve—it was certainly New Year's Eve or a few days beforehand—I saw the work for myself, I spoke to local councillors, and they were able to demonstrate to me how the flood defence schemes on the River Conwy around Llanrwst had helped to make sure that Llanrwst didn't flood, particularly to the levels that it had in years gone by, particularly when groundwater was coming up through people's houses, against which, of course, there is no defence. Local authorities have the responsibility, of course, of dealing with flooding. They, of course, are able to bid for grant funding for flood schemes; they've done that successfully around Wales, and NRW, of course, are also there to advise as to how flood schemes should be taken forward.

Yn gyntaf, ni allwn, yn amlwg, gymryd barn un person ac un adran a dweud mai honno o reidrwydd yw'r unig dystiolaeth mewn ardal benodol. Yr hyn y mae angen ei ystyried yw pwysau'r dystiolaeth; mater i Gyfoeth Naturiol Cymru yw archwilio hynny. Pan ddaw i lifogydd, yn enwedig o gwmpas Llanrwst, gwn fod y bobl sy'n byw yn Llanrwst wedi bod yn hapus i weld y gwaith sydd wedi ei wneud. Ymwelais â Llanrwst Nos Galan—Nos Galan oedd hi'n sicr, neu ychydig ddiwrnodau cyn hynny—gwelais y gwaith drosof fy hun, siaradais â chynghorwyr lleol, ac roedden nhw'n gallu dangos i mi sut yr oedd y cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd ar Afon Conwy o gwmpas Llanrwst wedi helpu i wneud yn siŵr nad oedd Llanrwst yn dioddef llifogydd, yn enwedig i'r lefelau iddo ei ddioddef yn y gorffennol, yn enwedig pan roedd dŵr daear yn dod i fyny trwy dai pobl, ac nid oes unrhyw amddiffyniad yn erbyn hynny, wrth gwrs. Mae gan awdurdodau lleol y cyfrifoldeb, wrth gwrs, o ymdrin â llifogydd. Maen nhw, wrth gwrs, yn gallu gwneud cais am gyllid grant ar gyfer cynlluniau llifogydd; maen nhw wedi gwneud hynny'n llwyddiannus ledled Cymru, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth gwrs, hefyd yno i roi cyngor ynghylch sut y dylid bwrw ymlaen â'r cynlluniau rhag llifogydd.

14:06

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A gaf i fynd yn ôl at ddatganiad yr Athro Mark Macklin ddoe bod Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ei ôl o, ddim yn cymryd i ystyriaeth llifogydd hanesyddol ar afonydd Cymru? Mi ddioddefodd etholwyr yn fy ardal i yn waeth nag unrhyw ran arall o Gymru o lifogydd ar Ddiwrnod San Steffan, ac un o'r pethau amlwg iawn oedd profiadau pobl ar y ddaear a'u hatgofion nhw o lifogydd cynt. A'r hyn sydd yn nodweddiadol yn y cyfarfodydd cyhoeddus rwyf wedi eu cael ydy nad ydy'r swyddogion proffesiynol yn aml iawn yn ymwybodol o hynny o gwbl. Felly, rwy'n credu bod gan yr Athro Mark Macklin bwynt yn hyn. A ydych chi'n ystyried bod anwybyddu tystiolaeth hanesyddol fel hyn yn dderbyniol ac yn arfer da?

May I return to the statement made by Professor Mark Macklin yesterday? What he suggested was that NRW weren't taking into account the historic floods on Welsh rivers. Constituents in my area suffered more than in any other part of Wales as a result of flooding on Boxing Day, and one of the very obvious problems was the experience of people on the ground, and their memories of previous floods. What's characteristic about the public meetings that I've attended is that the professionals aren't often aware of that at all. So, I do think that Professor Mark Macklin has a point here. Do you believe that ignoring historic evidence such as this is acceptable and is good practice?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Nid wyf am honni fy mod yn arbenigwr yn yr ardal hon, ond beth rwy'n gwybod yw—rwy'n deall bod y gwaith ymchwil wedi cael ei wneud; rwy'n siŵr bod y gwaith ymchwil yn bwysig, ac nid wyf yn beirniadu'r gwaith hwnnw o gwbl—ond un person yw hwn ac un grŵp o ymchwilwyr sydd wedi gwneud y gwaith hwn. Mae'n bwysig ystyried, wrth gwrs, y gwaith maen nhw wedi ei wneud, ac ystyried y dystiolaeth honno, ond fyddai neb yn erfyn i'r cyfeiriad newid o achos un darn o waith. Felly, beth sy'n bwysig nawr yw bod y gwaith yn cael ei ystyried a bod y gwaith yn ychwanegu at y corff o dystiolaeth sydd yna nawr.

I don't pretend to be an expert in this field, but what I know is—I understand that this research has been undertaken; I realise that that research is important and I'm not critical of that at all—but this is the view of one person, and one group of researchers who've carried out this work. Of course, it's important to consider the work that they have undertaken, and that evidence, but no-one would expect the direction to change because of one piece of work. So, what's important is that the work be considered and that that work adds to the corpus of evidence that already exists.

14:08 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I'm sure you'll join me in applauding the UK Government's last-minute change of heart in deciding, after all, to put in a bid to the EU solidarity fund for the relief of flood victims. I've been campaigning on this issue since just after the Boxing Day floods occurred, as indeed has my UK party leader, and I wrote to David Lidington and Liz Truss on this matter, both pro-EU Ministers. It would appear that the current civil war within the Government has at least enabled this wise decision to be agreed. First Minister, what can we now do to ensure that this much-needed money from the European solidarity fund, when it is made available, is directed to those who need it most, and that we have as little as possible caught up in the morass of UK administration in this regard?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y gwnewch chi ymuno â mi i gymeradwyo newid meddwl munud olaf Llywodraeth y DU wrth benderfynu, wedi'r cyfan, i wneud cais i'r gronfa undod yr UE ar gyfer rhoi cymorth i ddioddefwyr llifogydd. Rwyf wedi bod yn ymgyrchu ar y mater hwn ers ychydig ar ôl llifogydd Gŵyl San Steffan, fel yn wir y mae arweinydd fy mhlaid yn y DU, ac ysgrifennais at David Lidington a Liz Truss ar y mater hwn, y ddau ohonynt yn Weinidogion sydd o blaid yr UE. Mae'n ymddangos bod y rhyfel cartref o fewn y Llywodraeth ar hyn o bryd wedi caniatáu i'r penderfyniad doeth hwn gael ei wneud o leiaf. Brif Weinidog, beth allwn ni ei wneud nawr i sicrhau bod yr arian hwn y mae wir ei angen o'r gronfa undod Ewropeaidd, pan fydd yn cael ei roi ar gael, yn cael ei gyfeirio at y rhai sydd ei angen fwyaf, a bod cyn lleied â phosibl yn cael ei ddal yng nghors gweinyddiaeth y DU yn hyn o beth?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We are in discussion with the UK Government on this. The best way of securing the funding is to stay in the EU, clearly. His view and my view are similar, of course, on this issue. If the leader of the Welsh Conservatives had his way, the money wouldn't be there at all, and those people would not be helped. But certainly, staying within the— [Interruption.] He says 'Debate it'; this is the man who says he's not going to debate anything on the EU, but there we are. We're still waiting for the article he was going to write to justify why he's selling farmers down the river, but I accept that that's not the point on this occasion. It's important we stay in the EU to make sure that we're able to access that money to help our people.

Rydym ni'n cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar hyn. Y ffordd orau o sicrhau'r cyllid arian yw aros yn yr UE, yn amlwg. Mae ei farn ef a fy marn i yn debyg, wrth gwrs, ar y mater hwn. Pe byddai arweinydd Ceidwadwyr Cymru yn cael ei ffordd, ni fyddai'r arian yno o gwbl, ac ni fyddai'r bobl hynny'n cael eu helpu. Ond yn sicr, mae aros yn yr— [Torri ar draws.] Mae'n dweud 'Trafodwch e'; dyma'r dyn sy'n dweud nad yw'n mynd i drafod unrhyw beth ar yr UE, ond dyna ni. Rydym ni'n dal i aros am yr erthygl yr oedd yn mynd i'w hysgrifennu yn cyfiawnhau pam mae'n bradychu ffermwyr, ond rwy'n derbyn nad dyna'r pwynt ar yr achlysur hwn. Mae'n bwysig ein bod yn aros yn yr UE i wneud yn siŵr ein bod ni'n gallu cael gafael ar yr arian hwnnw i helpu ein pobl.

14:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It's good of you to answer questions, First Minister, but when he's sitting down he's not actually asking you a question, so you don't have to respond.

Chwarae teg i chi am ateb cwestiynau, Brif Weinidog, ond pan ei fod yn eistedd i lawr nid yw'n gofyn cwestiwn i chi mewn gwirionedd, felly nid oes rhaid i chi ymateb.

### Busnesau Bach yn Ardal Taf Elái

### Small Businesses in Taff Ely

14:10 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau bach yn ardal Taf Elái? OAQ(4)2745(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for small businesses in Taff Ely? OAQ(4)2745(FM)*

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. Wide-ranging support is available through our Business Wales service, and via a range of business rates initiatives, for businesses in the Taff Ely area and across Wales.

Gwnaf. Mae cymorth eang ar gael trwy ein gwasanaeth Busnes Cymru, a thrwy amrywiaeth o fentrau ardrethi busnes, ar gyfer busnesau yn ardal Taf Elái a ledled Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

First Minister, your Welsh Labour pledges in respect of the renewal and extension of small business allowance has been very well received in the Pontypridd high street and by small businesses. I suppose my concern is, really, of course, we have many other small towns—Pontyclun, Tonyrefail, Talbot Green—with vibrant communities of retail there. I wonder if you could perhaps outline to what extent that policy would benefit those small businesses and what the benefits might be to the high street in our small towns of south Wales.

Brif Weinidog, mae eich addewidion Llafur Cymru o ran adnewyddu ac ymestyn lwfans busnesau bach wedi cael croeso da iawn ar stryd fawr Pontypridd a chan fusnesau bach. Mae'n debyg mai fy mhryder i, mewn gwirionedd, wrth gwrs, yw bod gennym ni lawer o drefi bach eraill—Pontyclun, Tonyrefail, Tonysguboriau—sydd â chymunedau manwerthu bywiog yno. Tybed a allech chi amlinellu efallai i ba raddau y byddai'r polisi hwnnw o fudd i'r busnesau bach hynny a beth allai'r manteision hynny fod i'r stryd fawr yn ein trefi bychain yn y de.

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, indeed. It'll benefit all those who qualify for the relief. We expect three quarters of small businesses to be affected positively. We expect about half not to pay business rates at all. These are difficult times, particularly in the retail sector, for SMEs. We are committed to assist our high street; that's why, of course, we're going to reduce taxes for small businesses.

Gallaf, yn wir. Bydd o fudd i bawb sy'n gymwys i dderbyn y rhyddhad. Rydym ni'n disgwyl i dri chwarter busnesau bach gael eu heffeithio'n gadarnhaol. Rydym ni'n disgwyl i tua hanner beidio â thalu ardrethi busnes o gwbl. Mae hwn yn gyfnod anodd, yn enwedig yn y sector manwerthu, i BBaChau. Rydym ni wedi ymrwymo i gynorthwyo ein stryd fawr; dyna pam, wrth gwrs, rydym ni'n mynd i leihau ardrethi i fusnesau bach.

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

First Minister, obviously the Welsh Conservatives have a long-standing policy on business rates to exclude all businesses with a rateable value up to £12,000 and taper that up to £15,000. For, I think, nine years now, we've been pressing a Welsh Labour Government to try and implement such a business rate relief policy. Your Member for Pontypridd touched on your policy that you announced at your conference. Can you explain whether it will be as generous as the Welsh Conservative policy, or is it merely an extension of what is currently in place, which is up to £6,000 business rate relief?

Brif Weinidog, mae'n amlwg bod gan Geidwadwyr Cymru bolisi hir-sefydlog ar ardrethi busnes i eithrio pob busnes sydd â gwerth ardrethol hyd at £12,000 ac yn meinhau hynny hyd at £15,000. Ers naw mlynedd bellach, rwy'n credu, rydym ni wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth Llafur Cymru i geisio cyflwyno polisi rhyddhad ardrethi busnes o'r fath. Soniodd eich Aelod dros Bontypridd am eich polisi a gyhoeddwyd gennych yn eich cynhadledd. A allwch chi esbonio pa un a fydd yr un mor hael â pholisi Ceidwadwyr Cymru, neu ai dim ond estyniad o'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd yw hyn, sef hyd at £6,000 o ryddhad ar ardrethi busnes?

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I don't know what his policy is.

Wel, nid wyf yn gwybod beth yw ei bolisi.

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

I've just told you.

Rwyf newydd ddweud wrthych chi.

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

He keeps on saying that his party has policies. What's odd is that he keeps on saying, 'We have policies; I've just told you', and yet when I produce the document that his own party produced that shows the cuts they propose to make, that's not his policy. That's an old policy, that's not his policy. The reality is, we have produced a policy that will be of benefit to small businesses across Wales, we have explained it and we have costed it. The small business owners of Wales wait to see what he will say once he's crunched his numbers.

Mae'n dweud drosodd a throsodd bod gan ei blaid bolisïau. Yr hyn sy'n rhyfedd yw ei fod yn dweud drosodd a throsodd, 'Mae gennym ni bolisïau; rwyf newydd ddweud wrthych chi', ac eto pan fyddaf yn amlygu'r ddogfen y mae ei blaid ei hun wedi ei chynhyrchu sy'n dangos y toriadau y maen nhw'n bwriadu eu gwneud, nid dyna ei bolisi. Hen bolisi yw hwnnw, nid dyna ei bolisi. Y gwir amdani yw, rydym ni wedi cynhyrchu polisi a fydd o fudd i fusnesau bach ledled Cymru, rydym ni wedi ei esbonio, ac rydym ni wedi ei gostio. Mae perchnogion busnesau bach Cymru yn aros i weld beth y bydd e'n ei ddweud ar ôl iddo ddadansoddi ei rifau.

Senedd.tv Fideo Video

### Amseroedd Aros Cleifion Canser (Canol De Cymru)

### Cancer Waiting Times (South Wales Central)

14:12 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r amseroedd aros a brofir ar hyn o bryd gan gleifion canser yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)2733(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on the action being taken by the Welsh Government to tackle cancer waiting times currently experienced by patients in South Wales Central? OAQ(4)2733(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I'll try to answer his fifth question. Cancer is a top priority for the NHS and our Government. We are continuing to make progress in the diagnosis and treatment of cancer. More people are being diagnosed with cancer in Wales, but more people than ever are being treated and survival rates are at an all-time high.

Wel, rwyf am geisio ateb ei bumed gwestiwn. Mae canser yn un o brif flaenoriaethau'r GIG a'n Llywodraeth ni. Rydym ni'n parhau i wneud cynnydd o ran gwneud diagnosis o ganser a chynnig triniaeth. Mae mwy o bobl yn cael diagnosis o ganser yng Nghymru, ond mae mwy o bobl nag erioed yn cael triniaeth ac mae cyfraddau goroesi yn uwch nag erioed.

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

I'm sorry it troubles you that I've had five questions this afternoon. I think it's called democracy, First Minister, but I appreciate there's not much of that in the Labour party. [Assembly Members: 'Oh.']

Mae'n ddrwg gen i ei fod yn eich poeni fy mod i wedi cael pum cwestiwn y prynhawn yma. Rwy'n credu mai democratiaeth y gelwir hynny, Brif Weinidog, ond rwy'n sylweddoli nad oes llawer o hynny yn y blaid Lafur. [Aelodau'r Cynulliad: 'O.'].

The Cardiff and Vale—

Mae Caerdydd a'r Fro—

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order.

Trefn.

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—cancer wait times declined to 65 per cent of patients who were diagnosed under the cancer urgent suspect route. Ultimately, the national average is only 83 per cent. Your own target here in Wales is for 95 per cent of patients to be referred within the time frame. That target has never been met since 2008, First Minister. With Cardiff and the Vale having the poorest referral times, what action is the Welsh Government taking to make sure that those times are moved closer to the Welsh Government's own target, so that when someone does get the devastating diagnosis of cancer, they can be assured that they'll be put on the right treatment path in the time that they expect to be treated in?

[Yn parhau.] —gostyngodd amseroedd aros canser i 65 y cant o gleifion a gafodd ddiagnosis o dan y llwybr amheuaeth o ganser brys. Yn y pen draw, dim ond 83 y cant yw'r cyfartaledd cenedlaethol. Eich targed eich hun yma yng Nghymru yw i 95 y cant o gleifion gael eu hatgyfeirio yn unol â'r amserlen. Ni fodlonwyd y targed hwnnw o gwbl ers 2008, Brif Weinidog. Gan mai Caerdydd a'r Fro sydd â'r amseroedd atgyfeirio gwaethaf, pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wneud yn siŵr bod yr amseroedd hynny yn cael eu symud yn nes at darged Llywodraeth Cymru ei hun, fel y gellir sicrhau rhywun sy'n cael y diagnosis ofnadwy o ganser, y gall fod yn sicr y bydd yn cael ei roi ar y llwybr triniaeth cywir yn y cyfnod amser y mae'n disgwyl cael ei drin oddi mewn iddo?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I've got no problem with him asking a number of questions. It's the backbenchers who will feel that they're not able to ask questions, but that's for another time.

Nid oes gennyf i unrhyw broblem ag ef yn gofyn nifer o gwestiynau. Y rhai ar y meinciau cefn a fydd yn teimlo nad ydynt yn cael gofyn cwestiynau, ond mae hynny ar gyfer rhyw dro arall.

He asked the question about Cardiff and the Vale. Cardiff plays an important role in respect of specialist services alongside more routine services for its local population. It does offer that service, so there is greater pressure on Cardiff and the Vale. For example, referrals over the last year have been 17 per cent higher than the previous year, so Cardiff has needed to see and treat more patients. Nevertheless, there has been an improvement in performance for December of last year—a 10 per cent improvement, in fact, at 71 per cent—and that's the best performance since May.

Gofynnodd y cwestiwn am Gaerdydd a'r Fro. Mae Caerdydd yn chwarae rhan bwysig o ran gwasanaethau arbenigol ochr yn ochr â gwasanaethau mwy arferol ar gyfer ei boblogaeth leol. Mae'n cynnig y gwasanaeth hwnnw, felly mae mwy o bwysau ar Gaerdydd a'r Fro. Er enghraifft, mae atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod 17 y cant yn uwch na'r flwyddyn cynt, felly bu angen i Gaerdydd weld a thrin mwy o gleifion. Serch hynny, bu gwelliant i berfformiad ar gyfer mis Rhagfyr y llynedd—gwelliant o 10 y cant, a dweud y gwir, sef 71 y cant—a dyna'r perfformiad gorau ers mis Mai.

He talks about figures for cancer waiting times in Wales. They have consistently been better than England. Yes, that's true to say we haven't reached targets, because our targets are more ambitious—that much is true. Nevertheless, when it comes to cancer, we've consistently shown that if people want to get diagnosis and treatment, then the figures in Wales are better.

Mae'n siarad am ffigurau ar gyfer amseroedd aros canser yng Nghymru. Maen nhw wedi bod yn well na Lloegr yn gyson. Ydy, mae'n wir i ddweud nad ydym wedi cyrraedd targedau, gan fod ein targedau'n fwy uchelgeisiol—mae cymaint â hynny'n wir. Serch hynny, pan ddaw i ganser, rydym ni wedi dangos yn gyson os bydd pobl eisiau cael diagnosis a thriniaeth, yna mae'r ffigurau yng Nghymru yn well.

## Ad-drefnu Etholiadol

## Electoral Reorganisation

14:14 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael efo Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn ag ad-drefnu etholiadol? OAQ(4)2748(FM)[W]*

*9. What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding electoral reorganisation? OAQ(4)2748(FM)[W]*

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid wyf i cweit yn gwybod beth mae'r Aelod yn ei feddwl gan adrefnu etholiadol, ond gallaf ddweud nad oes trafodaethau wedi cymryd lle ar y pwnc yna.

I don't quite know what the Member means by electoral reorganisation, but I can say that no such discussions have taken place.

14:15 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cyfeirio rwyf i at y cyhoeddiad yr wythnos diwethaf fod yna fwriad i leihau nifer yr Aelodau Seneddol o 40 i 29 yng Nghymru. Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i leihau nifer yr Aelodau Seneddol, ond, wrth gwrs, mae Cymru yn cymryd mwy na'i siâr o'r toriadau sy'n cael eu cynnig. Mae yna eithriadau i'r newidiadau, wrth gwrs, sef rhai o ynysoedd yr Alban ac Ynys Wyth, efo'u statws nhw fel ynysoedd yn golygu bod hawl ganddyn nhw i barhau fel etholaethau eu hunain. Nid ydy'r un peth yn wir yma yng Nghymru efo Ynys Môn. Y perig, rwy'n meddwl, o uno Ynys Môn, lle byddai'r rhan fwyaf o boblogaeth unrhyw etholaeth yn byw, efo rhan fach o'r tir mawr ydy y byddai hynny'n gwneud cam gwag ag Ynys Môn a'r rhan fach yna o'r tir mawr. Felly, a fyddai'r Prif Weinidog yn ymuno â fi i alw i eithrio Ynys Môn hefyd?

I am referring to last week's announcement that there is an intention to reduce the number of Members of Parliament from 40 to 29 in Wales. I have no opposition in principle to reducing the number of MPs, but, of course, Wales is experiencing more than its share of the cuts that are being proposed. There are some exceptions to the changes, namely some of the Scottish isles and the Isle of Wight, with their status as islands meaning that they do have the right to remain as distinct constituencies. The same isn't true here in Wales with Ynys Môn. The risk, I think, of merging Ynys Môn, where most of the population of any constituency would live, with a small part of the mainland is that that would be a disservice to Ynys Môn and that small part of the mainland. So, will the First Minister join with me in calling for the exception of Ynys Môn also?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r Aelod yn gofyn cwestiwn clyfar iawn ar gyfer ei etholwyr yn Ynys Môn, ac yn Ynys Gybi, wrth gwrs. Mater, ar ddiwedd y dydd, i'r comisiwn ffiniau yw hyn. Nid wyf o blaid torri nifer yr Aelodau sydd gennym yn San Steffan, achos torri lawr ar lais Cymru byddai hynny'n ei wneud. Rwy'n siŵr y bydd yr Aelod yn gwneud ei bwynt yn gryf iawn i'r comisiynydd ffiniau, unwaith, wrth gwrs, bydd y broses yna wedi digwydd.

The Member is asking a very clever question on behalf of his electorate on Ynys Môn, and on Holy Island, of course. I'm not in favour of cutting the numbers of MPs we have in Westminster because that would be diluting the voice of Wales. I'm sure the Member will make his point very strongly to the boundary commissioner once that process has taken place.

14:16 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, your Government's first Local Government (Wales) Bill detailed total costs to the Local Democracy and Boundary Commission for Wales of over £4 million to undertake boundary reviews, even though final directions have not yet been issued with regard to undertaking these. Could you advise as to the full costings associated with these reviews, considering none of us knows yet what those final directions are going to be? Does this figure include the cost of the proposed final directions and have you actually allocated any money in respect of this?

Brif Weinidog, nododd Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf eich Llywodraeth gostau o fwy na £4 miliwn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gynnal adolygiadau o ffiniau, er nad yw cyfarwyddiadau terfynol wedi eu cyhoeddi hyd yn hyn o ran cyflawni'r rhain. A allech chi ein hysbysu am y costau llawn sy'n gysylltiedig â'r adolygiadau hyn, o ystyried nad oes yr un ohonom yn gwybod eto beth fydd y cyfarwyddiadau terfynol hynny? A yw'r ffigur hwn yn cynnwys cost y cyfarwyddiadau terfynol arfaethedig ac a ydych chi wedi dyrannu unrhyw arian ar gyfer hyn?

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, given the fact that the question is about discussions with the UK Government, I've had no discussions with the UK Government on this point.

Wel, o ystyried y ffaith bod y cwestiwn yn ymwneud â thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU, nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y pwynt hwn.

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:17

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the next item of business, which is the business statement, and I—[Interruption.] Thank you. I call on the business Minister, Jane Hutt.

Symudwn yn awr at yr eitem fusnes nesaf, sef y datganiad busnes, ac rwyf—[Torri ar draws.] Diolch. Galwaf ar y Gweinidog busnes, Jane Hutt.

14:17 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Llywydd, there's been one change to the business statement for this week's business. The First Minister will make a statement on the draft Wales Bill. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Lywydd, mae un newid i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon. Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar y Bil Cymru drafft. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Business Minister, can I ask your colleague the Minister for the environment to make a statement regarding the illegal activity taking place in Peterstone Wentlooge? A large number of residents have been seriously inconvenienced by certain people, shall we say, who seemed to take no notice of the current law in terms of the destruction of hedges and gross interference with people's liberties on footpaths and on designated footpaths by this Assembly. Newport City Council have tried what they can. The Gwent Police have also done their best, but it requires more action from Natural Resources Wales. The Minister has kindly facilitated access by me to his officials in the past, but a statement is now necessary to make sure that the illegal activities will now cease.

Weinidog Busnes, a gaf i ofyn i'ch cydweithiwr, Gweinidog yr amgylchedd, i wneud datganiad ynghylch y gweithgaredd anghyfreithlon sy'n digwydd yn Llanbedr Gwynllŵg? Mae nifer fawr o drigolion wedi dioddef anghyfleustra difrifol o ganlyniad i rai pobl, gawn ni ddweud, a oedd yn ymddangos fel nad oeddent yn talu dim sylw i'r gyfraith gyfredol ynglŷn â dinistrio gwrychoedd ac ymyrraeth ddifrifol â rhyddid pobl ar lwybrau troed ac ar lwybrau troed sydd wedi'u dynodi gan y Cynulliad hwn. Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ceisio gwneud yr hyn a allant. Mae Heddlu Gwent hefyd wedi gwneud eu gorau, ond mae angen mwy o weithredu gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Gweinidog wedi bod yn ddigon caredig i ganiatáu i mi drafod â'i swyddogion yn y gorffennol, ond mae datganiad bellach yn angenrheidiol i wneud yn siŵr y bydd y gweithgareddau anghyfreithlon yn dod i ben nawr.

Senedd.tv Fideo Video

14:18 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I know the Minister will have heard the update, William Graham, on action that he has taken in the past to facilitate Natural Resources Wales—access to officials. And, indeed, all the other agencies have a role to play. But, on the record again, of course, today, we hear that this is still an ongoing issue that needs to be tackled.

Gwn y bydd y Gweinidog wedi clywed y diweddariad, William Graham, ar y camau a gymerwyd ganddo yn y gorffennol i hwyluso mynediad at swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru—. Ac, yn wir, mae gan yr holl asiantaethau eraill ran i'w chwarae. Ond, ar y cofnod eto, wrth gwrs, heddiw, rydym yn clywed bod hwn yn dal yn fater parhaus y mae angen mynd i'r afael ag ef.

Senedd.tv Fideo Video

14:18 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Today, we're celebrating St David's Day, and I'm sure the Minister is aware that, on Thursday, it's World Book Day. Many libraries and schools are holding events to celebrate the joy of reading and to encourage children to read. In my constituency in Cardiff North, I'll be supporting a group called AWEN@TheLibrary, which aims to develop the use of library buildings for arts and other recreation activities. So, I wondered if it would be possible to have a statement that gave an assessment about what has happened to the libraries during the period of change throughout Wales. The uncertainty over funding has caused many libraries to have to look at their roles. Would it be possible to have a statement about what is happening?

Heddiw, rydym yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi, ac rwyf yn siŵr bod y Gweinidog yn ymwybodol mai dydd Iau yw Diwrnod y Llyfr. Mae llawer o lyfrgelloedd ac ysgolion yn cynnal digwyddiadau i glodfori'r pleser o ddarllen ac i annog plant i ddarllen. Yn fy etholaeth i yng Ngogledd Caerdydd, byddaf yn cefnogi grŵp o'r enw AWEN@TheLibrary, sydd â'r nod o ddatblygu'r defnydd o adeiladau llyfrgelloedd ar gyfer y celfyddydau a gweithgareddau hamdden eraill. Felly, roeddwn i'n meddwl tybed a fyddai'n bosibl cael datganiad a fyddai'n cynnwys asesiad o'r hyn sydd wedi digwydd i'r llyfrgelloedd yn ystod y cyfnod o newid ledled Cymru. Mae'r ansicrwydd o ran cyllid wedi achosi llawer o lyfrgelloedd i orfod ystyried eu swyddogaeth. A fyddai'n bosibl cael datganiad ar beth sy'n digwydd?

Senedd.tv Fideo Video

14:19 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I think that's a very good opportunity in terms of World Book Day and the activities that will be taking place in your constituency in Cardiff North, Julie Morgan. I know the Deputy Minister, of course, is taking a very close interest in the way in which the library provision is progressing. He's going to be launching, in fact, a national digital library on World Book Day and he would be very happy to provide an update, as you request.

Rwy'n credu bod hwnnw'n gyfle da iawn o ran Diwrnod y Llyfr a'r gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal yn eich etholaeth chi yng Ngogledd Caerdydd, Julie Morgan. Gwn fod y Dirprwy Weinidog, wrth gwrs, â chryn ddiddordeb yn y ffordd y mae'r ddarpariaeth lyfrgell yn mynd yn ei blaen. Bydd yn lansio, mewn gwirionedd, llyfrgell ddigidol genedlaethol ar Ddiwrnod y Llyfr, a byddai'n hapus iawn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf, yn unol â'ch cais.

Senedd.tv Fideo Video

14:20 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I ask for a statement from the Welsh Government about the appointment of a new chair for the Arts Council of Wales? There is a growing concern in the arts sector about the time it's taking to complete, and I understand that the latest shortlist of candidates were interviewed three weeks ago at the beginning of February, but that it is the Welsh Government that is dragging its feet over the decision. I also understand that your Government is expecting to make an announcement in the middle of March. That's for a job that starts in April, which was first advertised last July and re-advertised in November. Clearly, there must be something amiss here, so could you give us some clarification, either from the Minister or the First Minister?

A gaf i ofyn am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ynghylch penodi cadeirydd newydd i Gyngor Celfyddydau Cymru? Ceir pryder cynyddol yn y sector celfyddydau ynghylch yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau hynny, a deallaf y cafodd y rhestr fer ddiweddaraf o ymgeiswyr eu cyfweld dair wythnos yn ôl ar ddechrau mis Chwefror, ond mai Llywodraeth Cymru sydd yn llusgo ei thraed o ran y penderfyniad. Rwyf hefyd yn deall bod eich Llywodraeth yn disgwyl gwneud cyhoeddiad yng nghanol mis Mawrth. Mae hynny ar gyfer swydd sy'n dechrau ym mis Ebrill, a gafodd ei hysbysebu fis Gorffennaf diwethaf yn wreiddiol, a'i hysbysebu eto ym mis Tachwedd. Yn amlwg, mae'n rhaid bod rhywbeth o'i le yn y fan yma, felly a allech chi roi rhywfaint o eglurhad i ni, naill ai gan y Gweinidog neu'r Prif Weinidog?

14:20 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, this is a matter that is undertaken in full accordance with the Nolan principles and processes.

Wel, wrth gwrs, mae hwn yn fater a weithredir yn gwbl unol ag egwyddorion a phrosesau Nolan.

14:20 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, many people, I'm sure, will have seen the St David's Day message from Tim Peake from the space station this morning. Would the Minister, perhaps, write to the volunteers of the Brecon and Radnor Amateur Radio Society who have organised an opportunity for the young people of Brecon and Radnorshire to speak to Tim Peake this Saturday morning, hosted by Builth Wells High School? Students from Crickhowell High School and Gwernyfed High School will also be present. They will be using the opportunity to highlight careers in radio engineering and radio technology. Even at this late stage, it would not be too late, I'm sure, for the Welsh Government to send a representative to Builth Wells on Saturday morning to witness for themselves the link-up with the space station and Tim Peake and, I'm sure, the great enjoyment that these school pupils of Brecon and Radnorshire will have as a result of that opportunity afforded to them by the volunteers of the amateur radio society.

Weinidog, mae llawer o bobl, rwyf yn siŵr, sydd wedi gweld y neges Dydd Gŵyl Dewi gan Tim Peake o'r orsaf ofod y bore yma. A wnaiff y Gweinidog, efallai, ysgrifennu at wirfoddolwyr Cymdeithas Radio Amatur Brycheiniog a Maesyfed sydd wedi trefnu cyfle i bobl ifanc Brycheiniog a Sir Faesyfed siarad â Tim Peake fore dydd Sadwrn, a gynhelir gan Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt? Bydd myfyrwyr o Ysgol Uwchradd Crughywel ac Ysgol Uwchradd Gwernyfed yn bresennol hefyd. Byddant yn defnyddio'r cyfle i dynnu sylw at yrfaoedd mewn peirianneg radio a thechnoleg radio. Hyd yn oed ar y cam hwyr hwn, ni fyddai'n rhy hwyr, rwyf yn siŵr, i Lywodraeth Cymru anfon cynrychiolydd i Lanfair-ym-Muallt fore dydd Sadwrn i weld drosto ei hunan y cysylltiad â'r orsaf ofod a Tim Peake ac, rwyf yn siŵr, y mwynhad sylweddol y bydd y disgyblion ysgol hyn o Frycheiniog a Sir Faesyfed yn ei gael o ganlyniad i'r cyfle a gynigir iddynt gan wirfoddolwyr y gymdeithas radio amatur.

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to congratulate the Member for Brecon and Radnor for her full engagement with the young people who took part, and who will be taking part on Saturday in terms of that message link to Tim Peake, and of course, again, providing the opportunity for us to thank Tim Peake for acknowledging the importance of St David's Day. But, indeed, the ways in which you are engaging with young people across Brecon and Radnor is very valid and admirable in terms of their skills and possible job and career opportunities in the future.

Hoffwn longyfarch Aelod Brycheiniog a Sir Faesyfed am ei hymgysylltiad llawn â'r bobl ifanc a gymerodd ran, ac a fydd yn cymryd rhan ddydd Sadwrn o ran y neges gyswllt â Tim Peake, ac wrth gwrs, unwaith eto, am roi'r cyfle i ni ddiolch i Tim Peake am gydnabod pwysigrwydd Dydd Gŵyl Dewi. Ond, yn wir, mae'r ffyrdd yr ydych yn ymgysylltu â phobl ifanc ledled Brycheiniog a Sir Faesyfed yn ddilys ac yn glodwiw iawn o ran eu sgiliau a'u cyfleoedd gwaith a gyrfa posibl yn y dyfodol.

14:22 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, today it's St David's Day and clearly many of our schools will be hosting eisteddfodau to celebrate the arts and culture in Wales, but we are still in a position where music education in Wales is, sadly, in decline in some places. I wonder if I could ask for a statement from the Minister for Education and Skills updating us on the progress of his recent review and the implementation of it. In particular, I'd like to understand how the Welsh Government goes about monitoring the number of young people in our schools who are able to learn musical instruments, as not all of the local authorities in Wales were able to provide me with that information when I asked for it under the Freedom of Information Act 2000.

Weinidog, heddiw yw Dydd Gŵyl Dewi, ac mae'n amlwg y bydd llawer o'n hysgolion yn cynnal eisteddfodau i glodfori'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru, ond rydym yn dal i fod mewn sefyllfa lle y mae addysg cerddoriaeth yng Nghymru, yn anffodus, yn dirywio mewn rhai mannau. Tybed a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar gynnydd a gweithrediad ei adolygiad diweddar. Yn arbennig, hoffwn ddeall sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i fonitro nifer y bobl ifanc yn ein hysgolion sydd yn cael dysgu offerynnau cerdd, gan nad oedd pob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn gallu rhoi'r wybodaeth i mi pan ofynnais amdani o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Secondly, given the speculation in the press over the weekend over the governance arrangements for the Valleys lines and the Wales and borders franchise, I understand that the Minister for Economy, Science and Transport is minded to produce a statement on the governance arrangements moving forward. I wonder if we could have a timetable for that statement, please.

Yn ail, o ystyried y dyfalu yn y wasg dros y penwythnos ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer rheilffyrdd y Cymoedd a masnachfraint Cymru a'r gororau, deallaf fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth o blaid cyflwyno datganiad ar y trefniadau llywodraethu wrth symud ymlaen. Tybed a allem ni gael amserlen ar gyfer y datganiad hwnnw, os gwelwch yn dda.

14:23 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

It's very important that you recognise the Minister for education's interest in music education and the fact that a review has been undertaken. In fact, this is something where, of course, we await the outcome of that review, because of the Welsh Government's commitment to ensuring that music education can progress, despite the cuts from the UK Government to Welsh Government, which, of course, has had a negative impact in terms of our abilities. To enable the review to undertake this assessment I think is very important.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn cydnabod diddordeb y Gweinidog addysg mewn addysg cerddoriaeth a'r ffaith fod adolygiad wedi'i gynnal. Mewn gwirionedd, mae hyn yn rhywbeth pan, wrth gwrs, ein bod yn aros am ganlyniad yr adolygiad hwnnw, oherwydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod addysg cerddoriaeth yn gallu datblygu, er gwaethaf y toriadau gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru, sydd, wrth gwrs, wedi cael effaith negyddol o ran ein gallu. Mae galluogi'r adolygiad i gynnal yr asesiad hwn yn bwysig iawn rwy'n credu.

On your second point, of course this is a matter for the Minister for Economy, Science and Transport, and she will, of course, update us in due course.

O ran eich ail bwynt, mater i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw hwn wrth gwrs, a bydd hi, wrth gwrs, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni maes o law.

14:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:24

## 3. Datganiad: Bil Cymru Drafft

## 3. Statement: The Draft Wales Bill

Senedd.tv
Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 3, which is a statement by the First Minister on the draft Wales Bill. I call on the First Minister, Carwyn Jones.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan y Prif Weinidog ar y Bil Cymru drafft. Galwaf ar y Prif Weinidog, Carwyn Jones.

14:24 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Llywydd. I'd like to make a statement responding to the Secretary of State's announcement yesterday that the Wales Bill is to be paused. We do now have an opportunity, if the will is truly there, to repair the damage done by a flawed process, and to produce a genuinely meaningful piece of legislation. I should first make it clear to the Assembly that I know no more about the Secretary of State's intentions than what has appeared in the press. The Welsh Government was not notified beforehand of the content of the Secretary of State's announcement, nor has there been any follow-up communication as to what might happen next. If there is to be any real progress with this Bill, it must be a Bill made with Wales, not for Wales, as recognised by both the Assembly's committee on constitutional and legal affairs and, more recently, the Welsh Affairs Select Committee.

Diolch, Lywydd. Hoffwn wneud datganiad i ymateb i gyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol ddoe bod Bil Cymru am gael ei oedi. Mae gennym nawr gyfle, os yw'r ewyllys yn wirioneddol yno, i drwsio'r difrod a wnaethpwyd gan broses ddiffygiol, ac i gynhyrchu darn gwirioneddol ystyrlon o ddeddfwriaeth. Dylwn yn gyntaf ei gwneud yn glir i'r Cynulliad nad wyf yn gwybod dim mwy am fwriadau'r Ysgrifennydd Gwladol na'r hyn sydd wedi ymddangos yn y wasg. Ni chafodd Llywodraeth Cymru wybod ymlaen llaw am gynnwys cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol, ac ni fu unrhyw gyfathrebu dilynol ynghylch yr hyn a allai ddigwydd nesaf. Os ydym am wneud unrhyw gynnydd gwirioneddol gyda'r Bil hwn, mae'n rhaid iddo fod yn Fil a wnaethpwyd gyda Chymru, nid ar gyfer Cymru, fel y cydnabu pwyllgor y Cynulliad ar faterion cyfansoddiadol a chyfreithiol ac, yn fwy diweddar, y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig.

The UK Government's press release about the announcement makes a number of points, and I'll deal with these in turn. First, on the overall model of devolution, the so-called 'necessity test' is to be removed. On the face of it, this is to be welcomed, and, of course, reflects the views of this Assembly and many others who have commented on the Bill. But it remains unclear exactly what the announcement implies. Now, sadly, I can't envisage a situation where there'll be no restrictions at all on the Assembly's powers to modify the private and criminal law. But unfortunately, it is impossible for me to comment further without seeing more detail.

Mae datganiad i'r wasg Llywodraeth y DU ynghylch y cyhoeddiad yn gwneud nifer o bwyntiau, a rhoddaf sylw i'r rhain yn eu tro. Yn gyntaf, ar y model datganoli cyffredinol, mae'r hyn a elwir yn 'brawf rheidrwydd' am gael ei ddileu. Ar yr wyneb, mae hyn i'w groesawu, ac, wrth gwrs, mae'n adlewyrchu barn y Cynulliad hwn a llawer o bobl eraill sydd wedi gwneud sylwadau am y Bil. Ond mae'n dal yn aneglur beth yn union y mae'r cyhoeddiad yn ei awgrymu. Nawr, yn anffodus, ni allaf ragweld sefyllfa lle na fydd unrhyw gyfyngiadau o gwbl ar bwerau'r Cynulliad i addasu'r gyfraith breifat a throseddol. Ond yn anffodus, mae'n amhosibl imi wneud sylwadau pellach heb weld mwy o fanylion.

That's also true of the second element of yesterday's announcement, on ministerial powers and consents. The Welsh Government's position has been clear for many months and is on the record, and the Secretary of State announced that he will look at each of these with a view to devolving as many as possible. That's good, but that can't be a matter for the Secretary of State alone. If there are to be exceptions to the general principle, these must be agreed between the two Governments, and that will require dialogue. Welsh Government officials have held two meetings with Wales Office officials where this was on the agenda and I wrote to the Secretary of State specifically on this issue on 23 November of last year. But other than his public indication yesterday that the English veto on Welsh laws was never his intention, we've not yet had a response.

Mae hynny hefyd yn wir am ail elfen cyhoeddiad ddoe, ar bwerau gweinidogol a chydsyniadau. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir ers misoedd lawer ac mae ar y cofnod, a chyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol y bydd yn edrych ar bob un o'r rhain gyda golwg ar ddatganoli cynifer â phosibl. Mae hynny'n dda, ond ni all hynny fod yn fater i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig. Os bydd eithriadau i'r egwyddor gyffredinol, mae'n rhaid i'r ddwy Lywodraeth gytuno arnynt, a bydd angen deialog i wneud hynny. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynnal dau gyfarfod gyda swyddogion Swyddfa Cymru lle'r oedd hyn ar yr agenda ac ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol yn benodol ar y mater hwn ar 23 Tachwedd y llynedd. Ond ar wahân i'w awgrym cyhoeddus ddoe nad oedd erioed wedi bwriadu rhoi feto i Loegr ar gyfreithiau Cymru, nid ydym wedi cael ymateb eto.

The same point needs to be made in relation to reservations. Here, we are told that the Wales Office is to review the existing list in discussion with Whitehall departments and that each reservation will have to be justified. My officials held 15 meetings with UK Government officials between October and January and have provided a full and comprehensive view on each of the reservations to them. But, again, no response. If this process remains entirely internal to the UK Government, I can have little confidence that this won't be another Bill made for Wales, not with Wales.

Mae angen gwneud yr un pwynt ynglŷn â phwerau a gedwir. Yma, dywedir wrthym y bydd Swyddfa Cymru'n adolygu'r rhestr bresennol mewn trafodaeth ag adrannau Whitehall ac y bydd yn rhaid cyfiawnhau pob pŵer a gedwir. Cynhaliodd fy swyddogion 15 o gyfarfodydd gyda swyddogion Llywodraeth y DU rhwng mis Hydref a mis Ionawr ac maent wedi darparu darlun llawn a chynhwysfawr o bob un o'r pwerau a gedwir iddynt. Ond, unwaith eto, dim ymateb. Os yw'r broses hon yn parhau i fod yn gwbl fewnol i Lywodraeth y DU, ni allaf fod yn hyderus iawn na fydd hwn yn Fil arall wedi'i wneud ar gyfer Cymru, nid gyda Chymru.

Finally, could I turn to the question of legal jurisdiction? Here, it's clear that the Secretary of State has rejected the unanimous view of this Assembly and that of the Welsh Affairs Committee: that this is a matter meriting further examination. Instead, we are to have a working group

'to consider what distinct arrangements are required to recognise Wales's needs'

within the existing jurisdiction. From the press announcement, it appears that the Welsh Government is to be represented on this group, but we've not yet been approached.

I would, however, like to make a more general point. I believe the creation of a legal jurisdiction for Wales is an inevitable constitutional development within the United Kingdom. I've urged the Secretary of State to take a more far-sighted view and I'd like to see the UK Government move towards this now, rather than under pressure of events later on.

Llywydd, last October, in a statement to the Assembly about the publication of the draft Bill, I said this, and I quote:

'A Wales Bill should provide an opportunity to improve the way Wales is governed. But unless significant changes are made to make'

the Bill

'fit for purpose, that opportunity will be lost. We will continue our constructive dialogue to help achieve that, and we look to the UK Government to respond accordingly, in line with the needs of the people of Wales.'

Those words are as true today as they were six months ago. Much more needs to be done to secure a constitutional basis for the governance of Wales in the UK that meets the Secretary of State's own tests of clarity, coherence, stability, workability and sustainability. Thank you.

Yn olaf, a gaf i droi at fater awdurdodaeth gyfreithiol? Yma, mae'n amlwg bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gwrthod barn unfrydol y Cynulliad hwn, a barn y Pwyllgor Materion Cymreig: bod hwn yn fater sy'n haeddu archwiliad pellach. Yn lle hynny, byddwn yn cael gweithgor

'i ystyried pa drefniadau ar wahân sydd eu hangen i gydnabod anghenion Cymru'

o fewn yr awdurdodaeth bresennol. O'r cyhoeddiad i'r wasg, mae'n ymddangos y caiff Llywodraeth Cymru ei chynrychioli ar y grŵp hwn, ond nid ydynt wedi cysylltu â ni eto.

Hoffwn, fodd bynnag, wneud pwynt mwy cyffredinol. Credaf fod creu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru yn ddatblygiad cyfansoddiadol anochel o fewn y Deyrnas Unedig. Rwyf wedi annog yr Ysgrifennydd Gwladol i gymryd golwg fwy pellgyrhaeddol a hoffwn weld Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn symud tuag at hyn yn awr, yn hytrach nag o dan bwysau digwyddiadau yn nes ymlaen.

Lywydd, fis Hydref diwethaf, mewn datganiad i'r Cynulliad am gyhoeddi'r Bil drafft, dywedais hyn, ac rwy'n dyfynnu:

'Dylai Bil Cymru ddarparu cyfle i wella'r ffordd y caiff Cymru ei llywodraethu. Ond oni wneir newidiadau sylweddol i wneud'

y Bil

'yn addas i'w ddiben, caiff y cyfle hwnnw ei golli. Byddwn yn parhau â'n trafodaethau adeiladol i helpu i gyflawni hynny, ac rydym yn gobeithio y gwnaiff Llywodraeth y DU ymateb yn briodol, yn unol ag anghenion pobl Cymru.'

Mae'r geiriau hynny yr un mor wir heddiw ag yr oeddent chwe mis yn ôl. Mae angen gwneud llawer mwy i sicrhau sylfaen gyfansoddiadol i lywodraethu Cymru yn y Deyrnas Unedig sy'n bodloni profion yr Ysgrifennydd Gwladol ei hun ar eglurder, cydlyniad, sefydlogrwydd, ymarferoldeb a chynaliadwyedd. Diolch.

14:29 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, thank you for your statement today, and I do welcome the announcement from the Secretary of State yesterday on the representations that he's received from this institution, from the Welsh Affairs Select Committee and from representatives across Wales and, indeed, across the United Kingdom, who have an interest in Welsh devolution and a robust constitutional settlement that will deliver what we all want to see—a settlement for Wales that, ultimately, will move us on from the constant constitutional debates and discussions that, for the last 17 years, have been a hallmark of Welsh political life. I do think it's somewhat regrettable that the First Minister does choose to use the tone again about the English veto on Welsh laws. I don't recognise the Westminster Parliament as being an exclusively English Parliament, and I do not recognise the UK Government as being an exclusively English Government. It is a Government for the United Kingdom. And if that is going to be the tone that the First Minister and the Government are going to continue engaging in, that really doesn't bode well for the process ahead.

Brif Weinidog, diolch i chi am eich datganiad heddiw, ac rwy'n croesawu'r cyhoeddiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddoe am y sylwadau y mae wedi'u cael gan y sefydliad hwn, gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig a gan gynrychiolwyr ledled Cymru ac, yn wir, ledled y Deyrnas Unedig, sydd â diddordeb mewn datganoli yng Nghymru a setliad cyfansoddiadol cadarn a fydd yn cyflawni'r hyn yr hoffem i gyd ei weld—setliad i Gymru a fydd, yn y pen draw, yn ein symud ymlaen o'r dadleuon a thrafodaethau cyfansoddiadol cyson sydd, dros y 17 mlynedd diwethaf, wedi bod yn nodweddiadol o fywyd gwleidyddol Cymru. Rwy'n meddwl ei bod braidd yn anffodus bod y Prif Weinidog yn dewis defnyddio'r dôn eto ynglŷn â'r feto i Loegr ar gyfreithiau Cymru. Nid wyf yn cydnabod bod Senedd San Steffan yn Senedd i Loegr yn unig, ac nid wyf yn cydnabod bod Llywodraeth y DU yn Llywodraeth i Loegr yn unig. Mae'n Llywodraeth ar gyfer y Deyrnas Unedig. Ac os yw'r Prif Weinidog a'r Llywodraeth yn mynd i barhau i ddefnyddio'r dôn honno, nid yw hynny'n argoeli'n dda ar gyfer y broses sydd o'n blaenau.

There is an opportunity here to build on the solid work, and the solid representations, that have been made. I'd like to pay special tribute to the Presiding Officer who's made many representations on the Assembly-as-the-legislature's view, on what we believe the Bill could look like with the improvements that will be made. Because, at the end of the day, this was a draft Bill that was placed before the people of Wales, before this institution, before the Select Committee, to offer that discussion, offer that debate, and ultimately bring forward those improvements. Surely that's what we want to see, and that is good legislative process, as I would like to see it.

Mae hwn yn gyfle i adeiladu ar y gwaith cadarn, a'r sylwadau cadarn, sydd wedi eu gwneud. Hoffwn dalu teyrnged arbennig i'r Llywydd sydd wedi gwneud llawer o sylwadau ar farn y Cynulliad fel y ddeddfwrfa, ar sut yr ydym yn credu y gallai'r Bil edrych gyda'r gwelliannau a wneir. Oherwydd, yn y pen draw, roedd hwn yn Fil drafft a gafodd ei roi gerbron pobl Cymru, gerbron y sefydliad hwn, gerbron y Pwyllgor Dethol, i gynnig y drafodaeth honno, cynnig y ddadl honno, ac yn y pen draw, i gyflwyno'r gwelliannau hynny. Siawns mai dyna beth yr hoffem ei weld, ac mae hynny'n dangos proses ddeddfwriaethol da, fel yr hoffwn ei gweld.

I would also hope that the First Minister might—. He chose not to comment in his statement around the devolution of income tax, because also yesterday the Secretary of State did touch on the discussions and negotiations to make sure that Wales wasn't disadvantaged by the transfer of income tax devolution. And that was very prominent last week, in the discussions around Scotland and the financial settlement that Scotland had secured in their negotiations with the Treasury. I do find it somewhat bizarre that, in this entire statement, the First Minister has chosen not to refer to that whatsoever, because this is a big piece of transfer of responsibilities that the Bill will bring to Wales, and something I very, very warmly welcome.

Byddwn hefyd yn gobeithio y gallai'r Prif Weinidog—. Dewisodd beidio â gwneud sylwadau yn ei ddatganiad ynglŷn â datganoli treth incwm, oherwydd hefyd ddoe cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Gwladol at y trafodaethau i sicrhau nad oedd Cymru dan anfantais oherwydd trosglwyddo datganoli treth incwm. Ac roedd hynny'n amlwg iawn yr wythnos diwethaf, yn y trafodaethau ynglŷn â'r Alban a'r setliad ariannol y mae'r Alban wedi ei sicrhau yn eu trafodaethau gyda'r Trysorlys. Rwy'n ei gweld hi braidd yn rhyfedd bod y Prif Weinidog, yn y datganiad cyfan hwn, wedi dewis peidio â chyfeirio at hynny o gwbl, oherwydd mae hwn yn ddarn mawr o drosglwyddo cyfrifoldebau y bydd y Bil yn ei roi i Gymru, ac yn rhywbeth yr wyf yn ei groesawu'n gynnes iawn, iawn.

I do offer the First Minister any assistance, in the short time that is left, to encourage communication, to encourage dialogue, to make sure that it's not just the Welsh Government, but all parties in this institution, and, indeed, the legislature as a whole, to have a very full and frank discussion on this. I do think the Assembly itself really shone when we had that all-party debate here, back a couple of months ago, with the quality of the debate and the quality of the opinions that were expressed.

Rwy'n cynnig i'r Prif Weinidog unrhyw gymorth, yn yr amser byr sydd ar ôl, i annog cyfathrebu, i annog deialog, i wneud yn siŵr nad dim ond Llywodraeth Cymru, ond pob plaid yn y sefydliad hwn, ac, yn wir, y ddeddfwrfa gyfan, i gael trafodaeth lawn ac agored iawn am hyn. Rwy'n meddwl bod y Cynulliad ei hun yn ddisglair iawn pan gawsom y ddadl hollbleidiol honno yma, fis neu ddau yn ôl, o ran ansawdd y ddadl ac ansawdd y safbwyntiau a fynegwyd.

And I know full well that those opinions were taken on board, and ultimately have put us in the position where we will now be in a position to shape a piece of legislation that is the only opportunity in this legislative window—the five years of this Westminster Parliament—to seek a transfer of responsibilities to this institution over a whole raft of powers that, ultimately, could make democracy far more secure here in Wales, and far more interactive with the public of Wales, because we will be able to actually shape so much of the economy of Wales, the life of Wales, and, ultimately, the transformation agenda we all want to embrace, by the powers that could be contained in the future Wales Bill. With that, I'd ask the First Minister to respond to the points I've made.

Ac rwy'n gwybod yn iawn bod y safbwyntiau hynny wedi cael eu hystyried, a'u bod yn y pen draw wedi ein rhoi yn y sefyllfa lle byddwn nawr mewn sefyllfa i lunio darn o ddeddfwriaeth sydd yr unig gyfle yn y ffenestr ddeddfwriaethol hon—pum mlynedd y Senedd San Steffan hon—i geisio trosglwyddo cyfrifoldebau i'r sefydliad hwn dros lu o bwerau a allai, yn y pen draw, wneud democratiaeth yn llawer mwy cadarn yma yng Nghymru, ac yn llawer mwy rhyngweithiol â'r cyhoedd yng Nghymru, gan y byddwn wir yn gallu llunio cymaint o economi Cymru, bywyd Cymru, ac, yn y pen draw, yr agenda weddnewid yr hoffem i gyd ei chofleidio, drwy'r pwerau a allai fod wedi'u cynnwys yn y Bil Cymru yn y dyfodol. Ar ôl dweud hynny, hoffwn ofyn i'r Prif Weinidog ymateb i'r pwyntiau yr wyf wedi eu gwneud.

14:33

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Can I thank the leader of the opposition for his comments? Could I explain what I mean by 'English votes on English laws'? He makes the point—and it's a fair point—that there are UK Ministers and there's a UK Parliament, but on that basis then we shouldn't have English votes on English laws. The same principle applies.

A gaf i ddiolch i arweinydd yr wrthblaid am ei sylwadau? A gaf i egluro beth yr wyf yn ei olygu wrth 'pleidleisiau yn Lloegr am gyfreithiau Lloegr'? Mae'n gwneud y pwynt—ac mae'n bwynt teg—mai Gweinidogion y DU a Senedd y DU ydynt, ond ar y sail honno, ni ddylem gael pleidleisiau yn Lloegr am gyfreithiau Lloegr. Mae'r un egwyddor yn berthnasol.

The Minister of the Crown consents, as they are currently drafted, would mean that Ministers who have no responsibility outside of England, as Ministers, would have a veto over laws in Wales. Yes, they are UK Ministers, but, in practical terms, they have no role in Wales, nor would the UK Parliament have the ability to take a different position to a Minister who refused, for example, to give consent. That's the issue. So, effectively, you have Ministers who are acting as English Ministers, in that role, who are effectively in the position of being able to stop Welsh laws. Therefore, it is an English veto on Welsh laws, in the same way as there are English votes on English laws in the UK Parliament—an issue that, personally, I do not agree with.

Byddai cydsyniadau Gweinidog y Goron, fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd, yn golygu y byddai Gweinidogion nad oes ganddynt gyfrifoldeb y tu allan i Loegr, fel Gweinidogion, yn cael feto dros gyfreithiau yng Nghymru. Ydynt, maent yn Weinidogion y DU, ond, yn ymarferol, nid oes ganddynt unrhyw swyddogaeth yng Nghymru, ac ni fyddai gan Senedd y DU y gallu i gymryd safbwynt gwahanol i Weinidog fyddai'n gwrthod, er enghraifft, roi caniatâd. Dyna'r mater dan sylw. Felly, i bob diben, mae gennych Weinidogion sy'n gweithredu fel Gweinidogion Lloegr, yn y swyddogaeth honno, sydd i bob diben yn y sefyllfa o allu atal deddfau Cymru. Felly, mae'n feto i Loegr ar gyfreithiau Cymru, yn yr un modd ag y ceir pleidleisiau i Loegr ar gyfreithiau Lloegr yn Senedd y DU—mater nad wyf i, yn bersonol, yn cytuno ag ef.

In terms of the draft Bill, there are three flaws, particularly, that I identify in this process. And these are issues that I have raised with the Secretary of State, and told him, in good faith, many months ago. Firstly, the failure to engage with Welsh Government at the beginning. We were presented with a Bill that was so far from being able to be agreed, not just by Government, but by parties across this Chamber, that time would have been saved if there had been early engagement and a joint approach to drafting the legislation. And that's something that I regret.

O ran y Bil drafft, ceir tri diffyg, yn arbennig, yr wyf wedi'u nodi yn y broses hon. Ac mae'r rhain yn faterion yr wyf wedi'u codi gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, ac wedi dweud wrtho amdanynt, yn ddidwyll, fisoedd lawer yn ôl. Yn gyntaf, y methiant i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar y dechrau. Cafodd Bil ei gyflwyno inni a oedd mor bell o fod yn rhywbeth y gallem gytuno arno, nid dim ond yn y Llywodraeth, ond yn y pleidiau ar draws y Siambr hon, sy'n golygu y byddai wedi arbed amser pe byddai ymgysylltiad cynnar wedi digwydd er mwyn drafftio'r ddeddfwriaeth ar y cyd. Ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn ei resynu.

The second point, I think, that the Secretary of State would need to reflect on is that what he did, in effect, was say to Whitehall departments, 'What do you think should be or is devolved?', rather than saying, 'This is what I want to see devolved.' And the result then, of course, was two things. First of all, a situation where Whitehall departments gave their own interpretation of what was and what wasn't devolved, and also an invitation to some of them to suggest that what is currently devolved should no longer be devolved. I've made the point in this Chamber before about coracles being regarded as shipping. That was something that was presented to us as something that they wanted to see taken from this Assembly because there was no framework within which they were being told to operate. Now, it's there, but the third point is this: there has been a delay of many months that wasn't required, that wasn't needed. We could have been far further down the line than this, and have a Bill that was robust, that would gain broad support—not full support of all parties in this Chamber, but broad support across this Chamber—to provide Wales with a robust constitutional settlement.

Yr ail bwynt, rwy'n meddwl, y byddai angen i'r Ysgrifennydd Gwladol fyfyrio arno yw mai'r hyn a wnaeth, i bob pwrpas, oedd dweud wrth adrannau Whitehall, 'Beth ydych chi'n feddwl y dylai fod, neu sydd wedi'i ddatganoli?', yn hytrach na dweud, 'dyma'r hyn yr hoffwn i ei weld wedi'i ddatganoli.' A'r canlyniad, wedyn, wrth gwrs, oedd dau beth. Yn gyntaf oll, sefyllfa lle'r oedd adrannau Whitehall yn rhoi eu dehongliad eu hunain o'r hyn a oedd wedi ei ddatganoli a'r hyn nad oedd, a hefyd gwahoddiad i rai ohonynt i awgrymu na ddylai'r hyn sydd wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd fod wedi'i ddatganoli mwyach. Rwyf wedi gwneud y pwynt yn y Siambr hon o'r blaen am ystyried cwryglau fel llongau. Roedd hynny'n rhywbeth a gyflwynwyd inni fel rhywbeth yr oeddent am ei weld yn cael ei gymryd oddi ar y Cynulliad hwn oherwydd nad oeddent wedi cael fframwaith i weithredu oddi mewn iddo. Nawr, mae yno, ond y trydydd pwynt yw hyn: bu misoedd o oedi dieisiau a diangen. Gallem fod wedi gwneud llawer mwy o gynnydd na hyn, a gallai fod gennym Fil cadarn, a fyddai'n cael cefnogaeth eang—nid cefnogaeth lawn pob plaid yn y Siambr hon, ond cefnogaeth eang ar draws y Siambr hon—i ddarparu setliad cyfansoddiadol cadarn i Gymru.

I don't think it's possible to have that settlement without addressing the situation of the jurisdiction; otherwise we end up in the position of being an oddity in terms of legal systems around the world where, again, you have two legislatures passing laws on the same policy areas within the same jurisdiction. It's just unknown. From a legal point of view it's nonsensical. But these are discussions over the distinct jurisdiction, particularly, that will need to be had, but unless they are addressed—if that door is closed—then this can never be a sustainable settlement. I hope that that isn't the case.

Nid wyf yn credu ei bod yn bosibl cael y setliad hwnnw heb ymdrin â sefyllfa'r awdurdodaeth; fel arall, byddwn yn y pen draw yn y sefyllfa o fod yn eithriad o ran systemau cyfreithiol ledled y byd lle mae gennych, unwaith eto, ddwy ddeddfwrfa yn pasio deddfau yn yr un meysydd polisi o fewn yr un awdurdodaeth. Nid yw'n digwydd o gwbl. O safbwynt cyfreithiol, mae'n hurt. Ond mae'r rhain yn drafodaethau ynglŷn â'r awdurdodaeth ar wahân, yn arbennig, y bydd angen eu cael, ond oni bai eu bod yn cael sylw—os caiff y drws hwnnw ei gau—ni all hwn byth fod yn setliad cynaliadwy. Rwy'n gobeithio na wnaiff hynny ddigwydd.

He made a point about the income tax powers. Well, we are moving forward with those. Later on this afternoon we have a Bill that will be progressing—I trust—through the Assembly regarding the organisation that will be set up that will collect those taxes. We want to see the same fiscal framework as the Scots have, bluntly. There is no reason why Wales should be treated differently, and we look forward, in the discussions that the Minister will be having with Treasury, to a recognition that Wales will be treated in exactly the same way as Scotland, and on the same favourable basis as Scotland.

Gwnaeth bwynt am y pwerau treth incwm. Wel, rydym yn bwrw ymlaen â'r rheini. Yn nes ymlaen y prynhawn yma mae gennym Fil a fydd yn symud ymlaen—hyderaf—drwy'r Cynulliad ynghylch y sefydliad a gaiff ei sefydlu i gasglu'r trethi hynny. Hoffem weld yr un fframwaith cyllidol ag sydd gan yr Albanwyr, a dweud y gwir. Nid oes unrhyw reswm pam y dylai Cymru gael ei thrin yn wahanol, ac rydym yn edrych ymlaen, yn y trafodaethau y bydd y Gweinidog yn eu cael â'r Trysorlys, at gydnabyddiaeth y caiff Cymru ei thrin yn yr un modd yn union â'r Alban, ac ar yr un sail ffafriol â'r Alban.

14:37 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you've covered very much the issue with regard to the distinct jurisdiction, and you've raised also the various issues about the need to actually work together with the UK Government in order to achieve a workable piece of legislation, but of course all this has been long provided for within the devolution guidance notes, in particular guidance note No. 9, which very comprehensively provides for the need for both Governments to be able to get together, to work together, to sort out these constitutional anomalies, and to be able to walk forward collectively together. It seems to me that one of the problems is that guidance note No. 9 has almost been completely pushed to one side. Do you agree with me that one of the important things now is that we actually resurrect those guidance notes and we actually put them into force to make them work? Because unless they work, there will not be the level of co-operation and organisation in order to sort out not only the issue of reserved powers, and the issues of the tests and so on, but also the fundamental point would go to the absolute core of a workable piece of legislation, and that is the issue of jurisdiction and the creation, which seems to be accepted almost universally now by everyone working in this field, of a distinct legal jurisdiction for Wales.

Brif Weinidog, rydych chi wedi rhoi llawer o sylw i'r mater o ran awdurdodaethau ar wahân, ac rydych hefyd wedi codi'r gwahanol faterion am yr angen i gydweithio mewn gwirionedd â Llywodraeth y DU er mwyn cyflawni darn ymarferol o ddeddfwriaeth, ond wrth gwrs mae'r nodiadau cyfarwyddyd datganoli wedi darparu ar gyfer hyn ers amser maith, yn enwedig nodyn cyfarwyddyd Rhif 9, sy'n darparu'n gynhwysfawr iawn ar gyfer yr angen i'r ddwy Lywodraeth allu dod at ei gilydd, i gydweithio, i ddatrys yr anghysondebau cyfansoddiadol hyn, ac i allu cerdded ymlaen gyda'i gilydd. Mae'n ymddangos i mi mai un o'r problemau yw bod nodyn cyfarwyddyd Rhif 9 bron wedi cael ei wthio'n llwyr i un ochr. A ydych chi'n cytuno â mi mai un o'r pethau pwysig nawr yw ein bod mewn gwirionedd yn atgyfodi'r nodiadau cyfarwyddyd hynny a'n bod mewn gwirionedd yn eu rhoi ar waith i wneud iddynt weithio? Oherwydd oni bai eu bod yn gweithio, ni cheir digon o gydweithrediad a threfn i ddatrys, nid dim ond mater o bwerau a gedwir, a materion y profion ac yn y blaen, ond hefyd byddai'r pwynt sylfaenol yn mynd i galon darn ymarferol o ddeddfwriaeth, sef mater awdurdodaeth a chreu, sy'n ymddangos ei fod wedi'i dderbyn erbyn hyn gan bron bawb sy'n gweithio yn y maes hwn, awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru.

14:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Two points were raised there by the Member. First of all, the devolution guidance is well and good on paper, but it requires, at its heart, an agreement on what is and what isn't within the competence of this Assembly. If that isn't there, the rest of it has no effect at all. The issue that we have faced is not that DG9 is being ignored, but we can't even get to that point because there is a dispute over competence. So, ensuring that competence is clearer, as it is in Scotland, is a major step forward in terms of being able to see DG9—or whatever its successor might be—being used properly in order to govern the relationship between these two institutions.

Cododd yr Aelod ddau bwynt yn y fan yna. Yn gyntaf oll, mae'r canllawiau datganoli yn ddigon da ar bapur, ond mae angen, yn eu calon, cytundeb ar yr hyn sydd a'r hyn nad yw o fewn cymhwysedd y Cynulliad hwn. Os nad yw hynny yno, nid oes gan y gweddill ohono unrhyw effaith o gwbl. Nid anwybyddu DG9 yw'r mater yr ydym wedi bod yn ei wynebu, ond y ffaith na allwn hyd yn oed gyrraedd y pwynt hwnnw oherwydd anghydfod ynghylch cymhwysedd. Felly, mae sicrhau bod cymhwysedd yn gliriach, fel y mae yn yr Alban, yn gam mawr ymlaen o ran gallu gweld DG9—neu beth bynnag fydd ei olynydd—yn cael ei ddefnyddio'n briodol i reoli'r berthynas rhwng y ddau sefydliad hyn.

It's also important, of course, to understand that, from the perspective of the Assembly, we could not agree, I'm sure, to any situation that would see a narrowing or a more shallow approach to the competence of this Assembly. The reason why we have seen that approach taken in the Bill is precisely because of the obsession with preserving the single jurisdiction as it is. At the very heart of the Bill is the philosophy, because it's a single jurisdiction, that in effect a difference in the law between England and Wales would be an exception, which is why the necessity test was there, which goes right against, of course, what 2011 referendum said. Progress has been made on the necessity test. I welcome that, of course, but you cannot get away from the examination that needs to take place in terms of the jurisdiction. We have put forward what we think is a compromise position, which is that there should be a distinct jurisdiction, so there would be a formal separation of the jurisdictions, there'd be no problem in terms of the professions working in both jurisdictions, there'd be no difficulty with judges being accredited to sit in both jurisdictions, and the courts system would remain the same. That, I believe, is a perfectly sensible and rational compromise that would lead to far greater clarity in the settlement.

Mae hefyd yn bwysig, wrth gwrs, deall, o safbwynt y Cynulliad, na allem gytuno, rwy'n siŵr, ag unrhyw sefyllfa lle byddai cymhwysedd y Cynulliad hwn yn cael ei gulhau neu ei wneud yn fwy arwynebol. Y rheswm pam yr ydym wedi gweld yr ymagwedd honno yn y Bil yw yn union oherwydd yr obsesiwn â chadw'r awdurdodaeth sengl fel ag y mae. Yng nghalon y Bil mae'r athroniaeth, gan ei bod yn awdurdodaeth sengl, y byddai gwahaniaeth yn y gyfraith rhwng Cymru a Lloegr i bob diben yn eithriad, a dyna pam yr oedd y prawf angenrheidrwydd yno, sy'n mynd yn gwbl groes, wrth gwrs, i'r hyn a ddywedodd refferendwm 2011. Mae cynnydd wedi'i wneud ar y prawf anghenraid. Rwy'n croesawu hynny, wrth gwrs, ond ni allwch osgoi'r ffaith bod angen archwilio'r awdurdodaeth. Rydym wedi cyflwyno'r hyn sydd yn safbwynt cyfaddawd yn ein barn ni, sef y dylid bod awdurdodaeth ar wahân, ac felly y byddai'r awdurdodaethau'n cael eu gwahanu'n ffurfiol, ni fyddai problem o ran y proffesiynau'n gweithio yn y ddwy awdurdodaeth, ni fyddai anhawster i achredu barnwyr i eistedd yn y ddwy awdurdodaeth, a byddai'r system llysoedd yn aros yr un fath. Mae hynny, yn fy marn i, yn gyfaddawd cwbl synhwyrol a rhesymegol a fyddai'n arwain at lawer mwy o eglurder yn y setliad.

14:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Another day and yet another stall in the devolution process of Wales. Why is getting a decent, workable, clear, fit-for-purpose settlement so difficult? It's hard to think of another nation anywhere that has been so poorly served by both its Governments: the current Labour Government has had the best part of five years to secure a just devolution framework for our country and it has failed. We have the only devolved Government to have failed in its objectives for greater devolution. We don't even know what the Government's objectives are. Contrast that with the last Welsh Government that, despite the best efforts of the then UK Labour Government, secured the first law-making Parliament for Wales in 600 years. That would never had happened were it not for Plaid Cymru being a part of that Government, and the First Minister knows that all too well. We have just a matter of weeks before the elections for the National Assembly. All parties—[Interruption.]

Diwrnod arall ac oediad arall eto fyth yn y broses ddatganoli yng Nghymru. Pam mae mor anodd cael setliad gweddus, ymarferol, clir, addas i'w ddiben? Mae'n anodd meddwl am genedl arall yn unrhyw le sydd wedi cael ei gwasanaethu mor wael gan ei dwy Lywodraeth: mae'r Llywodraeth Lafur bresennol wedi cael bron i bum mlynedd i sicrhau fframwaith datganoli teg i'n gwlad ac mae wedi methu. Hon yw'r unig Lywodraeth ddatganoledig sydd wedi methu yn ei hamcanion ar gyfer mwy o ddatganoli. Nid ydym hyd yn oed yn gwybod beth yw amcanion y Llywodraeth. Cymharwch hynny â Llywodraeth ddiwethaf Cymru a wnaeth, er gwaethaf ymdrechion gorau Llywodraeth Lafur y DU, sicrhau'r Senedd ddeddfu gyntaf i Gymru ers 600 mlynedd. Ni fyddai hynny erioed wedi digwydd oni bai bod Plaid Cymru yn rhan o'r Llywodraeth honno, ac mae'r Prif Weinidog yn gwybod hynny'n iawn. Dim ond mater o wythnosau sydd gennym cyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae pob plaid—[Torri ar draws.]

14:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Thank you.

Trefn. Diolch.

14:41 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. All parties will have the opportunity to present their plans for the next stage of Wales's devolution journey. With the other party leaders here I was present during the UK Government's St David's Day process, which culminated in the current Wales Bill. There was a race to the bottom—a lowest-common-denominator approach to Wales that suited the London-based parties, but was in direct conflict with Wales's needs. I must say that for a party apparently so opposed to needless red tape, the UK Government have produced unnecessary reams of red tape designed only to hold Wales back. So, it is with caution that I welcome the Secretary of State's commitment to withdraw the necessity tests from the Bill and to curtail the long list of powers to be reserved at Westminster. It is unacceptable that even the Tory-majority Welsh Affairs Committee supports a distinct legal jurisdiction for Wales, but the Secretary of State continues to veto such proposals.

Diolch. Bydd yr holl bleidiau'n cael cyfle i gyflwyno eu cynlluniau ar gyfer cam nesaf taith ddatganoli Cymru. Gydag arweinwyr y pleidiau eraill yma roeddwn yn bresennol yn ystod proses Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth y DU, a arweiniodd at y Bil Cymru presennol. Roedd yn ras i'r gwaelod—dull cyfenwadur-lleiaf i Gymru a oedd yn addas i bleidiau Llundain, ond a oedd yn gwrthdaro'n uniongyrchol ag anghenion Cymru. Mae'n rhaid imi ddweud, i blaid sydd yn ôl pob golwg yn gwrthwynebu biwrocratiaeth ddiangen o'r fath, bod Llywodraeth y DU wedi cynhyrchu toreth o fiwrocratiaeth ddiangen a gynlluniwyd yn benodol i ddal Cymru'n ôl. Felly, rwy'n betrus wrth groesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Gwladol i dynnu'r profion anghenraid o'r Bil ac i gwtogi ar y rhestr hir o bwerau i'w cadw yn San Steffan. Mae'n annerbyniol bod hyd yn oed y Pwyllgor Materion Cymreig â mwyafrif Torïaidd yn cefnogi awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru, ond mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn parhau i roi feto ar gynigion o'r fath.

Whilst I welcome the pause so that we have a chance at least to salvage something for Wales from this Bill, there are important consequences to be considered from this. So, I'd like to ask you this, First Minister: what exactly do you see happening to the Bill? The delay is needed, but it does mean that the next Assembly doesn't now get the powers to change its name and electoral system, for example. I'd also draw to your attention the issue of income tax and the fiscal framework. I reiterate my belief that it is reckless for parties to make premature tax commitments before a fiscal framework has been secured. This position is supported in a recent report by the Wales Governance Centre. Does the First Minister share our concerns? Plaid Cymru in Government after the election will convene urgent negotiations with the UK Government, based not on Whitehall plans, but on a draft Wales Bill mandated by people in Wales. So, I ask the current First Minister why he has not adopted this approach from the very outset.

Er fy mod yn croesawu'r oedi fel bod gennym gyfle o leiaf i achub rhywbeth i Gymru o'r Bil hwn, mae goblygiadau pwysig i'w hystyried o hyn. Felly, hoffwn ofyn hyn ichi, Brif Weinidog: beth yn union yr ydych yn ei weld yn digwydd i'r Bil? Mae angen yr oedi, ond mae'n golygu na chaiff y Cynulliad nesaf nawr y pwerau i newid ei enw a'i system etholiadol, er enghraifft. Hoffwn hefyd dynnu eich sylw at fater treth incwm a'r fframwaith cyllidol. Rwy'n ailadrodd fy nghred ei bod yn fyrbwyll i bleidiau wneud ymrwymiadau treth cynamserol cyn inni sicrhau fframwaith cyllidol. Cefnogir y safbwynt hwn mewn adroddiad diweddar gan Ganolfan Llywodraethu Cymru. A yw'r Prif Weinidog yn rhannu ein pryderon? Bydd Plaid Cymru mewn Llywodraeth ar ôl yr etholiad yn galw trafodaethau brys â Llywodraeth y DU, yn seiliedig nid ar gynlluniau Whitehall, ond ar Fil Cymru drafft wedi'i fandadu gan bobl Cymru. Felly, gofynnaf i'r Prif Weinidog presennol pam nad yw wedi mabwysiadu'r dull hwn o'r cychwyn cyntaf.

14:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, first of all, this was not an issue at the 2011 election—it's an issue that has developed since that time—so, no party in reality had a mandate in 2011, in that sense, to move forward with this. But, nevertheless, it's my judgment and I'm sure that it's yours as well that the people of Wales want to see devolution move forward and to get a settled constitutional framework for Wales. It is a shame that the leader of Plaid Cymru takes such a partisan approach in terms of what has been a cross-party—. In fairness to the leader of the opposition, we had a little jousting between us, but he acknowledged that his position is similar in terms of ensuring a fair and sustainable constitutional basis for Wales's future. But that's a matter for her party. She does misrepresent what happened at those discussions. There were others in those discussions in London. She gives the impression that somehow I sat there not saying anything. I spoke, I suspect, more than anybody else in that room. I've never been bound by any lowest common denominator. I've always taken the view, for example, that teachers' pay and conditions should be devolved now. That is an issue that the Secretary of State will look at. I've always taken the position that Minister of the Crown consents in devolved areas are inappropriate. I've always taken the position that the necessity test is wrong, and I've taken the position, having looked at the Bill, that there should be a distinct jurisdiction. The reality is that she's followed everything that we've said. Before we made these points, Plaid weren't making these points. But I welcome her being in the same position as we are now.

Wel, yn gyntaf oll, nid oedd hyn yn fater yn etholiad 2011—mae'n fater sydd wedi datblygu ers hynny—felly, nid oedd gan unrhyw blaid fandad mewn gwirionedd yn 2011, yn yr ystyr hwnnw, i fwrw ymlaen â hyn. Ond, serch hynny, fy marn i, a'ch barn chithau rwy'n siŵr, yw bod pobl Cymru am weld symud datganoli yn ei flaen a setlo fframwaith cyfansoddiadol ar gyfer Cymru. Mae'n drueni bod gan arweinydd Plaid Cymru ymagwedd mor bleidiol tuag at yr hyn sydd wedi bod yn drawsbleidiol—. Er tegwch i arweinydd yr wrthblaid, bu ychydig o ymryson rhyngom ni, ond roedd yn cydnabod bod ei safbwynt yn debyg o ran sicrhau sylfaen gyfansoddiadol deg a chynaliadwy ar gyfer dyfodol Cymru. Ond mater i'w phlaid hi yw hwnnw. Mae hi'n camliwio'r hyn a ddigwyddodd yn y trafodaethau hynny. Roedd pobl eraill yn y trafodaethau hynny yn Llundain. Mae hi'n rhoi'r argraff fy mod i rywsut wedi eistedd yno heb ddweud dim. Siaradais, rwy'n credu, fwy na neb arall yn yr ystafell honno. Nid wyf erioed wedi cael fy rhwymo gan unrhyw gyfenwadur lleiaf. Rwyf wedi bod o'r farn erioed, er enghraifft, y dylid datganoli cyflogau ac amodau athrawon nawr. Mae hwnnw'n fater y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn edrych arno. Rwyf wedi cymryd y safbwynt erioed bod cydsyniadau Gweinidog y Goron mewn meysydd sydd wedi'u datganoli yn amhriodol. Rwyf wedi cymryd y safbwynt erioed bod y prawf anghenraid yn anghywir, ac rwyf wedi cymryd y safbwynt, ar ôl edrych ar y Bil, y dylid bod awdurdodaeth ar wahân. Y gwirionedd yw ei bod hi wedi dilyn popeth yr ydym wedi'i ddweud. Cyn i ni wneud y pwyntiau hyn, nid oedd Plaid yn gwneud y pwyntiau hyn. Ond rwy'n croesawu'r ffaith bod ganddi'r un safbwynt â ni erbyn hyn.

In terms of the Bill itself, it's not the responsibility of the Welsh Government to produce a workable Bill. It was a pledge that was put forward by the current UK Government. They have not fulfilled that pledge yet. They need to explain how they would produce a Bill that would satisfy their own manifesto commitment, made at the last general election, and which will meet the concerns of all the parties in this Chamber, in fairness, and move Wales forward to clearer ground than is the case at the moment. One of the things that we've examined is how we can seek to improve the Bill, but the problem was that the Bill in itself was so flawed it was very difficult to improve it to a point where it became workable. That's why, of course, there needs to be a fresh start.

O ran y Bil ei hun, nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cynhyrchu Bil ymarferol. Addewid gan Lywodraeth bresennol y DU oedd hynny. Nid ydynt wedi cyflawni'r addewid hwnnw eto. Mae angen iddynt egluro sut y byddent yn cynhyrchu Bil a fyddai'n bodloni eu hymrwymiad maniffesto eu hunain, a wnaethpwyd yn yr etholiad cyffredinol diwethaf, ac a fydd yn ateb pryderon yr holl bleidiau yn y Siambr hon, a bod yn deg, ac yn symud Cymru ymlaen i dir cliriach nag yr ydym arno ar hyn o bryd. Un o'r pethau yr ydym wedi eu harchwilio yw sut y gallwn geisio gwella'r Bil, ond y broblem oedd bod y Bil ynddo'i hun mor wallus nes ei bod yn anodd iawn ei wella i bwynt lle y daeth yn ymarferol. Dyna pam, wrth gwrs, mae angen dechrau o'r newydd.

In terms of income tax pledges, I've got no problem at all in accepting that income tax powers will come to this Assembly. I have no problem at all in declaring that we would not seek to increase income taxes in Wales. I'll leave it to her to explain what her position is on tax. She will need to make that clear before the election, because those powers may well come to us during the course of the next Assembly. That is a matter for her. Nevertheless, what is important now is that the UK Government moves forward with a workable Wales Bill, works with the Welsh Government, works, indeed, with this Assembly, to make sure that we have a Bill that is understood, that is clear, that extends the competence of this Assembly, that preserves the good bits of the Bill that are there, and more than anything else addresses the issues of the jurisdiction in order to ensure that we have a Bill that will serve Wales well for many years to come. I don't believe that's served by the approach that the leader of Plaid Cymru's outlined this afternoon. I think it's best served by the approach that's been taken over the course of the last few months, where all parties have made their views very clear to the Secretary of State.

O ran addewidion treth incwm, nid oes gennyf ddim problem o gwbl derbyn y bydd pwerau treth incwm yn dod i'r Cynulliad hwn. Nid oes gennyf ddim problem o gwbl wrth ddatgan na fyddem yn ceisio cynyddu trethi incwm yng Nghymru. Mi adawaf iddi hi esbonio beth yw ei safbwynt ar dreth. Bydd angen iddi wneud hynny'n glir cyn yr etholiad, oherwydd mae'n ddigon posibl y daw'r pwerau hynny inni yn ystod y Cynulliad nesaf. Mater iddi hi yw hynny. Serch hynny, yr hyn sy'n bwysig nawr yw bod Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â Bil Cymru ymarferol, yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, yn gweithio, yn wir, gyda'r Cynulliad hwn, i wneud yn siŵr bod gennym Fil sy'n ddealladwy, sy'n glir, sy'n ymestyn cymhwysedd y Cynulliad hwn, sy'n cadw'r darnau da sydd yn y Bil, ac yn fwy na dim byd arall sy'n ymdrin â materion yr awdurdodaeth er mwyn sicrhau bod gennym Fil a fydd yn gwasanaethu Cymru'n dda am flynyddoedd lawer i ddod. Nid wyf yn credu y bydd y dulliau y mae arweinydd Plaid Cymru wedi'u hamlinellu y prynhawn yma yn cyflawni hynny. Rwy'n meddwl mai'r ffordd orau o gyflawni hynny yw drwy gadw at y dulliau a ddefnyddiwyd yn ystod y misoedd diwethaf, lle mae pob plaid wedi cyflwyno ei barn yn glir iawn i'r Ysgrifennydd Gwladol.

14:47

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't know, but perhaps there's still, even at this late time, an opportunity to suggest one addition to the draft Wales Bill, and that is that all future meetings about the devolution settlement should be held in public so we don't have to sit here listening to the 'He said', 'She said', 'I said more', 'She said less', and 'I was always in favour of teachers' pay and conditions, it's just Owen wouldn't let me do it' kind of conversations that have dominated this Chamber. But let me say at the outset that I welcome very much the decision by the Secretary of State for Wales to pause this process, and I do welcome very much indeed the Secretary of State's being as good as his word. He said that he would listen to representations made, and he has done that. I think that should be acknowledged by everybody here in this Chamber. I am particularly glad that he has recognised that the necessity test was not acceptable and could never have been acceptable. I think he has gone some way to acknowledging the ministerial consents issue. It should never have been the case that a Minister in Westminster had the right to veto Welsh legislation that was in a devolved area; never the case, and I am very glad that he has indicated his willingness to accept that point.

Nid wyf yn gwybod, ond efallai fod cyfle o hyd, hyd yn oed mor hwyr â hyn, i awgrymu un ychwanegiad at y Bil Cymru drafft, sef y dylai pob cyfarfod yn y dyfodol ynghylch y setliad datganoli gael ei gynnal yn gyhoeddus, fel nad oes rhaid inni eistedd yma'n gwrando ar sgyrsiau fel 'Dywedodd ef', 'Dywedodd hi', 'Dywedais i fwy', 'Dywedodd hi lai', ac 'roeddwn i wastad o blaid cyflog ac amodau athrawon, ond fyddai Owen ddim yn gadael imi wneud hynny' sydd wedi dominyddu'r Siambr hon. Ond gadewch imi ddweud ar y dechrau fy mod yn croesawu'n fawr y penderfyniad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i oedi'r broses hon, a fy mod yn croesawu'n fawr iawn wir y ffaith bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi bod cystal â'i air. Dywedodd y byddai'n gwrando ar sylwadau a wnaethpwyd, ac mae wedi gwneud hynny. Rwy'n meddwl y dylai bawb yma yn y Siambr hon gydnabod hynny. Rwy'n arbennig o falch ei fod wedi cydnabod nad oedd y prawf anghenraid yn dderbyniol ac na allai byth fod wedi bod yn dderbyniol. Rwy'n meddwl ei fod wedi mynd gryn ffordd i gydnabod y mater cydsyniadau gweinidogol. Ni ddylai un o Weinidogion San Steffan byth fod wedi cael hawl i roi feto ar ddeddfwriaeth i Gymru a oedd mewn maes datganoledig; byth, ac rwy'n falch iawn ei fod wedi nodi ei barodrwydd i dderbyn y pwynt hwnnw.

That does leave us with the issue of what do we do about ministerial consents if this Assembly legislates in a way that touches on non-devolved issues. Now, the First Minister will be aware of the very difficult and lengthy negotiations during the passage of the social care and wellbeing Bill, where that legislation sought to place duties on non-devolved functions, primarily the justice system and the police system, and that was quite complex. We got there in the end, but it was quite a complex process. So, I'd be grateful to hear from the First Minister how he feels that those issues—of when the National Assembly may legislate in a way that impacts on non-devolved issues—should be managed between both institutions.

Mae hynny'n ein gadael â mater beth yr ydym am ei wneud am gydsyniadau gweinidogol os yw'r Cynulliad hwn yn deddfu mewn ffordd sy'n cyffwrdd ar faterion sydd heb eu datganoli. Nawr, bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol o'r trafodaethau anodd a maith iawn yn ystod hynt y Bil gofal cymdeithasol a llesiant, lle'r oedd y ddeddfwriaeth honno'n ceisio pennu dyletswyddau ar swyddogaethau nad ydynt wedi'u datganoli, yn bennaf y system gyfiawnder a system yr heddlu, ac roedd hynny'n eithaf cymhleth. Cafodd ei ddatrys yn y diwedd, ond roedd yn broses eithaf cymhleth. Felly, byddwn yn ddiolchgar o glywed gan y Prif Weinidog sut y mae'n teimlo y dylid rheoli'r materion hynny—am bryd y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu mewn modd sy'n effeithio ar faterion heb eu datganoli—rhwng y ddau sefydliad.

Can I turn to the list of reservations? The Secretary of State has indicated that he is willing to review that, and I hope, when he says 'review', that means he will look to reduce the numbers. But I am concerned that we still will not get to a situation where we will be dealing with a shortlist of reservations. Would the First Minister agree with me that it really is incumbent on the Westminster Government to explain why areas are not to be devolved? There really does need to be that clarity in the process about why matters need to be reserved.

A gaf i droi at y rhestr o bwerau a gedwir? Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi ei fod yn barod i'w hadolygu, ac rwy'n gobeithio, pan ei fod yn dweud 'adolygu', bod hynny'n golygu y bydd yn edrych ar leihau'r nifer. Ond rwy'n bryderus y byddwn yn dal i fod mewn sefyllfa lle byddwn yn ymdrin â rhestr fer o bwerau a gedwir. A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno â mi mai dyletswydd Llywodraeth San Steffan ydyw mewn gwirionedd i egluro pam na chaiff meysydd eu datganoli? Mae wir angen yr eglurder hwnnw yn y broses ynghylch pam mae angen cadw pwerau mewn rhai meysydd.

Can I then turn to the issue of jurisdiction? I think the First Minister is right in his assessment. In time to come, we will need, as the Welsh statute book grows, to have our own separate jurisdiction, but I think we're on a journey to achieving that. Would he outline to me that we could move to a distinct but not entirely separate jurisdiction in the meantime, as the Welsh statute book grows? Will he be making the case for that in the working group that has been set up, or has been proposed to be set up, by the Secretary of State?

A gaf i wedyn droi at fater awdurdodaeth? Rwy'n meddwl bod y Prif Weinidog yn gywir yn ei asesiad. Mewn amser i ddod, bydd arnom angen, wrth i lyfr statud Cymru dyfu, ein hawdurdodaeth ar wahân ein hunain, ond rwy'n meddwl ein bod ar y llwybr i gyflawni hynny. A wnaiff ef amlinellu i mi y gallem symud at awdurdodaeth wahanol, ond nid yn gyfan gwbl ar wahân yn y cyfamser, wrth i lyfr statud Cymru dyfu? A fydd yn cyflwyno'r achos o blaid hynny yn y gweithgor y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i sefydlu, neu wedi cynnig ei sefydlu?

Finally, First Minister, the Secretary of State did seem to suggest yesterday that it was his own personal opinion that the issue of jurisdiction should be put to a referendum. Now, having made the very sensible decision not to require a referendum for tax-making powers, would you agree with me that the prospect of trying to win a referendum on the concept that Wales should have a separate jurisdiction is not one we should relish and we should just move forward on that basis, and that any idea of a referendum on this subject should be dismissed at once?

Yn olaf, Brif Weinidog, roedd yn ymddangos ddoe bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn awgrymu mai ei farn bersonol ef oedd y dylid cael refferendwm am y mater awdurdodaeth. Nawr, ar ôl gwneud y penderfyniad synhwyrol iawn i beidio â gofyn am refferendwm ar gyfer pwerau trethu, a fyddech chi'n cytuno â mi nad yw'r posibilrwydd o geisio ennill refferendwm ar y cysyniad y dylai Cymru gael awdurdodaeth ar wahân yn un y dylem ei groesawu ac y dylem symud ymlaen ar y sail honno, gan ddiystyru unrhyw syniad o refferendwm ar y pwnc hwn ar unwaith?

14:51

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have on my left hand side the Minister for local government and public services, who has great experience of running referendums. The comment that he made there was that he would be reluctant to run such a referendum, even for someone like himself, with all of that experience. It's crazy; why on earth would there need to be a referendum on jurisdiction? For example, the Northern Ireland jurisdiction was set up without a referendum. Why on earth would Wales, with a distinct jurisdiction, need a referendum on that? It strikes me as being absolutely without justification, if I can put it diplomatically.

Mae gen i ar fy ochr chwith y Gweinidog llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus, a'i brofiad helaeth o gynnal refferenda. Y sylw a wnaeth yn y fan yna oedd y byddai'n amharod i gynnal refferendwm o'r fath, hyd yn oed i rywun fel ef ei hun, â'r holl brofiad hwnnw. Mae'n wallgof; pam ar y ddaear y byddai angen refferendwm ar awdurdodaeth? Er enghraifft, cafodd awdurdodaeth Gogledd Iwerddon ei sefydlu heb refferendwm. Pam ar y ddaear y byddai ar Gymru, â'i hawdurdodaeth ar wahân, angen refferendwm ar hynny? Mae'n fy nharo i'n gwbl ddi-gyfiawnhad, os caf ei roi'n ddiplomatig.

The difficulty, of course, is that we had a draft Bill that was never going to get the support of parties across this Chamber. I made this point to the Secretary of State. I said, 'There is literally no point publishing this Bill; it's not going to get support'. One of the things that used to mystify me was that the Secretary of State, when giving evidence to committees, used to talk about the Bill as if it wasn't his Bill, expressing surprise, for example, that certain things were in the Bill, like hovercraft being reserved matters—I'm not going to die in a ditch on that one, as to whether they should be reserved or not—giving the impression that, somehow, he wasn't in control of the process. It's hugely important, with the resetting, that we should be confident that the Secretary of State is in control of the process.

Yr anhawster, wrth gwrs, yw nad oedd y Bil drafft a oedd gennym byth yn mynd i gael cefnogaeth y pleidiau ar draws y Siambr hon. Gwnes y pwynt hwn i'r Ysgrifennydd Gwladol. Dywedais, 'Yn llythrennol, does dim pwynt cyhoeddi'r Bil hwn; nid yw'n mynd i gael cefnogaeth'. Un o'r pethau a oedd yn arfer bod yn ddirgelwch llwyr imi oedd bod yr Ysgrifennydd Gwladol, wrth roi tystiolaeth i bwyllgorau, yn arfer siarad am y Bil fel pe nad ei Fil ef ydoedd, gan fynegi syndod, er enghraifft, bod rhai pethau yn y Bil, fel bod hofranlongau'n fater a gadwyd—nid wyf yn mynd i farw mewn ffos dros hynny, o ran a ddylent gael eu cadw ai peidio—gan roi'r argraff, rywsut, nad oedd ef yn rheoli'r broses. Mae'n hynod o bwysig, gyda'r ailosod, y dylem fod yn hyderus bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn rheoli'r broses.

The difficulty now, of course, is that all parties will enter into an election in May, and will be producing manifestos, without being absolutely sure of what the powers might be that will be given to this place over the course of the next five years. So, it's very difficult to present, to my mind, a comprehensive manifesto when you're trying to guess what powers you may or may not have in the future. We could've been far further down the line at this point in understanding what powers would and wouldn't come. We don't know what the final list of reservations will look like, and I suppose, in that sense, the devil is in the detail.

Yr anhawster nawr, wrth gwrs, yw y bydd pob plaid yn mynd i mewn i etholiad ym mis Mai, ac yn cynhyrchu maniffestos, heb fod yn hollol siŵr pa bwerau y gellid eu rhoi i'r lle hwn yn ystod y pum mlynedd nesaf. Felly, mae'n anodd iawn cyflwyno, yn fy marn i, maniffesto cynhwysfawr a chithau'n ceisio dyfalu pa bwerau a allai fod gennych neu beidio yn y dyfodol. Gallem fod wedi gwneud llawer mwy o gynnydd erbyn hyn i ddeall pa bwerau fyddai ac na fyddai'n dod. Nid ydym yn gwybod sut y bydd y rhestr derfynol o bwerau a gedwir yn edrych, ac mae'n debyg, yn hynny o beth, mai'r manylion fydd yn bwysig.

She made the point about Minister of the Crown consents for non-devolved areas. In Scotland, of course, the situation is different. In effect, in Scotland, Minister of the Crown consents are devolved, and there are specific reservations. That seems to work fairly well. Why Wales should be in any different a position to Scotland I cannot explain. So, what's important is that the approach to Minister of the Crown consents should be the same for Wales as it is in Scotland. There is no justification for it to be any different.

Gwnaeth hi'r pwynt ynglŷn â chydsyniadau Gweinidog y Goron mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli. Yn yr Alban, wrth gwrs, mae'r sefyllfa'n wahanol. I bob pwrpas, yn yr Alban, mae cydsyniadau Gweinidog y Goron wedi'u datganoli, ac mae yna bwerau penodol a gedwir. Mae'n ymddangos bod hynny'n gweithio'n eithaf da. Pam y dylai Cymru fod mewn sefyllfa wahanol o gwbl i'r Alban, nid wyf yn gallu esbonio. Felly, yr hyn sy'n bwysig yw y dylai'r ymagwedd at gydsyniadau Gweinidog y Goron fod yr un fath yng Nghymru ag yn yr Alban. Nid oes unrhyw gyfiawnhad iddo fod yn wahanol.

But, the great shame is that we've wasted, now, many months and we're back where we started. We could've been a long way further on down the line and we could've had a far better understanding of what the thinking is, in terms of a settlement for Wales that would stand the test of time, but, unfortunately, we're now no further forward. It is absolutely crucial that the UK Government, in the next week or two, makes absolutely clear what exactly it intends to do.

Ond, y siom fawr yw ein bod wedi gwastraffu, nawr, misoedd lawer ac rydym yn ôl lle y gwnaethom ddechrau. Gallem fod wedi gwneud llawer mwy o gynnydd a gallai fod gennym lawer gwell dealltwriaeth o'r meddylfryd, o ran setliad i Gymru a fyddai'n sefyll prawf amser, ond, yn anffodus, nid ydym nawr wedi gwneud dim mwy o gynnydd. Mae'n gwbl hanfodol bod Llywodraeth y DU, yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf, yn ei gwneud yn hollol glir beth yn union y maent yn bwriadu ei wneud.

On the issue of the jurisdiction and the working group, the working group is pointless if the door is shut to the issue of the jurisdiction. If, at the very start of the process, there is a precondition that the working group will not look in any way at the issue of the jurisdiction, then I don't see the point of the working group. So, it's absolutely crucial that that working group is able to examine the issue of the jurisdiction as part of its wider deliberations.

O ran mater yr awdurdodaeth a'r gweithgor, mae'r gweithgor yn ddibwynt os yw'r drws wedi'i gau i fater yr awdurdodaeth. Os, ar gychwyn cyntaf y broses, y ceir rhag-amod na fydd y gweithgor yn edrych mewn unrhyw ffordd ar fater yr awdurdodaeth, nid wyf yn gweld pwynt y gweithgor. Felly, mae'n gwbl hanfodol bod y gweithgor yn gallu archwilio mater yr awdurdodaeth yn rhan o'i drafodaethau ehangach.

14:54

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much welcome that last answer, First Minister—I think it will be welcomed on all, or certainly most, sides of the Chamber. I think, yesterday, we didn't see so much a movement of policy as the collapse of a policy. It's difficult to think of a Secretary of State in recent years who has had to deal with such a difficult political position of entirely his own making.

Rwy'n croesawu'r ateb olaf yn fawr iawn, Brif Weinidog—rwy'n meddwl y caiff ei groesawu ar bob ochr i'r Siambr, neu yn sicr y rhan fwyaf ohonynt. Rwy'n meddwl, ddoe, ein bod wedi gweld cwymp polisi, yn fwy na symudiad polisi. Mae'n anodd meddwl am Ysgrifennydd Gwladol yn y blynyddoedd diwethaf sydd wedi gorfod ymdrin â sefyllfa wleidyddol mor anodd, wedi'i chreu'n gyfan gwbl ganddo ef ei hun.

In terms of where we are today, he did say that he was going to move forward with reservations on the basis of principle, which is welcome, I think, to people on all sides of this Chamber. Has he indicated to you, First Minister, what those principles may be? Have you at any time been able to discuss with him the paper that the Welsh Government gave to the House of Lords Constitution Committee, which, I think, outlined a very good set of principles for the devolution of a set of powers to this place? At the same time, have you had any conversations with the Secretary of State about the commencement of any additional powers? He did, I am informed, reply to questions from journalists yesterday saying that he didn’t anticipate any of these new powers actually being commenced before the next Assembly elections in 2021, which would certainly mean that any new electoral arrangements that might be put in place wouldn’t be put in place for at least another decade. I would certainly regard that as entirely unacceptable.

O ran ble'r ydym ni heddiw, dywedodd ei fod yn mynd i fwrw ymlaen â chadw pwerau ar sail egwyddor, sydd i'w groesawu, rwy’n meddwl, i bobl ar bob ochr i’r Siambr hon. A yw wedi dweud wrthych, Brif Weinidog, pa egwyddorion allai’r rheini fod? A ydych ar unrhyw adeg wedi gallu trafod gydag ef y papur a roddodd Llywodraeth Cymru i Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, a oedd, rwy’n meddwl, yn amlinellu cyfres dda iawn o egwyddorion ar gyfer datganoli cyfres o bwerau i'r lle hwn? Ar yr un pryd, a ydych chi wedi cael unrhyw sgyrsiau â’r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch cychwyn unrhyw bwerau ychwanegol? Gwnaeth, yn ôl yr hyn a ddywedwyd wrthyf, ateb cwestiynau gan newyddiadurwyr ddoe a dweud nad oedd yn rhagweld y byddai unrhyw un o'r pwerau newydd hyn yn dod i rym mewn gwirionedd cyn etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2021, a fyddai'n sicr yn golygu na fyddai unrhyw drefniadau etholiadol newydd y gellid eu rhoi ar waith yn dod i rym am o leiaf ddegawd arall. Byddwn i yn bendant yn ystyried hynny fel bod yn gwbl annerbyniol.

At the same time as these issues, the issue of a referendum for a separate jurisdiction, or around the future of the jurisdiction, is one of the most ill-thought-out comments I’ve heard from any Secretary of State at any time. I presume that this is not something that he’s ever discussed with the Welsh Government. I also assume that you will be writing to the Secretary of State to offer the offices of the Welsh Government, in the wider sense, to work with the Secretary of State in a joint venture to produce a Bill that’s made in Wales for Wales, and not a Bill that’s made in Whitehall for Whitehall, which was perhaps a fundamental failure of the draft Bill.

Ar yr un pryd â’r materion hyn, mae mater refferendwm ar gyfer awdurdodaeth ar wahân, neu ynglŷn â dyfodol yr awdurdodaeth, yn un o'r sylwadau mwyaf difeddwl yr wyf wedi’u clywed gan unrhyw Ysgrifennydd Gwladol ar unrhyw adeg. Rwy’n cymryd yn ganiataol bod hyn yn rhywbeth nad yw erioed wedi ei drafod â Llywodraeth Cymru. Rwyf hefyd yn cymryd yn ganiataol y byddwch yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol i gynnig gwaith cyfryngu Llywodraeth Cymru, yn yr ystyr ehangach, i weithio gyda'r Ysgrifennydd Gwladol mewn menter ar y cyd i gynhyrchu Bil sydd wedi'i wneud yng Nghymru ar gyfer Cymru, ac nid Bil sydd wedi’i wneud yn Whitehall ar gyfer Whitehall, sef o bosibl un o fethiannau sylfaenol y Bil drafft.

At the same time, my final question is: have there been any discussions about UK-wide machinery that will enable a federal state to operate? I think one of the real shortcomings of the UK Government’s approach to devolution has been that it’s done it in such a piecemeal and half-hearted way. Too often, there’s been a sense of partisan favour, rather than a point of principle about what the UK Government’s trying to achieve. The lack of any UK-wide machinery to resolve disputes and to take decisions outside the UK Government is a fundamental failure of this policy, and it would be very useful, perhaps, if the Welsh Government were to bring this to the Secretary of State’s attention.

Ar yr un pryd, fy nghwestiwn olaf yw: a fu unrhyw drafodaethau ynghylch mecanweithiau i’r DU gyfan a fydd yn galluogi gwladwriaeth ffederal i weithredu? Rwy'n meddwl mai un o ddiffygion gwirioneddol ymagwedd Llywodraeth y DU at ddatganoli yw ei bod wedi ei wneud mewn ffordd mor dameidiog a difater. Yn rhy aml, mae ymdeimlad o ffafr bleidiol wedi bod, yn hytrach na phwynt o egwyddor am yr hyn mae Llywodraeth y DU yn ceisio ei gyflawni. Mae diffyg unrhyw fecanwaith i’r DU gyfan i ddatrys anghydfodau ac i wneud penderfyniadau y tu allan i Lywodraeth y DU yn un o fethiannau sylfaenol y polisi hwn, a byddai'n ddefnyddiol iawn, efallai, pe byddai Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw’r Ysgrifennydd Gwladol at hyn.

14:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I thank my colleague, the Member for Blaenau Gwent, for his question. We don't know what the principles will be, because we've had no communication from the Secretary of State on this point. We know what we know—that journalists were told. I look forward to discussing these issues with him, as I have done many times in the past. There's been no indication as to when these powers might commence, which I regret. It was never ideal that these powers, originally, would have commenced in the middle of the next Assembly, but better that than not to commence at all. I look forward to the day when this place is called a parliament, and we could start calling ourselves a parliament after May if we wanted to, informally, in the same way as the Welsh Government is the Welsh Government, but in law it's 'the Welsh Assembly Government'. We dropped that term back in 2011. Nevertheless, it's important, of course, that the situation is now made clear as to what the future direction is.

Rwy'n diolch i fy nghydweithiwr, Aelod Blaenau Gwent, am ei gwestiwn. Nid ydym yn gwybod beth fydd yr egwyddorion, oherwydd nid ydym wedi cael unrhyw gyfathrebiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â'r pwynt hwn. Rydym yn gwybod beth yr ydym yn ei wybod—bod newyddiadurwyr wedi cael gwybod. Rwy'n edrych ymlaen at drafod y materion hyn gydag ef, fel yr wyf wedi'i wneud droeon yn y gorffennol. Ni fu unrhyw arwydd ynghylch pryd y gallai'r pwerau hyn gychwyn, sy'n rhywbeth yr wyf yn ei resynu. Nid oedd erioed yn ddelfrydol y byddai'r pwerau hyn, yn wreiddiol, wedi cychwyn yng nghanol y Cynulliad nesaf, ond mae hynny'n well na pheidio â chychwyn o gwbl. Rwy'n edrych ymlaen at y diwrnod pan elwir y lle hwn yn senedd, a gallem ddechrau galw ein hunain yn senedd ar ôl mis Mai pe hoffem wneud hynny, yn anffurfiol, yn yr un modd ag y mae Llywodraeth Cymru yn Llywodraeth Cymru, ond yn ôl y gyfraith, 'Llywodraeth Cynulliad Cymru' ydyw. Cafodd y term hwnnw ei ollwng gennym ni yn ôl yn 2011. Serch hynny, mae'n bwysig, wrth gwrs, bod y sefyllfa nawr yn cael ei gwneud yn glir o ran y cyfeiriad yn y dyfodol.

Of course we'll work with the UK Government in order to produce legislation that is, as far as possible, a joint venture. I think that's by far the most sensible approach, rather than being presented with something, a fait accompli, that clearly isn't going to work. I think that is a perfectly sensible way forward. He also asked the question about UK machinery for the creation of a federal state. I think he knows the answer: there isn't any at the moment. Certainly, that is not on the agenda of the current UK Government, but that is inevitable in time, that we move towards a situation that, if not federal, is certainly different to the current situation we have, where, in effect, all sovereignty is held at Westminster, and Westminster decides how much of its sovereignty it wishes to give on trust, if I can put it that way, to institutions around the UK. That's going to have to change in the future. There are other countries, like Canada, that have a very viable system of pooled sovereignty, and they are both prosperous and stable.

Wrth gwrs byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gynhyrchu deddfwriaeth sydd, cyn belled â phosibl, yn fenter ar y cyd. Rwy'n meddwl mai dyna'r dull mwyaf synhwyrol o bell ffordd, yn hytrach na'u bod yn cyflwyno rhywbeth inni, fait accompli, a'i bod yn amlwg nad yw'n mynd i weithio. Credaf fod hynny'n ffordd gwbl synhwyrol ymlaen. Gofynnodd hefyd y cwestiwn am fecanwaith y DU ar gyfer creu gwladwriaeth ffederal. Rwy'n meddwl ei fod yn gwybod yr ateb: nid oes un ar hyn o bryd. Yn sicr, nid yw hynny ar agenda Llywodraeth bresennol y DU, ond mae hynny'n anochel mewn amser, ein bod yn symud tuag at sefyllfa, os nad yn ffederal, yn sicr sy'n wahanol i'r sefyllfa bresennol sydd gennym, lle, i bob pwrpas, mae'r holl sofraniaeth wedi'i chynnal yn San Steffan, a San Steffan sy'n penderfynu faint o'i sofraniaeth y mae'n dymuno ei rhoi ar ymddiriedaeth, os caf ei roi felly, i sefydliadau ledled y DU. Bydd yn rhaid i hynny newid yn y dyfodol. Mae gan wledydd eraill, fel Canada, system ymarferol iawn o sofraniaeth gyfun, ac maent yn ffyniannus ac yn sefydlog.

14:59 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

One of the hallmarks of a vibrant economy is robust competition, and nowhere is that more important than the issue of energy generation and supply. I just wondered if, amongst the pages and pages of exclusions that are in the draft Wales Bill that's now being paused, we could tackle the issue of the exclusion from our powers of energy distribution, transmission and supply, as well as the regulation of energy efficiency, as this is really holding back competition and the development of local energy markets.

Un o nodweddion economi fywiog yw cystadleuaeth gadarn, ac nid yw hynny'n bwysicach yn unman nag ym mater cynhyrchu a chyflenwi ynni. Roeddwn yn meddwl tybed, ymhlith y tudalennau ar dudalennau o eithriadau sydd yn y Bil Cymru drafft sydd nawr yn cael ei oedi, a allem ymdrin â mater eithrio dosbarthiad, trosglwyddo a chyflenwi ynni o'n pwerau, yn ogystal â rheoleiddio effeithlonrwydd ynni, gan fod hyn yn wir yn rhwystr i gystadleuaeth a datblygiad marchnadoedd ynni lleol.

15:00

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It's an important point that the Member raises. We welcome, of course, the further devolution on the face of the current Bill—unconvinced of the limit of 350 MW, but nevertheless it's a step forward from where we are now. The difficulty is that, if it is the case that, unlike Scotland, executive powers over transmission aren't devolved then, of course, the UK Government could suddenly prevent a project going ahead. We as a Government could give permission for a project to move forward, and the UK Government could turn around and say, 'Well we're not going to give permission for the National Grid or another transmitter to transmit the electricity'. It doesn't make sense. Far better, to my mind, to be where Scotland is and have control both over the permitting and also over the transmission.

Mae'n bwynt pwysig y mae'r Aelod yn ei godi. Rydym yn croesawu, wrth gwrs, y datganoli pellach ar wyneb y Bil presennol—nid ydym wedi ein hargyhoeddi o'r cyfyngiad 350 MW, ond serch hynny mae'n gam ymlaen o lle'r ydym ni ar hyn o bryd. Yr anhawster yw, os yw'n wir, yn wahanol i'r Alban, nad yw pwerau gweithredol dros drosglwyddo yn cael eu datganoli, wrth gwrs, y gallai Llywodraeth y DU, yn sydyn, atal prosiect rhag mynd yn ei flaen. Gallem ni fel Llywodraeth roi caniatâd i brosiect i fwrw ymlaen, a gallai Llywodraeth y DU droi a dweud, 'Wel nid ydym yn mynd i roi caniatâd i'r Grid Cenedlaethol neu drosglwyddydd arall i drosglwyddo'r trydan'. Nid yw'n gwneud synnwyr. Mae'n llawer gwell, yn fy marn i, bod yn sefyllfa'r Alban a chael rheolaeth dros y caniatáu a hefyd dros y trosglwyddo.

15:00

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch, Brif Weinidog.

15:00

# 4. Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016

# 4. The Agricultural Advisory Panel for Wales (Establishment) Order 2016

Senedd.tv
Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 4, which is the Agricultural Advisory Panel for Wales (Establishment) Order 2016, and I call on the Deputy Minister for Farming and Food to move the motion—Rebecca Evans.

Symudwn yn awr at eitem 4, sef Gorchymyn Panel Cynghori Amaethyddol Cymru (Sefydlu) 2016, a galwaf ar y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i gynnig y cynnig—Rebecca Evans.

Cynnig NDM5980 Jane Hutt

Motion NDM5980 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Orchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2016.

Approves that the draft The Agricultural Advisory Panel for Wales (Establishment) Order 2016 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 2 February 2016.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:01

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I laid the Agricultural Advisory Panel for Wales (Establishment) Order 2016 on 2 February, and I'm presenting the Order today for debate in the National Assembly.

Diolch, Lywydd. Cyflwynais y Gorchymyn Panel Cynghori Amaethyddol Cymru (Sefydlu) 2016 ar 2 Chwefror, ac rwy'n cyflwyno'r Gorchymyn heddiw ar gyfer dadl yn y Cynulliad Cenedlaethol.

The Order will be made under the Agricultural Sector (Wales) Act 2014 and will confer on the panel the function of reviewing the minimum agricultural wage rates in Wales, previously exercised by the now abolished Agricultural Wages Board for England and Wales.

Gwneir y Gorchymyn o dan Ddeddf y Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, a bydd yn rhoi i'r panel y swyddogaeth o adolygu'r isafswm cyfraddau cyflog amaethyddol yng Nghymru, a arferwyd yn flaenorol gan Fwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr, sydd nawr wedi'i ddiddymu.

The panel will ensure regular reviews of not only agricultural wages, but also the terms and conditions of employment for the approval of Welsh Ministers. The panel will take into consideration the unique nature of agricultural work, including the unconventional working hours and increased risk of workplace injuries.

Bydd y panel yn sicrhau adolygiadau rheolaidd, nid yn unig o gyflogau amaethyddol, ond hefyd o delerau ac amodau cyflogaeth i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Bydd y panel yn ystyried natur unigryw gwaith amaethyddol, gan gynnwys yr oriau gwaith anghonfensiynol a'r risg uwch o anafiadau yn y gweithle.

Unlike its predecessor, the panel will not be limited to drafting agricultural wages orders, but will be tasked with the additional remits of promoting careers in agriculture and encouraging skills development and training within the industry. Maintaining a skilled, motivated workforce is a priority for this Government, and a vital component of ensuring a prosperous future for Welsh agriculture.

Yn wahanol i'w ragflaenydd, ni fydd y panel yn gyfyngedig i ddrafftio gorchmynion cyflogau amaethyddol, ond bydd yn cael y cylchoedd gwaith ychwanegol o hyrwyddo gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth ac annog datblygiad a hyfforddiant sgiliau o fewn y diwydiant. Mae cynnal gweithlu medrus, llawn cymhelliant yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, ac yn rhan hanfodol o sicrhau dyfodol llewyrchus i amaethyddiaeth yng Nghymru.

The panel membership will include balanced representation of both agricultural employers and employees to ensure that decisions the panel makes reflect the needs of the industry. It will also include an independent expert in education and an independent expert in agriculture to provide advice and direction concerning the panel's broader remit. The panel will be headed by an independent chair who possesses the necessary skills, experience and knowledge to provide innovative leadership to this historic body.

Bydd aelodau'r panel yn cynnwys cynrychiolaeth gytbwys o gyflogwyr a chyflogeion amaethyddol i sicrhau bod penderfyniadau'r panel yn adlewyrchu anghenion y diwydiant. Bydd hefyd yn cynnwys arbenigwr addysg annibynnol ac arbenigwr amaethyddiaeth annibynnol i roi cyngor a chyfarwyddyd ynghylch cylch gwaith ehangach y panel. Caiff y panel ei arwain gan gadeirydd annibynnol sy'n meddu ar y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth ofynnol i ddarparu arweinyddiaeth arloesol i'r corff hanesyddol hwn.

The panel will be assisted in its work by a permanent sub-committee on skills development and training, which will be staffed by members of the core panel, joined by representatives of Lantra and Wales YFC. The panel will also have the ability to consult external experts to ensure its recommendations are evidence-based and address existing as well as potential future challenges.

Bydd y panel yn cael ei gynorthwyo yn ei waith gan is-bwyllgor parhaol ar ddatblygiad a hyfforddiant sgiliau, wedi'i staffio gan aelodau'r panel craidd, ynghyd â chynrychiolwyr o Lantra a CFfI Cymru. Bydd y panel hefyd yn gallu ymgynghori ag arbenigwyr allanol i sicrhau bod ei argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn rhoi sylw i heriau presennol yn ogystal â heriau posibl yn y dyfodol.

Far from operating in a vacuum, the panel will have the scope to engage with other advisory bodies, the farming unions, industry experts and other interested parties to develop joined-up policies for a common vision for agriculture in Wales, building upon this Government's commitment to tackling poverty through sustainable growth.

Ni fydd y panel yn gweithredu mewn gwagle; bydd yn gallu ymgysylltu â chyrff cynghori eraill, yr undebau ffermio, arbenigwyr ar y diwydiant a phartïon eraill â budd i ddatblygu polisïau cydgysylltiedig i sicrhau gweledigaeth gyffredin ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru, gan adeiladu ar ymrwymiad y Llywodraeth hon i drechu tlodi drwy gyfrwng twf cynaliadwy.

Proactive engagement will allow the panel to take its place as an industry-leading body within Welsh agriculture. I am pleased to announce that invitation letters have been issued today to those selected to serve on the agricultural advisory panel for Wales.

Bydd ymgysylltiad rhagweithiol yn caniatáu i'r panel gymryd ei le fel corff sy'n arwain y diwydiant o fewn amaethyddiaeth Cymru. Rwy'n falch o gyhoeddi bod llythyrau gwahoddiad wedi eu hanfon heddiw i'r bobl hynny a ddewiswyd i wasanaethu ar banel cynghori amaethyddol Cymru.

15:03 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A gaf innau hefyd groesawu'r ffaith bod y panel yma yn cael ei greu, ac yn enwedig y cylch gorchwyl ehangach fydd gan y panel o'i gymharu â'r corff blaenorol, lle bydd yna fwy o gyfle nawr i hyrwyddo datblygu gyrfaol o fewn y sector, a'r cyfleoedd ehangach sydd yna i bobl fod yn rhan o'r sector? Ond mi fyddwch chi, Weinidog, yn ymwybodol iawn ein bod wedi bod yn siomedig iawn gydag arafwch y Llywodraeth i gyrraedd y pwynt yma. Yn amlwg, mi gyflwynwyd Bil brys ac mi gytunwyd bod angen deddfwriaeth frys i fynd i'r afael â rhai o'r problemau a oedd yn codi yn sgîl penderfyniad Llywodraeth San Steffan, a beth bynnag rydych chi'n feddwl o'r broses, rwy'n siŵr y byddem ni i gyd yn cytuno bod tair blynedd, fwy neu lai, ers hynny tan nawr yn lawer gormod o amser. Ac felly nid wyf ond eisiau cofrestru ein siom ni ei bod wedi cymryd cyhyd, ond y byddwn ni, wrth gwrs, yn cefnogi y Gorchymyn yma oherwydd mae'n gam positif, er yn un a gymerodd lawer gormod o amser i'w gymryd.

May I also welcome the fact that this panel is to be established, and particularly the wider remit that the panel will have in comparison with its predecessor body, where there will now be greater opportunity to promote career development within the sector, and the wider opportunities that exist for people to get involved in the sector? But, Minister, you will be very aware that we were very disappointed with the pace of Government in getting to this point. Clearly, an emergency Bill was introduced and it was agreed that emergency legislation was required to deal with some of the problems arising from decisions taken by the Westminster Government, and, whatever you think of the process, I'm sure we would all agree that virtually three years between then and now is far too long. And so I just wanted to register our disappointment that it has taken so long, but, of course, we will be supporting this Order, because it is a positive step, although one that took far too long to achieve.

15:04 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I very much welcome the announcement and the statement today, because this is a historic step in Welsh agriculture. I must just comment on the comment that was last made. It's all very well for Plaid Cymru to complain about the time and delay. When Plaid held the agriculture ministerial responsibility in this Assembly, they agreed to the abolition of the agricultural wages board—[Interruption.] They agreed to it. So, it has come forward a lot quicker than would have happened otherwise. Can I say that this is also an example of Welsh Labour standing up for our rural communities and rural agricultural workers, and that the new panel—[Interruption.] That the new panel—[Interruption.] I have the letter that you wrote to Unite confirming abolition of the AWB. If you want to see it I'll show it to you.

Rwy'n croesawu'r cyhoeddiad a'r datganiad heddiw yn fawr iawn, oherwydd mae hwn yn gam hanesyddol i amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'n rhaid imi wneud sylw am y sylw olaf a wnaethpwyd. Mae'n ddigon hawdd i Blaid Cymru gwyno am yr amser a'r oedi. Pan oedd gan Plaid y gweinidog â chyfrifoldeb am amaethyddiaeth yn y Cynulliad hwn, gwnaethant gytuno i ddiddymu'r bwrdd cyflogau amaethyddol—[Torri ar draws.] Gwnaethant gytuno â hynny. Felly, mae wedi dod yn ei flaen yn llawer cyflymach nag y byddai wedi fel arall. A gaf i ddweud bod hyn hefyd yn enghraifft o Lafur Cymru yn sefyll dros ein cymunedau gwledig a'n gweithwyr amaethyddol gwledig, a bod y panel newydd—[Torri ar draws.] Bod y panel newydd—[Torri ar draws.] Mae gen i'r llythyr y gwnaethoch ei ysgrifennu i Unite i gadarnhau diddymu'r bwrdd cyflogau amaethyddol. Os hoffech chi ei weld, gwnaf ei ddangos i chi.

15:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I can't have conversations between two Members—

Ni allaf gael sgyrsiau rhwng dau Aelod—

15:05 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I also say that—

A gaf i hefyd ddweud—

15:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

[Continues.]—if you want to speak stand up.

[Yn parhau.]—os ydych am siarad, sefwch ar eich traed.

15:05 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—another implication of this piece of legislation is that the 'Farmers Guardian' survey recently carried out shows how different things can be in Wales to England, where 70 per cent of those surveyed now regret the abolition, 30 per cent of those in agriculture are thinking of leaving the industry, and one third have had a reduction in wages or no increase in wages since the abolition of the agricultural wages board? So, can I actually say this is a significant, historic step forward, aside from the constitutional implications of that, and is really a sign that it's only really Welsh Labour here that is standing up for Welsh agricultural workers? We recall very much the stand that was taken by the Welsh Conservatives, who all through have supported abolition of this important legislation, and also the Lib Dems, who sat on the fence when it came forward. Thank you.

[Yn parhau.]—mai un arall o oblygiadau'r darn hwn o ddeddfwriaeth yw bod arolwg y 'Farmers Guardian' a gynhaliwyd yn ddiweddar yn dangos pa mor wahanol y gall pethau fod yng Nghymru a Lloegr, lle mae 70 y cant o'r rhai a holwyd nawr yn gresynu am y diddymu, 30 y cant o bobl mewn amaethyddiaeth yn ystyried gadael y diwydiant, a thraean wedi cael gostyngiad cyflog neu ddim cynnydd cyflog ers diddymu'r bwrdd cyflogau amaethyddol? Felly, a gaf i ddweud, mewn gwirionedd, bod hwn yn gam sylweddol, hanesyddol ymlaen, ar wahân i oblygiadau cyfansoddiadol hynny, a'i fod mewn gwirionedd yn arwydd mai dim ond Llafur Cymru yn y fan yma sydd wir yn sefyll dros weithwyr amaethyddol Cymru? Rydym yn cofio'n iawn beth oedd safbwynt Ceidwadwyr Cymru, sydd wedi cefnogi diddymu'r ddeddfwriaeth bwysig hon drwy gydol y broses, a hefyd y Democratiaid Rhyddfrydol, a oedd yn eistedd ar y gamfa pan gafodd ei gyflwyno. Diolch.

15:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Deputy Minister for Farming and Food to reply to the debate.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i ymateb i'r ddadl.

15:06 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

I thank the speakers in the debate and wholeheartedly welcome those comments that this Welsh Government is a government for working people, regardless of which sector or where you might work in Wales.

Rwy'n diolch i'r siaradwyr yn y ddadl ac yn croesawu'n galonnog y sylwadau hynny bod Llywodraeth Cymru yn llywodraeth ar gyfer pobl sy'n gweithio, ni waeth ym mha sector nac ym mhle y gallech fod yn gweithio yng Nghymru.

The implementation of the Act does remain a priority for this Government, and I believe that having a well motivated, well trained and appropriately remunerated workforce is vitally important to the success of Welsh agriculture. The panel, along with the secondary legislation made under the Act, will be an essential ingredient for that success. Following today's debate and subject to approval—and I do welcome the support that Members have indicated today—the agricultural advisory panel for Wales will come into force on 1 April of this year. Thank you.

Mae gweithredu'r Ddeddf yn dal i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, ac rwy'n credu bod gweithlu llawn cymhelliant, sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac yn cael ei dalu'n briodol yn hollbwysig i lwyddiant amaethyddiaeth Cymru. Bydd y panel, ynghyd â'r is-ddeddfwriaeth a wnaethpwyd o dan y Ddeddf, yn elfen hanfodol ar gyfer y llwyddiant hwnnw. Ar ôl dadl heddiw ac yn amodol ar gymeradwyaeth—ac rwy'n croesawu'r gefnogaeth y mae'r Aelodau wedi'i dangos heddiw—bydd panel cynghori amaethyddol Cymru yn dod i rym ar 1 Ebrill eleni. Diolch.

15:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is passed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae'r cynnig wedi ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:07

## 5. Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2016

## 5. The Developments of National Significance (Specified Criteria and Prescribed Secondary Consents) (Wales) (Amendment) Regulations 2016

Y Senedd.tv
Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move on to Item 5, which is the Developments of National Significance (Specified Criteria and Prescribed Secondary Consents) (Wales) (Amendment) Regulations 2016, and I call on the Minister for Natural Resources to move the motion—Carl Sargeant.

Rydym nawr yn symud ymlaen i Eitem 5, sef Rheoliadau Datblygiadau o Bwys Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2016, a galwaf ar y Gweinidog Adnoddau Naturiol i gynnig y cynnig—Carl Sargeant.

Cynnig NDM5979 Jane Hutt

Motion NDM5979 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2016.

Approves that the draft The Developments of National Significance (Specified Criteria and Prescribed Secondary Consents) (Wales) (Amendment) Regulations 2016 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 2 February 2016.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:07

### Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Presiding Officer. These regulations ensure that infrastructure projects that are most significant to Wales due to their complexity and impact are included in the DNS process. Onshore wind energy projects above 50 MW, which this amendment captures, are vital for delivering further reductions in carbon emissions and sustainable development objectives, thus boosting the Welsh economy. I formally move.

Diolch, Lywydd. Mae'r rheoliadau hyn yn sicrhau bod y prosiectau seilwaith sydd fwyaf arwyddocaol i Gymru oherwydd eu cymhlethdod a'u heffaith yn cael eu cynnwys yn y broses DNS. Mae prosiectau ynni gwynt ar y tir dros 50 MW, sydd wedi'u cynnwys yn y gwelliant hwn, yn hanfodol i gyflawni gostyngiadau pellach mewn allyriadau carbon ac amcanion datblygu cynaliadwy, gan roi hwb i economi Cymru. Rwy'n cynnig yn ffurfiol.

15:08

### Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Madam Presiding Officer, this is a terrible regulation that has been brought forward to us today, and I hope it will be rejected. Welsh Conservative colleagues will certainly be voting against it, and we have already seen the Welsh Government grab power away from local authorities—of under 50 MW—for consenting on onshore windfarms.

Madam Lywydd, mae hwn yn rheoliad ofnadwy sydd wedi cael ei gyflwyno ger ein bron heddiw, ac rwy'n gobeithio y caiff ei wrthod. Yn sicr, bydd fy nghyd-Aelodau yng Ngheidwadwyr Cymru yn pleidleisio yn ei erbyn, ac rydym eisoes wedi gweld Llywodraeth Cymru yn cipio pŵer oddi ar awdurdodau lleol—o dan 50 MW—i roi caniatâd i ffermydd gwynt ar y tir.

We have a UK Government that believes in true localism and has laid regulations this year, due to come into force today, to move the consenting process for onshore windfarm energy of over 50 MW to process them by local authorities in England and Wales—and they will decide the outcome of all onshore windfarm applications. This, of course, is welcome.

Mae gennym Lywodraeth y DU sy'n credu mewn lleoliaeth wirioneddol ac sydd wedi gosod rheoliadau eleni, a fydd yn dod i rym heddiw, i symud y broses gydsynio ar gyfer ynni ffermydd gwynt ar y tir dros 50 MW i gael eu prosesu gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr—a hwy fydd yn penderfynu ar ganlyniad pob cais am fferm wynt ar y tir. Mae hyn, wrth gwrs, i'w groesawu.

But what this regulation does, if passed today, is grab that power away from local authorities to Welsh Ministers. We're now in a position where small and large windfarm applications will be decided by Ministers here in Cardiff, in complete contrast to the English local authorities and residents, who will not only have consenting powers for small wind applications but on all large-scale wind applications.

Ond yr hyn y mae'r rheoliad hwn yn ei wneud, os caiff ei basio heddiw, yw cipio'r pŵer hwnnw oddi ar awdurdodau lleol a'i roi i Weinidogion Cymru. Rydym nawr mewn sefyllfa lle bydd ceisiadau am ffermydd gwynt bach a mawr yn cael eu penderfynu gan Weinidogion yma yng Nghaerdydd, mewn gwrthgyferbyniad llwyr ag awdurdodau lleol a thrigolion Lloegr, a fydd nid yn unig yn cael pwerau cydsynio ar gyfer ceisiadau gwynt bach, ond ar bob cais gwynt ar raddfa fawr.

I put it to the Minister that this Welsh Government is the most centralising Government in the entire western civilisation. [Interruption.] It seems that Welsh Labour will go to any lengths possible—anything possible, anything that they see fit—to trample over the views of local communities and local democracy. Localism has been banished from Welsh Labour. Just a few weeks after the fourth Assembly started in 2011, thousands of residents were outside the Senedd to demonstrate to the Welsh Government then that they had totally got their approach wrong on consenting on onshore windfarms, and we are here today just weeks before the end of this Assembly and what we have seen is the Welsh Minister here totally ignoring the views of thousands of mid Wales residents. So, I hope today that Members will reject this appalling piece of regulation from the most centralising Government in Western civilisation.

Dywedaf wrth y Gweinidog mai'r Llywodraeth Cymru hon yw'r Llywodraeth fwyaf canolog yn holl wareiddiad y gorllewin. [Torri ar draws.] Mae'n ymddangos y bydd Llafur Cymru yn gwneud unrhyw beth sy'n bosibl—unrhyw beth sy'n bosibl, unrhyw beth y maent yn ei weld yn briodol—i sathru ar safbwyntiau cymunedau lleol a democratiaeth leol. Mae Llafur Cymru wedi alltudio lleoliaeth. Dim ond ychydig wythnosau ar ôl dechrau'r pedwerydd Cynulliad yn 2011, roedd miloedd o drigolion y tu allan i'r Senedd yn protestio wrth Lywodraeth Cymru bryd hynny bod eu dulliau ar gyfer caniatâd i ffermydd gwynt ar y tir yn gwbl anghywir, ac rydym ni yma heddiw, wythnosau'n unig cyn diwedd y Cynulliad hwn a'r hyn yr ydym wedi ei weld yw Gweinidog Cymru yn y fan yma yn llwyr anwybyddu barn miloedd o drigolion y canolbarth. Felly, rwy'n gobeithio heddiw y gwnaiff yr Aelodau wrthod y darn echrydus hwn o reoleiddio gan y Llywodraeth fwyaf canolog yng ngwareiddiad y Gorllewin.

15:10

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Follow that, yes. [Laughter.] A degree of consistency would be nice for a change because, clearly, where does localism come into the fracking equation, one wonders? It's localism when it suits you, and not when it doesn't. So, let's reflect on that maybe before we get up on our feet and start banging the table.

Dilynwch hynny, ie. [Chwerthin.] Byddai rhywfaint o gysondeb yn braf am newid oherwydd, yn amlwg, sut mae lleoliaeth yn dod i mewn i'r hafaliad ffracio, tybed? Lleoliaeth pan fo'n gyfleus i chi, ac nid pan nad yw. Felly, dewch inni fyfyrio ar hynny efallai cyn inni godi ar ein traed a dechrau curo'r bwrdd.

Weinidog, yr unig bwynt byddem ni'n awyddus i'w wneud yw mai hwn yn ddatblygiad arwyddocaol iawn, un rwyf yn ei gefnogi, wrth gwrs, ond mi fyddwn ni nawr yng Nghymru, am y tro cyntaf, â phwerau cyflawn, heb unrhyw drothwy neu lefel uchafswm o fegawatiau dros elfen, beth bynnag, o bolisi ynni, sef ynni gwynt ar y tir. Yr unig gwestiwn sydd gyda fi i ofyn i chi yw: a fyddech chi felly yn cytuno â mi, os ydy'r egwyddor yma yn dderbyniol ar gyfer ynni gwynt ar y tir, onid yw'n dderbyniol ar gyfer pob math o ynni?

Minister, the only point that I'd be eager to make is that this is a very significant development, and one that I support, of course, but we in Wales for the first time now will have full powers without any threshold or maximum megawatt level for an element of energy policy, namely onshore wind energy. The only question I have for you is: would you therefore agree with me that, if this principle is acceptable for onshore wind energy, isn't it also acceptable for all sorts of energy?

15:11

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

15:11 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the opportunity to respond to the Members. I'll take Llyr Gruffydd first. I'm grateful to him for welcoming this decision process. Yes, it is a happy development, on a nationally significant day as well. The fact is that the regulations are coming to point today, but obviously the Members opposite are concerned about the attempts by the UK Government to defer their responsibility. The fact is that we will be very keen to engage with all communities, as we do with all applications, but there will be a much more streamlining approach. I listened to the Member's contribution in terms of other aspects of energy policy, and I would welcome the opportunity for further devolution of powers to the Welsh Government and to this Welsh Assembly to have more detailed discussions on.

Diolch am y cyfle i ymateb i'r Aelodau. Mi atebaf Llyr Gruffydd yn gyntaf. Rwy'n ddiolchgar iddo am groesawu'r broses benderfynu hon. Ydy, mae'n ddatblygiad hapus, ar ddiwrnod o arwyddocad cenedlaethol hefyd. Y ffaith yw bod y rheoliadau'n cyrraedd pwynt heddiw, ond yn amlwg mae'r Aelodau gyferbyn yn pryderu am ymdrechion Llywodraeth y DU i ildio eu cyfrifoldeb. Y ffaith yw y byddwn yn awyddus iawn i ymgysylltu â phob cymuned, fel y gwnawn gyda phob cais, ond bydd yr ymagwedd wedi'i symleiddio'n fawr. Gwrandewais ar gyfraniad yr Aelod o ran agweddau eraill ar bolisi ynni, a byddwn yn croesawu'r cyfle i ddatganoli rhagor o bwerau i Lywodraeth Cymru ac i'r Cynulliad hwn i gael trafodaethau manylach amdanynt.

Can I address Russell George? The Member is consistent in his approach to renewable energy. Clearly, his party opposite are the champions of fracking as opposed to the champions of renewable energy. The fact is that I'd love Russell George to go to the constituency in Wrexham or to the constituency in Neath Port Talbot or in Delyn and tell those people that you are supportive, as a party, of fracking as opposed to renewable energy. It is a complete contrast; it's unfortunate. But the fact is that, here in Wales, we do want renewable energy. We are open for business and these regulations today will help in our ability to develop a zero-carbon approach to energy usage in Wales. I formally move.

A gaf i ateb Russell George? Mae'r Aelod yn gyson yn ei agwedd tuag at ynni adnewyddadwy. Yn amlwg, hyrwyddwyr ffracio yw ei blaid gyferbyn, yn hytrach na hyrwyddwyr ynni adnewyddadwy. Y ffaith yw y byddwn wrth fy modd pe byddai Russell George yn mynd i'r etholaeth yn Wrecsam neu i'r etholaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot neu yn Nelyn a dweud wrth y bobl hynny eich bod yn gefnogol, fel plaid, i ffracio yn hytrach nag ynni adnewyddadwy. Mae'n wrthgyferbyniad llwyr; mae'n anffodus. Ond y ffaith yw bod eisiau ynni adnewyddadwy arnom yma yng Nghymru. Rydym ar agor ar gyfer busnes a bydd y rheoliadau hyn heddiw yn ein helpu i allu datblygu dull di-garbon o ddefnyddio ynni yng Nghymru. Rwy'n cynnig yn ffurfiol.

15:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I'll therefore defer all voting on this until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar hyn tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

15:13

## 6. Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) (Diwygio) 2016

## 6. The Children (Secure Accommodation) (Wales) (Amendment) Regulations 2016

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 6, which is the Children (Secure Accommodation) (Wales) (Amendment) Regulations 2016, and I call on the Deputy Minister to move the motion—Vaughan Gething.

Symudwn yn awr at eitem 6, sef Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) (Diwygio) 2016, a galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig y cynnig—Vaughan Gething.

Cynnig NDM5977 Jane Hutt

Motion NDM5977 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) (Diwygio) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2016.

Approves that the draft The Children (Secure Accommodation) (Wales) (Amendment) Regulations 2016 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 2 February 2016.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:13 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I move the motion on the paper. The regulations before you amend the Children (Secure Accommodation) (Wales) Regulations, which were passed by the Assembly on 1 December 2015. The group of people mainly affected are 16 and 17-year-olds. The need for these amendments arises in part from a change to the Police and Criminal Evidence Act 1984, which came into force in October, and also from emerging case law. The change to the Police and Criminal Evidence Act means that 17-year-olds who are charged with an offence but refused bail must be treated as children and transferred to local authority accommodation rather than remaining in police custody overnight. The secure accommodation regulations that we made in December allow local authorities to apply a modified test in these circumstances, meaning that they do not have to prove that the child has a history of absconding. At present, this modified test applies only to 12 to 16-year-olds, so the amendment will ensure that the modified test will apply to 17-year-olds also, in line with the changed PACE.

Diolch, Lywydd. Rwy’n cynnig y cynnig ar y papur. Mae'r rheoliadau ger eich bron yn diwygio’r Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru), a basiwyd gan y Cynulliad ar 1 Rhagfyr 2015. Y grŵp o bobl y mae hyn yn effeithio arnynt yn bennaf yw pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed. Mae’r angen am y diwygiadau hyn yn codi’n rhannol o newid i Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, a ddaeth i rym ym mis Hydref, a hefyd o gyfraith achosion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r newid i Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn golygu bod yn rhaid i bobl ifanc 17 oed sy'n cael eu cyhuddo o drosedd ond yn cael gwrthod mechnïaeth gael eu trin fel plant a'u trosglwyddo i lety awdurdod lleol yn hytrach nag aros yn y ddalfa dros nos. Mae'r rheoliadau llety diogel a wnaethom ym mis Rhagfyr yn caniatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio prawf a addaswyd dan yr amgylchiadau hyn, sy'n golygu nad oes rhaid iddynt brofi bod gan y plentyn hanes o ddianc. Ar hyn o bryd, dim ond i blant 12 i 16 oed y mae’r prawf a addaswyd yn berthnasol, felly bydd y gwelliant yn sicrhau bod y prawf a addaswyd yn berthnasol i rai 17 oed hefyd, yn unol â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol sydd wedi newid.

The second amendment concerns looked-after 16 and 17-year-olds who are accommodated by the local authority but who are not subject to a statutory care order. As drafted, the new Children (Secure Accommodation) (Wales) Regulations would not allow a local authority that wished to place an accommodated 16-year-old in secure accommodation without first seeking a care Order from the courts. So, the law does not currently allow any application for a care Order to be made in relation to a 17-year-old.

Mae'r ail welliant yn ymwneud â phobl ifanc 16 a 17 oed sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu lletya gan yr awdurdod lleol, ond nad ydynt yn destun gorchymyn gofal statudol. Fel y'i drafftiwyd, ni fyddai'r Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) newydd yn caniatáu i awdurdod lleol sy'n dymuno gosod unigolyn 16 mlwydd oed o’r fath mewn llety diogel heb geisio Gorchymyn gofal gan y llysoedd yn gyntaf. Felly, nid yw'r gyfraith ar hyn o bryd yn caniatáu gwneud unrhyw gais am Orchymyn gofal ar gyfer unigolyn 17 mlwydd oed.

Through the amendment, we’re ensuring that accommodated 16 and 17-year-olds can be the subject of applications for secure accommodation Orders, and this is consistent with the current law, as it has been clarified by recent case law. So, this gives local authorities a more straightforward route to placing a vulnerable child who was voluntarily accommodated, and in this age group, in secure local authority accommodation, where it is in the best interests of the child to do so.

Drwy'r gwelliant, rydym yn sicrhau bod pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed sy’n cael eu lletya yn gallu bod yn destun ceisiadau am Orchmynion llety diogel, ac mae hyn yn gyson â'r gyfraith bresennol, fel y mae cyfraith achosion ddiweddar wedi’i egluro. Felly, mae hyn yn ei gwneud yn symlach i awdurdodau lleol osod plentyn sy'n agored i niwed a oedd yn lletya yn wirfoddol, ac yn y grŵp oedran hwn, mewn llety diogel awdurdod lleol, os yw er pennaf les y plentyn i wneud hynny.

We’ve also taken this opportunity to make some other amendments to ensure that the regulations function in the way that they’re intended to. The most important of these concerns territorial scope, ensuring that the same safeguards apply to children placed by Welsh local authorities in secure children’s homes in England as already apply when so placed in Wales.

Rydym hefyd wedi cymryd y cyfle hwn i wneud rhai newidiadau eraill i sicrhau bod y rheoliadau’n gweithredu yn unol â’r bwriad. Mae’r pwysicaf o'r pryderon hyn yn ymwneud â chwmpas tiriogaethol, a sicrhau bod yr un mesurau diogelu yn berthnasol i blant a leolwyd gan awdurdodau lleol Cymru mewn cartrefi plant diogel yn Lloegr ag sydd eisoes yn berthnasol pan gânt eu lleoli felly yng Nghymru.

Finally, the amendments will also ensure that children remanded to secure accommodation are only held for up to 28 days at a time. These are technical In nature and ensure that the provisions work where there are cross-border arrangements. Presiding Officer, the regulations before the National Assembly bring about changes that are, essentially, technical in nature, but which regularise the state of the law and reinforce some important safeguards for 16 and 17-year-olds in particular, and I ask Members to support them.

Yn olaf, bydd y diwygiadau hefyd yn sicrhau nad yw plant sydd wedi’u remandio i lety diogel yn cael eu cadw am fwy nag 28 diwrnod ar y tro. Mae'r rhain yn dechnegol eu natur ac yn sicrhau bod y darpariaethau’n gweithio lle ceir trefniadau trawsffiniol. Lywydd, mae'r rheoliadau gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn peri newidiadau sydd, yn y bôn, yn dechnegol eu natur, ond sy’n rheoleiddio cyflwr y gyfraith ac yn atgyfnerthu rhai mesurau diogelu pwysig ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed yn benodol, a gofynnaf i’r Aelodau eu cefnogi.

15:16

### Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn wyneb y pryderon diweddaraf ynghylch cadw pobl ifanc yng nghelloedd yr heddlu—ac rŷch chi wedi sôn am hyn—a yw'r Gweinidog yn teimlo y bydd rheoliad diwygiedig 15 yn helpu i atal y sefyllfa hon rhag codi, drwy ganiatáu i bobl 17 oed sydd wedi eu harestio gael eu trosglwyddo i lety diogel yn fwy cyflym na'r hyn sy'n bosibl ar hyn o bryd? Yn ogystal, pa system bydd y Gweinidog yn ei rhoi ar waith i fonitro effeithiolrwydd y rheoliad diwygiedig hwn?

In light of the recent concerns regarding detaining young people in police cells—and you've just alluded to this—does the Minister feel that amended regulation 15 will assist in preventing this situation from arising by allowing arrested 17-year-olds to be transferred to secure accommodation more quickly than is possible at present? In addition, what system will the Minister utilise to monitor the effectiveness of this amended regulation?

15:17

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

15:17

### Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you, Presiding Officer. I thank Gwenda Thomas for her contribution, which highlights part of the point and purpose of moving these amendment regulations. We do want to be able to see vulnerable 16 and 17-year-olds more quickly moved to secure accommodation and not left in police custody overnight. We will, of course, as with each piece of regulation, look to review the impact of that at a point in time to ensure that the legislation is having the intended impact. I think this is an important and positive set of regulations for a relatively small but important group of vulnerable young people and I ask the Assembly to support the regulations.

Diolch, Lywydd. Diolch i Gwenda Thomas am ei chyfraniad, sy'n tynnu sylw at ran o bwynt a phwrpas cynnig y rheoliadau diwygio hyn. Hoffem allu gweld pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed sy'n agored i niwed yn cael eu symud yn gyflymach i lety diogel yn hytrach na chael eu gadael yn y ddalfa dros nos. Byddwn, wrth gwrs, fel gyda phob darn o reoleiddio, yn ceisio adolygu effaith hynny ar adeg benodol i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael yr effaith a fwriadwyd. Rwy'n meddwl bod hon yn gyfres bwysig a chadarnhaol o reoliadau ar gyfer grŵp cymharol fach ond pwysig o bobl ifanc sy'n agored i niwed a gofynnaf i'r Cynulliad gefnogi'r rheoliadau.

15:17

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Orders.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:18

## 7. Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2016

## 7. The Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2016

Senedd.tv Fideo Video

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 7, which is the the Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2016 and I call on the Minister for Natural Resources to move the motion—Carl Sargeant.

Symudwn yn awr at eitem 7, sef Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2016 ac rwy'n galw ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig y cynnig—Carl Sargeant.

Cynnig NDM5978 Jane Hutt

Motion NDM5978 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Caniatau Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2016.

Approves that the draft The Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2016 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 2 February 2016.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:18 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I'm here today to present you a composite regulation in relation to environmental permitting. Specifically, these regulations seek to integrate all flood defence consents and enforcement activities on and near main rivers into the wider environmental permitting framework. Our motivation for doing this is one of simplification and streamlining of costs for regulators and applicants. I formally move.

Diolch i chi, Lywydd. Rwyf yma heddiw i gyflwyno i chi reoliad cyfansawdd ynglŷn â thrwyddedu amgylcheddol. Yn benodol, mae'r rheoliadau hyn yn ceisio integreiddio pob gweithgaredd caniatâd a gorfodi ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd ar brif afonydd ac yn agos atynt, i'r fframwaith trwyddedu amgylcheddol ehangach. Ein cymhelliant ar gyfer gwneud hyn yw symleiddio'r costau ar gyfer rheoleiddwyr ac ymgeiswyr. Cynigiaf yn ffurfiol.

15:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers. Minister, do you want to add anything else?

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. Weinidog, a ydych chi'n dymuno ychwanegu unrhyw beth arall?

15:18 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No. Formally.

Na. Yn ffurfiol.

15:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Na. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:18

## 8. Cyfnod Pleidleisio

## 8. Voting Time

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We have now reached voting time. I propose to move to the vote.

Rydym bellach wedi cyrraedd y cyfnod pleidleisio. Cynigiaf symud at y bleidlais.

15:19 **Janice Gregory** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could you ring the bell, please?

A wnewch chi ganu'r gloch, os gwelwch yn dda?

15:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ring the bell. All right. Does anybody else want the bell rung? Three people, thank you very much.

Canwch y gloch. Iawn. A oes unrhyw un arall yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Mae tri o bobl, diolch yn fawr iawn i chi.

15:19 **Janice Gregory** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, all of us on these benches do, I can tell you.

Wel, mae pob un ohonom ar y meinciau hyn, gallaf ddweud wrthych.

15:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Excuse me.

Esgusodwch fi.

15:19 **Aelod Cynulliad / An Assembly Member**

Senedd.tv Fideo Video

There aren't many on your benches.

Nid oes llawer ar eich meinciau.

15:19 **Janice Gregory** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I'm terribly sorry, but I was drinking tea.

Ie, mae'n ddrwg iawn gennyf, ond roeddwn i'n yfed te.

15:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can we ring the bell?

A gawn ni ganu'r gloch?

*Canwyd y gloch i alw'r Aelodau i'r Siambr.*

*The bell was rung to call Members to the Chamber.*

15:24

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The five minutes have gone, therefore we move straight into the vote. The vote is on the Developments of National Significance (Specified Criteria and Prescribed Secondary Consents) (Wales) (Amendment) Regulations 2016. I call for a vote on the motion in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. In favour 36, no abstentions, 12 against. Therefore, the motion is carried.

Mae'r pum munud wedi mynd heibio, felly symudwn yn syth at y bleidlais. Mae'r bleidlais ar Reoliadau Datblygiadau o Bwys Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chaniatadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2016. Galwaf am bleidlais ar y cynnig yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 36, neb yn ymatal, 12 yn erbyn. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 36, Yn erbyn 12, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 36, Against 12, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5979.](#)

[Result of the vote on motion NDM5979.](#)

15:24

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We now will have a 10-minute break before we move to the next item on the agenda—10 minutes and 10 minutes only. Thank you very much.

Byddwn yn awr yn cael seibiant am 10 munud cyn i ni symud at yr eitem nesaf ar yr agenda—10 munud a 10 munud yn unig. Diolch yn fawr iawn.

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 15:25.*

*Plenary was suspended at 15:25.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 15:35, gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly reconvened at 15:35, with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

15:35

# 9. Dadl Cyfnod 3 ar Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

# 9. Stage 3 Debate on the Tax Collection and Management (Wales) Bill

Y

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order, order. The next item is our Stage 3 debate on the Tax Collection and Management (Wales) Bill.

Trefn, trefn. Yr eitem nesaf yw ein dadl Cyfnod 3 ar Fil Casglu a Rheoli'r Dreth (Cymru).

### Grŵp 1: Awdurdod Cyllid Cymru (Gwelliannau 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51, 52, 53, 54, 55, 56, 57, 58, 59, 60, 61, 62, 63, 64, 65, 66, 67, 68, 69, 70, 71, 72, 73, 74, 75, 76, 77, 78, 79, 80, 81, 82, 83, 84, 85, 86, 87, 88, 89, 90, 91, 92, 93, 94, 95, 96, 97, 98, 99, 100, 101, 102, 103, 104, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 112, 113, 114, 115, 116, 117, 118, 119, 120, 121, 122, 123, 124, 125, 126, 127, 128, 129, 130, 131, 132, 133, 134, 135, 136, 137, 138, 139, 140, 141, 142, 143, 144, 145, 146, 147, 148, 149, 150, 151, 152, 153, 154, 155, 156, 157, 158, 159, 160, 161, 162, 163, 164, 165, 166, 167, 168, 169, 170, 171, 172, 173, 174, 175, 176, 177, 178, 179, 180, 181, 182, 183, 184, 185, 186, 187, 188, 189, 190, 191, 192, 193, 194, 195, 196, 197, 198, 199, 200, 201, 202, 206, 207, 208, 209, 210, 211, 212, 213, 214, 215, 216, 217, 218, 219, 220, 221, 222, 223, 224, 225, 226, 227, 228, 229, 230, 231, 232, 233, 234, 235,

### Group 1: Welsh Revenue Authority (Amendments 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51, 52, 53, 54, 55, 56, 57, 58, 59, 60, 61, 62, 63, 64, 65, 66, 67, 68, 69, 70, 71, 72, 73, 74, 75, 76, 77, 78, 79, 80, 81, 82, 83, 84, 85, 86, 87, 88, 89, 90, 91, 92, 93, 94, 95, 96, 97, 98, 99, 100, 101, 102, 103, 104, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 112, 113, 114, 115, 116, 117, 118, 119, 120, 121, 122, 123, 124, 125, 126, 127, 128, 129, 130, 131, 132, 133, 134, 135, 136, 137, 138, 139, 140, 141, 142, 143, 144, 145, 146, 147, 148, 149, 150, 151, 152, 153, 154, 155, 156, 157, 158, 159, 160, 161, 162, 163, 164, 165, 166, 167, 168, 169, 170, 171, 172, 173, 174, 175, 176, 177, 178, 179, 180, 181, 182, 183, 184, 185, 186, 187, 188, 189, 190, 191, 192, 193, 194, 195, 196, 197, 198, 199, 200, 201, 202, 206, 207, 208, 209, 210, 211, 212, 213, 214, 215, 216, 217, 218, 219, 220, 221, 222, 223, 224, 225, 226, 227, 228, 229, 230, 231, 232, 233, 234, 235,

**236, 237, 238, 239, 240, 241, 242, 243, 244, 245, 246, 247, 248, 249, 250, 251, 252, 253, 254, 255, 256, 257, 258, 259, 260, 261, 262, 263, 264, 265, 267, 268, 269, 270, 271, 272, 273, 274, 275, 276, 277, 278, 279, 280, 281, 282, 283, 284, 285, 286, 287, 288, 289, 290, 291, 292, 293, 294, 295, 296, 297, 203, 204, 205, 300, 301, 302, 303, 304, 305, 306, 307, 308, 309, 310, 311, 312, 313, 314, 315, 316, 317, 318, 319, 320, 321, 322, 323, 324, 325, 326, 327, 328, 329, 330, 331, 332, 333, 334, 335, 336, 337, 338, 339, 340, 341, 342, 343, 344, 345, 346, 347, 348, 349, 350, 351, 352, 353, 354, 355, 356, 357, 358, 359, 360, 361, 362, 363, 364, 365, 366, 367, 368, 369, 370, 371, 372, 373, 374, 375, 376, 377, 378, 379, 380, 381, 382, 383, 384, 385, 386, 387, 388, 389, 390, 391, 392, 393, 394, 395, 396, 397, 398, 399, 400, 401, 402, 403, 298, 299, 404, 405, 406, 407, 408, 409, 410, 411, 412, 413, 414, 415, 416, 417, 418, 419, 420, 421, 422, 423, 424, 425, 426, 427, 428, 429, 430, 431, 432, 433, 434, 435, 436, 437, 438, 439, 440, 441, 442, 443, 444, 445, 446, 447, 448, 449, 450, 451, 452, 453, 454, 455, 456, 457, 458, 459, 460, 461, 462, 463, 464, 465, 466, 467, 468, 469, 470, 471, 472, 473, 474, 475, 476, 477, 478, 479, 480, 481, 482, 483, 484, 485, 489, 490, 491, 492, 493, 494, 495, 496, 497, 498, 499, 500, 501, 502, 503, 504, 505, 506, 507, 508, 509, 510, 511, 512, 513, 514, 515, 516, 517, 518, 519, 520, 521, 522, 523, 524, 525, 526, 527, 528, 529, 530, 531, 532, 533, 534, 535, 486, 487, 488, 536, 537, 538, 539, 540, 541, 542, 543, 544, 545, 546, 547, 548, 549, 550, 551, 552, 553, 554, 555, 556, 557, 558, 559, 560, 561, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 23)**

**236, 237, 238, 239, 240, 241, 242, 243, 244, 245, 246, 247, 248, 249, 250, 251, 252, 253, 254, 255, 256, 257, 258, 259, 260, 261, 262, 263, 264, 265, 267, 268, 269, 270, 271, 272, 273, 274, 275, 276, 277, 278, 279, 280, 281, 282, 283, 284, 285, 286, 287, 288, 289, 290, 291, 292, 293, 294, 295, 296, 297, 203, 204, 205, 300, 301, 302, 303, 304, 305, 306, 307, 308, 309, 310, 311, 312, 313, 314, 315, 316, 317, 318, 319, 320, 321, 322, 323, 324, 325, 326, 327, 328, 329, 330, 331, 332, 333, 334, 335, 336, 337, 338, 339, 340, 341, 342, 343, 344, 345, 346, 347, 348, 349, 350, 351, 352, 353, 354, 355, 356, 357, 358, 359, 360, 361, 362, 363, 364, 365, 366, 367, 368, 369, 370, 371, 372, 373, 374, 375, 376, 377, 378, 379, 380, 381, 382, 383, 384, 385, 386, 387, 388, 389, 390, 391, 392, 393, 394, 395, 396, 397, 398, 399, 400, 401, 402, 403, 298, 299, 404, 405, 406, 407, 408, 409, 410, 411, 412, 413, 414, 415, 416, 417, 418, 419, 420, 421, 422, 423, 424, 425, 426, 427, 428, 429, 430, 431, 432, 433, 434, 435, 436, 437, 438, 439, 440, 441, 442, 443, 444, 445, 446, 447, 448, 449, 450, 451, 452, 453, 454, 455, 456, 457, 458, 459, 460, 461, 462, 463, 464, 465, 466, 467, 468, 469, 470, 471, 472, 473, 474, 475, 476, 477, 478, 479, 480, 481, 482, 483, 484, 485, 489, 490, 491, 492, 493, 494, 495, 496, 497, 498, 499, 500, 501, 502, 503, 504, 505, 506, 507, 508, 509, 510, 511, 512, 513, 514, 515, 516, 517, 518, 519, 520, 521, 522, 523, 524, 525, 526, 527, 528, 529, 530, 531, 532, 533, 534, 535, 486, 487, 488, 536, 537, 538, 539, 540, 541, 542, 543, 544, 545, 546, 547, 548, 549, 550, 551, 552, 553, 554, 555, 556, 557, 558, 559, 560, 561, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 23)**

15:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The first group of amendments relates to the Welsh revenue authority. The lead amendment in this group is amendment 30. I call on Nick Ramsay to move and speak to the lead amendment, and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn ymwneud ag awdurdod cyllid Cymru. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 30. Galwaf ar Nick Ramsay i gynnig a siarad am y prif welliant, a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 30 (Nick Ramsay).*

*Amendment 30 (Nick Ramsay) moved.*

15:35

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm pleased to move amendment 30, the lead amendment, as you say, for group 1, in today's debate—amendments that seek to simplify the name intended for the new Welsh revenue authority. Deputy Presiding Officer, the establishment of this new body represents a key change to the way that tax collection in Wales will operate, following the devolution of a number of taxes to the Welsh Government.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch i gynnig gwelliant 30, y prif welliant, fel y dywedwch, ar gyfer grŵp 1, yn nadl heddiw—gwelliannau sy'n ceisio symleiddio'r enw a fwriedir ar gyfer awdurdod refeniw newydd Cymru. Ddirprwy Lywydd, mae sefydlu'r corff newydd hwn yn cynrychioli newid allweddol i'r ffordd y bydd casglu'r dreth yng Nghymru yn gweithredu, yn dilyn datganoli nifer o drethi i Lywodraeth Cymru.

The Welsh Conservatives want to increase awareness and understanding of these changes with the public. These amendments seek to simplify the name of the new authority. The acronym WRA is similar to other organisations—WRU, NRA, to name a few—which could potentially cause confusion for taxpayers. We believe that changing the name, or rather launching the new authority as 'Revenue Wales—Revenue Cymru' will solidify in the name its purpose and function, similar to Revenue Scotland.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig eisiau cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau hyn gyda'r cyhoedd. Mae'r gwelliannau hyn yn ceisio symleiddio enw'r awdurdod newydd. Mae'r acronym WRA yn debyg i sefydliadau eraill—WRU, NRA, i enwi ond ychydig—a allai beri dryswch i drethdalwyr. Rydym yn credu y bydd newid yr enw, neu yn hytrach lansio'r awdurdod newydd fel 'Revenue Wales—Cyllid Cymru' yn cadarnhau ei ddiben a'i swyddogaeth yn yr enw, yn debyg i Revenue Scotland.

Now, we all know the importance of branding in the modern world. The establishment of this new body is an historic moment for Wales, and its name is key, both through its acceptance and development, as a feature of the devolved Welsh landscape. It's important that the new body is accessible, but not just that—it's important that it's perceived as accessible by the public. 'Revenue Wales' is direct, avoids confusing acronyms, and does what it says on the tin.

Nawr, rydym i gyd yn gwybod pa mor bwysig yw brandio yn y byd modern. Mae sefydlu'r corff newydd hwn yn achlysur hanesyddol i Gymru, ac mae ei enw yn allweddol, trwy ei dderbyn a'i ddatblygu, fel nodwedd o dirwedd Cymru ddatganoledig. Mae'n bwysig bod y corff newydd yn hygyrch, ond nid dim ond hynny—mae'n bwysig ei fod yn cael ei ystyried yn hygyrch gan y cyhoedd. Mae 'Cyllid Cymru' yn uniongyrchol, yn osgoi acronymau dryslyd, ac yn gwneud yr hyn mae'n ei ddweud ar y tun.

15:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister.

Weinidog.

15:36

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Could I start, Dirprwy Lywydd, by placing on record my thanks to all Members of the Assembly, particularly those of the Finance Committee, for their scrutiny of the Bill? This has been very valuable in helping to shape Wales's first tax legislation. Members will be aware that I provided a detailed and substantial response to the committee's Stage 1 recommendations just before Christmas, and I brought various amendments forward in response to the committee's recommendations at Stage 2, in January.

A gaf i ddechrau, Ddirprwy Lywydd, drwy gofnodi fy niolch i holl Aelodau'r Cynulliad, yn enwedig y rhai ar y Pwyllgor Cyllid, am eu gwaith craffu ar y Bil? Mae hyn wedi bod yn werthfawr iawn wrth helpu i lunio deddfwriaeth dreth gyntaf Cymru. Bydd yr Aelodau yn gwybod fy mod wedi darparu ymateb manwl a sylweddol i argymhellion Cyfnod 1 y pwyllgor ychydig cyn y Nadolig, ac fe wnes i ddwyn amryw o welliannau ymlaen mewn ymateb i argymhellion y pwyllgor yng Ngyfnod 2, ym mis Ionawr.

The first group of amendments is concerned with re-naming of the Welsh revenue authority to 'Revenue Wales'. Nick Ramsay did table amendments to one section with the same purpose at Stage 2, which were not agreed, and now has tabled over 500 amendments to do the same throughout the Bill. To reiterate what I said at Stage 2, as an issue, this did not feature in the Finance Committee's report, or, indeed, in any of the responses to the extensive consultation undertaken leading up to the publication of the Bill.

Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn ymwneud ag ailenwi awdurdod cyllid Cymru yn 'Cyllid Cymru'. Gwnaeth Nick Ramsay gyflwyno gwelliannau i un adran at yr un diben yng Ngyfnod 2, na chytunwyd arnynt, ac mae bellach wedi cyflwyno dros 500 o newidiadau i wneud yr un peth drwy bob rhan o'r Bil. I ailadrodd yr hyn a ddywedais yn ystod Cyfnod 2, fel mater, nid oedd hyn yn ymddangos yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid, nac, mewn gwirionedd, yn unrhyw un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad helaeth a gynhaliwyd yn arwain at gyhoeddi'r Bil.

I don't intend to support Nick Ramsay's amendments. We considered 'Revenue Wales' as a possible option when we first looked at a suitable name, but felt that it did not suitably reflect the fact that Wales was developing its own approach to tax devolution. And since we decided upon 'Welsh Revenue Authority', we have invested considerable time and effort into promoting it. For example, last Thursday, I launched a consultation on Welsh taxes, with our fourth Treasury paper. It's already recognised amongst our key stakeholders, none of whom raised this as a concern during scrutiny. And to introduce a new name now, at this late stage, is likely to cause considerable confusion, and would be non-productive. So, I do not intend to support these amendments.

Nid wyf yn bwriadu cefnogi gwelliannau Nick Ramsay. Buom yn ystyried 'Cyllid Cymru' fel dewis posibl pan edrychasom yn gyntaf ar enw addas, ond roeddem yn teimlo nad oedd yn adlewyrchu'n briodol y ffaith bod Cymru yn datblygu ei dull ei hun o ran datganoli treth. Ac ers i ni benderfynu ar 'Awdurdod Cyllid Cymru', rydym wedi buddsoddi cryn amser ac ymdrech i'w hyrwyddo. Er enghraifft, ddydd Iau diwethaf, lansiais ymgynghoriad ar drethi Cymru, gyda'n pedwerydd papur Trysorlys. Mae eisoes wedi ei gydnabod ymhlith ein rhanddeiliaid allweddol, ac ni wnaeth yr un ohonynt godi hyn fel pryder yn ystod craffu. A byddai cyflwyno enw newydd yn awr, ar y cam hwyr hwn, yn debygol o achosi cryn ddryswch, ac ni fyddai'n gynhyrchiol. Felly, nid wyf yn bwriadu cefnogi'r gwelliannau hyn.

15:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay to reply.

Nick Ramsay i ateb.

15:38 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I also thank the Minister for her co-operation, and that of her officials, over this rather complex, at times, process of developing this legislation?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf i hefyd ddiolch i'r Gweinidog am ei chydweithrediad hi, a'i swyddogion, dros y broses braidd yn gymhleth hon, ar adegau, o ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon?

I admit, Minister, that I have got a little trigger-happy with the amendments today, as you say. I've tabled over 500, although many of those will, of course, fall if the initial amendment falls. I did, as you say, table this amendment at committee, at Stage 2, and I'm sorry that you've decided to reject the amendment. I heard again what you said; you repeated the comments you made at Stage 2, and I still don't see a sound basis for the rejection of this amendment. As I said in opening this debate, the Welsh Conservatives feel that the name of the organisation should be as clear as possible to the public, and it should be distinctive from other organisations and abbreviations.

Rwy'n cyfaddef, Weinidog, fy mod wedi bod braidd yn rhy barod i fwrw ymlaen â gwelliannau heddiw, fel y dywedwch. Rwyf wedi cyflwyno dros 500, er y bydd llawer o'r rheini, wrth gwrs, yn methu os bydd y gwelliant cyntaf yn methu. Fe wnes i, fel y dywedwch, gyflwyno'r gwelliant hwn yn y pwyllgor, yng Nghyfnod 2, ac mae'n ddrwg gennyf eich bod wedi penderfynu gwrthod y gwelliant. Clywais eto yr hyn a ddywedasoch; fe wnaethoch ailadrodd y sylwadau a wnaethoch yng Nghyfnod 2, ac nid wyf yn gweld sail gadarn o hyd ar gyfer gwrthod y gwelliant hwn. Fel y dywedais wrth agor y ddadl hon, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn teimlo y dylai enw'r sefydliad fod mor glir â phosibl i'r cyhoedd, a dylai fod yn wahanol i sefydliadau a byrfoddau eraill.

You mentioned Scotland. Scotland has already been through, and is ahead of the game in many ways, on some of these financial changes, and we believe that we should be taking notice of their experience north of the border. They settled on the name 'Revenue Scotland' for good reasons, and, for similar reasons, I believe that 'Revenue Wales' is superior to the name 'Welsh Revenue Authority'—WRA—and would stand the body in better stead, now and in the future. If you believe that Wales has a different set of circumstances for which WRA would be a better response, then I ask you to tell us what those are. You've been less than clear on that so far.

Soniasoch am yr Alban. Mae'r Alban eisoes wedi bod trwy'r broses, ac mae ar y blaen arni mewn sawl ffordd, ar rai o'r newidiadau ariannol hyn, ac rydym ni'n credu y dylem fod yn cymryd sylw o'u profiad nhw i'r gogledd o'r ffin. Roeddent wedi setlo ar yr enw 'Revenue Scotland' am resymau da, ac, am resymau tebyg, rwy'n credu bod 'Cyllid Cymru' yn rhagori ar yr enw 'Awdurdod Cyllid Cymru'—ACC—a byddai hynny o fwy o fudd i'r corff, yn awr ac yn y dyfodol. Os ydych yn credu bod gan Gymru gyfres wahanol o amgylchiadau y byddai ACC yn ymateb gwell iddynt, yna yr wyf yn gofyn i chi ddweud wrthym beth ydynt. Rydych chi wedi bod yn llai na chlir ar hynny hyd yn hyn.

I believe, in conclusion, Deputy Presiding Officer, that the new body should be as accessible as possible, and the name needs to reflect that. I urge the Chamber to accept this amendment and to name the new body 'Revenue Wales'.

Rwy'n credu, i gloi, Ddirprwy Lywydd, y dylai'r corff newydd fod mor hygyrch â phosibl, ac mae angen i'r enw adlewyrchu hynny. Rwy'n annog y Siambr i dderbyn y gwelliant hwn ac i enwi'r corff newydd yn 'Cyllid Cymru'.

15:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 30 is not agreed, amendments 23 to 29 and 31 to 561 fall. [Laughter.] The question is that amendment 30 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11, there voted against 39. Therefore, amendment 30 is not agreed, and amendments 23 to 29 and 31 to 561 fall.

Os na chaiff gwelliant 30 ei dderbyn, bydd gwelliannau 23 i 29 a 31 i 561 yn methu. [Chwerthin.] Y cwestiwn yw bod gwelliant 30 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid, pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 30 ei dderbyn, ac mae gwelliannau 23 i 29 a 31 i 561 yn methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 30: O blaid 11, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 30 not agreed: For 11, Against 39, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 30.

Result of the vote on amendment 30.

*Methodd gwelliannau 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51, 52, 53, 54, 55, 56, 57, 58, 59, 60, 61, 62, 63, 64, 65, 66, 67, 68, 69, 70, 71, 72, 73, 74, 75, 76, 77, 78, 79, 80, 81, 82, 83, 84, 85, 86, 87, 88, 89, 90, 91, 92, 93, 94, 95, 96, 97, 98, 99, 100, 101, 102, 103, 104, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 112, 113, 114, 115, 116, 117, 118, 119, 120, 121, 122, 123, 124, 125, 126, 127, 128, 129, 130, 131, 132, 133, 134, 135, 136, 137, 138, 139, 140, 141, 142, 143, 144, 145, 146, 147, 148, 149, 150, 151, 152, 153, 154, 155, 156, 157, 158, 159, 160, 161, 162, 163, 164, 165, 166, 167, 168, 169, 170, 171, 172, 173, 174, 175, 176, 177, 178, 179, 180, 181, 182, 183, 184, 185, 186, 187, 188, 189, 190, 191, 192, 193, 194, 195, 196, 197, 198, 199, 200, 201, 202, 203, 204, 205, 206, 207, 208, 209, 210, 211, 212, 213, 214, 215, 216, 217, 218, 219, 220, 221, 222, 223, 224, 225, 226, 227, 228, 229, 230, 231, 232, 233, 234, 235, 236, 237, 238, 239, 240, 241, 242, 243, 244, 245, 246, 247, 248, 249, 250, 251, 252, 253, 254, 255, 256, 257, 258, 259, 260, 261, 262, 263, 264, 265, 267, 268, 269, 270, 271, 272, 273, 274, 275, 276, 277, 278, 279, 280, 281, 282, 283, 284, 285, 286, 287, 288, 289, 290, 291, 292, 293, 294, 295, 296, 297, 298, 299, 300, 301, 302, 303, 304, 305, 306, 307, 308, 309, 310, 311, 312, 313, 314, 315, 316, 317, 318, 319, 320, 321, 322, 323, 324, 325, 326, 327, 328, 329, 330, 331, 332, 333, 334, 335, 336, 337, 338, 339, 340, 341, 342, 343, 344, 345, 346, 347, 348, 349, 350, 351, 352, 353, 354, 355, 356, 357, 358, 359, 360, 361, 362, 363, 364, 365, 366, 367, 368, 369, 370, 371, 372, 373, 374, 375, 376, 377, 378, 379, 380, 381, 382, 383, 384, 385, 386, 387, 388, 389, 390, 391, 392, 393, 394, 395, 396, 397, 398, 399, 400, 401, 402, 403, 404, 405, 406, 407, 408, 409, 410, 411, 412, 413, 414, 415, 416, 417, 418, 419, 420, 421, 422, 423, 424, 425, 426, 427, 428, 429, 430, 431, 432, 433, 434, 435, 436, 437, 438, 439, 440, 441, 442, 443, 444, 445, 446, 447, 448, 449, 450, 451, 452, 453, 454, 455, 456, 457, 458, 459, 460, 461, 462, 463, 464, 465, 466, 467, 468, 469, 470, 471, 472, 473, 474, 475, 476, 477, 478, 479, 480, 481, 482, 483, 484, 485, 486, 487, 488, 489, 490, 491, 492, 493, 494, 495, 496, 497, 498, 499, 500, 501, 502, 503, 504, 505, 506, 507, 508, 509, 510, 511, 512, 513, 514, 515, 516, 517, 518, 519, 520, 521, 522, 523, 524, 525, 526, 527, 528, 529, 530, 531, 532, 533, 534, 535, 536, 537, 538, 539, 540, 541, 542, 543, 544, 545, 546, 547, 548, 549, 550, 551, 552, 553, 554, 555, 556, 557, 558, 559, 560, 561.*

*Amendments 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51, 52, 53, 54, 55, 56, 57, 58, 59, 60, 61, 62, 63, 64, 65, 66, 67, 68, 69, 70, 71, 72, 73, 74, 75, 76, 77, 78, 79, 80, 81, 82, 83, 84, 85, 86, 87, 88, 89, 90, 91, 92, 93, 94, 95, 96, 97, 98, 99, 100, 101, 102, 103, 104, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 112, 113, 114, 115, 116, 117, 118, 119, 120, 121, 122, 123, 124, 125, 126, 127, 128, 129, 130, 131, 132, 133, 134, 135, 136, 137, 138, 139, 140, 141, 142, 143, 144, 145, 146, 147, 148, 149, 150, 151, 152, 153, 154, 155, 156, 157, 158, 159, 160, 161, 162, 163, 164, 165, 166, 167, 168, 169, 170, 171, 172, 173, 174, 175, 176, 177, 178, 179, 180, 181, 182, 183, 184, 185, 186, 187, 188, 189, 190, 191, 192, 193, 194, 195, 196, 197, 198, 199, 200, 201, 202, 203, 204, 205, 206, 207, 208, 209, 210, 211, 212, 213, 214, 215, 216, 217, 218, 219, 220, 221, 222, 223, 224, 225, 226, 227, 228, 229, 230, 231, 232, 233, 234, 235, 236, 237, 238, 239, 240, 241, 242, 243, 244, 245, 246, 247, 248, 249, 250, 251, 252, 253, 254, 255, 256, 257, 258, 259, 260, 261, 262, 263, 264, 265, 267, 268, 269, 270, 271, 272, 273, 274, 275, 276, 277, 278, 279, 280, 281, 282, 283, 284, 285, 286, 287, 288, 289, 290, 291, 292, 293, 294, 295, 296, 297, 298, 299, 300, 301, 302, 303, 304, 305, 306, 307, 308, 309, 310, 311, 312, 313, 314, 315, 316, 317, 318, 319, 320, 321, 322, 323, 324, 325, 326, 327, 328, 329, 330, 331, 332, 333, 334, 335, 336, 337, 338, 339, 340, 341, 342, 343, 344, 345, 346, 347, 348, 349, 350, 351, 352, 353, 354, 355, 356, 357, 358, 359, 360, 361, 362, 363, 364, 365, 366, 367, 368, 369, 370, 371, 372, 373, 374, 375, 376, 377, 378, 379, 380, 381, 382, 383, 384, 385, 386, 387, 388, 389, 390, 391, 392, 393, 394, 395, 396, 397, 398, 399, 400, 401, 402, 403, 404, 405, 406, 407, 408, 409, 410, 411, 412, 413, 414, 415, 416, 417, 418, 419, 420, 421, 422, 423, 424, 425, 426, 427, 428, 429, 430, 431, 432, 433, 434, 435, 436, 437, 438, 439, 440, 441, 442, 443, 444, 445, 446, 447, 448, 449, 450, 451, 452, 453, 454, 455, 456, 457, 458, 459, 460, 461, 462, 463, 464, 465, 466, 467, 468, 469, 470, 471, 472, 473, 474, 475, 476, 477, 478, 479, 480, 481, 482, 483, 484, 485, 486, 487, 488, 489, 490, 491, 492, 493, 494, 495, 496, 497, 498, 499, 500, 501, 502, 503, 504, 505, 506, 507, 508, 509, 510, 511, 512, 513, 514, 515, 516, 517, 518, 519, 520, 521, 522, 523, 524, 525, 526, 527, 528, 529, 530, 531, 532, 533, 534, 535, 536, 537, 538, 539, 540, 541, 542, 543, 544, 545, 546, 547, 548, 549, 550, 551, 552, 553, 554, 555, 556, 557, 558, 559, 560, 561 fell.*

### Grŵp 2: Penodiadau i Fwrdd ACC (Gwelliannau 7, 8, 9, 10, 11, 12, 1, 13, 14)

### Group 2: WRA Board Appointments (Amendments 7, 8, 9, 10, 11, 12, 1, 13, 14)

15:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The next group of amendments relates to the WRA board appointments. The lead amendment in this group is amendment 7. I call on Nick Ramsay to move and to speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â phenodiadau i fwrdd ACC. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 7. Galwaf ar Nick Ramsay i gynnig ac i siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 7 (Nick Ramsay).*

*Amendment 7 (Nick Ramsay) moved.*

15:41 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Well, 500 amendments later, I'm pleased to move the lead amendment in group 2. This amendment is part of an overall strategy to ensure that the established body is accountable to all of the National Assembly, ensuring that it is as independent as possible from the Welsh Government, as outlined in recommendations 3 and 21 of the Finance Committee's scrutiny report. Therefore, we believe that an essential aspect of this is the appointment of the chairperson. Further, we believe that if the chairperson is elected by the National Assembly, it will be a more open and more transparent democratic process, and will reinforce the notion that it is an arm's-length, independent entity.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wel, 500 o welliannau yn ddiweddarach, rwy'n falch o gynnig y prif welliant yn grŵp 2. Mae'r gwelliant hwn yn rhan o strategaeth gyffredinol i sicrhau bod y corff a sefydlwyd yn atebol i'r holl Gynulliad Cenedlaethol, gan sicrhau ei fod mor annibynnol ag y bo'n bosibl ar Lywodraeth Cymru, fel yr amlinellir yn argymhellion 3 a 21 o adroddiad craffu y Pwyllgor Cyllid. Felly, rydym yn credu mai agwedd hanfodol ar hyn yw penodiad y cadeirydd. Hefyd, rydym yn credu os yw'r cadeirydd yn cael ei ethol gan y Cynulliad Cenedlaethol, y bydd yn broses ddemocrataidd fwy agored a mwy tryloyw, a bydd yn atgyfnerthu'r syniad ei fod yn endid hyd braich, annibynnol.

Amendment 9 relates to the appointment process and seeks to secure the principle of fair and open competition during that process.

Mae gwelliant 9 yn ymwneud â'r broses benodi ac yn ceisio sicrhau'r egwyddor o gystadleuaeth deg ac agored yn ystod y broses honno.

Minister, I fully appreciate some of the difficulties in getting the balance right between ministerial direction and the arm's-length independence that we seek to achieve. I think that having the Chair elected by the National Assembly is a step towards getting that balance right, and that's why we've put forward this amendment today.

Weinidog, rwy'n llwyr werthfawrogi rhai o'r anawsterau o ran cael y cydbwysedd cywir rhwng cyfeiriad gweinidogol a'r annibyniaeth hyd braich yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Rwy'n credu bod cael Cadeirydd wedi'i ethol gan y Cynulliad Cenedlaethol yn gam tuag at gael y cydbwysedd hwnnw'n iawn, a dyna pam yr ydym wedi cyflwyno'r gwelliant hwn heddiw.

The Welsh Conservatives are happy to support amendment 1, the Government amendment, which seeks to ensure that it will be non-executive members rather than the whole WRA—as it is now called—board who appoint each subsequent chief executive, following the initial appointment by Welsh Ministers.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn hapus i gefnogi gwelliant 1, gwelliant y Llywodraeth, sy'n ceisio sicrhau mai aelodau anweithredol yn hytrach na holl fwrdd ACC—fel y'i gelwir bellach—fydd yn penodi pob prif weithredwr wedi hynny, yn dilyn y penodiad cychwynnol gan Weinidogion Cymru.

15:43 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wedi ystyried y mater yn ofalus, a thra bod gwelliant Nick Ramsay yn sicr â rhai dadleuon o'i blaid, roedd y dystiolaeth yn gadarn y dylai'r corff newydd fod yn adran o'r Llywodraeth ond heb fod o dan reolaeth uniongyrchol unrhyw Weinidog. Dyna'r drefn fwyaf synhwyrol i sicrhau annibyniaeth awdurdod refeniw Cymru, ac mae'n cyd-fynd â statws Cyllid a Thollau ei Mawrhydi, y Comisiwn Elusennau, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac enghreifftiau eraill. Dyna statws Revenue Scotland hefyd. Gan fod yr awdurdod o dan reolaeth bwrdd annibynnol, mae'n sicrhau nad ydy'r awdurdod o dan reolaeth uniongyrchol y Llywodraeth ac na all unrhyw Lywodraeth ymyrryd ym materion trethiannol o ddydd i ddydd pobl Cymru.

Having considered the issue carefully, and while Nick Ramsay's amendment certainly has some arguments in favour of it, the evidence was firm that the new body should be part of a Government department but not under the auspices of any Minister. That's the best way of ensuring the independence of the Welsh revenue authority, and goes alongside the status of Her Majesty's Revenue and Customs, the Charity Commission, the Crown Prosecution Service and other examples. That is also the status of Revenue Scotland. As the authority is under the control of an independent board, it does ensure that the authority is not under the direct rule of Government and that no Government can interfere in the day-to-day taxation issues of the people of Wales.

Bydd yn rhaid, wrth gwrs, i'r Cynulliad gael trefn gadarn i oruchwylio a sgrwtineiddio'r corff newydd, ac rwy'n hyderus y bydd hynny'n digwydd yn y Cynulliad newydd. Felly, rydym yn gwrthwynebu'r gwelliant yma, a'r rhai canlynol am yr un rheswm, ond yn cefnogi gwelliant y Gweinidog i sicrhau y bydd prif weithredwr awdurdod refeniw Cymru yn y dyfodol yn cael ei benodi gan aelodau anweithredol y bwrdd. Diolch.

The Assembly, of course, will have to have a robust system to oversee and scrutinise the new body, and I am confident that that will happen in the next Assembly. So, we oppose this amendment, and the following amendments for the same reason, but do support the Minister's amendment to ensure that the chief executive of the WRA will be appointed by non-executive members of the board. Thank you.

15:44 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'll first speak to the amendment tabled in my name. Amendment 1 does ensure that it will be non-executive members, rather than the whole of the WRA board, who appoint each subsequent chief executive of the WRA, following the first appointment made by the Welsh Ministers. This does also address recommendation 7 of the Finance Committee's Stage 1 report. So, I'm grateful to Nick Ramsay and to Alun Ffred Jones for their support of amendment 1.

Siaradaf yn gyntaf am y gwelliant a gyflwynwyd yn fy enw i. Mae gwelliant 1 yn sicrhau mai aelodau anweithredol, yn hytrach na holl fwrdd ACC, fydd yn penodi pob prif weithredwr dilynol ACC, yn dilyn y penodiad cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae hyn hefyd yn ymdrin ag argymhelliad 7 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid. Felly, rwy'n ddiolchgar i Nick Ramsay ac i Alun Ffred Jones am eu cefnogaeth i welliant 1.

I don't intend to support Nick Ramsay's amendments, which would provide that the Assembly, rather than the Government, would make appointments to the WRA board, determine or approve the terms and conditions of those appointments, and improve the terms of committee members and staff. The Bill does establish WRA as a non-ministerial department and, as Alun Ffred Jones has said, and as I outlined to the committee previously, this approach is consistent with HMRC and the recently established Revenue Scotland. The WRA will be separate from, but accountable to, Welsh Ministers. It's fundamentally different from bodies such as WAO, which has a very different role in holding public bodies to account, and for that reason, it should be for the Welsh Ministers to have the role that the Bill confers on them in terms of appointments and approval of terms.

Nid wyf yn bwriadu cefnogi gwelliannau Nick Ramsay, a fyddai'n darparu mai'r Cynulliad, yn hytrach na'r Llywodraeth, fyddai'n gwneud penodiadau i fwrdd ACC, yn penderfynu neu gymeradwyo telerau ac amodau'r penodiadau hynny, a gwella telerau aelodau'r pwyllgor a staff. Mae'r Bil yn sefydlu ACC fel adran anweinidogol ac, fel y mae Alun Ffred Jones wedi'i ddweud, ac fel yr wyf i wedi ei amlinellu i'r pwyllgor yn flaenorol, mae'r dull hwn yn gyson â CThEM a Revenue Scotland a sefydlwyd yn ddiweddar. Bydd y WRA ar wahân, ond yn atebol, i Weinidogion Cymru. Mae'n sylfaenol wahanol i gyrff megis Swyddfa Archwilio Cymru, sydd â swyddogaeth wahanol iawn o ran dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif, ac am y rheswm hwnnw, dylai fod yn fater i Weinidogion Cymru i gael y swyddogaeth y mae'r Bil yn ei gosod arnynt o ran apwyntiadau a chymeradwyo telerau.

I will also not be supporting amendment 9, which is not necessary. The Nolan principles for public appointments will apply to the non-executive members of the board, and these already require fair and open competition, and in the case of executive staff appointments, they will, in common with all civil servants, already be recruited through a fair and open competition.

Ni fyddaf ychwaith yn cefnogi gwelliant 9, nad yw'n angenrheidiol. Bydd egwyddorion Nolan ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn berthnasol i aelodau anweithredol y bwrdd, ac mae'r rhain eisoes yn gwneud cystadleuaeth deg ac agored yn ofynnol, ac yn achos penodiadau staff gweithredol, byddant, yn gyffredin â holl weision sifil, eisoes yn cael eu recriwtio drwy gystadleuaeth deg ac agored.

15:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay to reply.

Nick Ramsay i ateb.

15:46 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm sorry to hear that neither the Minister nor Plaid Cymru will be supporting this amendment today. As I said in opening, this amendment is part of an overall strategy to ensure that the new body is accountable to the National Assembly, and we believe that ensuring that independence is absolutely key for this body to work and to be accepted by the public. We also believe that the chairperson should be elected by the National Assembly. This is ultimately about achieving openness and transparency.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'n ddrwg gennyf glywed na fydd naill ai'r Gweinidog na Phlaid Cymru yn cefnogi'r gwelliant hwn heddiw. Fel y dywedais wrth agor, mae'r gwelliant hwn yn rhan o strategaeth gyffredinol i sicrhau bod y corff newydd yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac rydym yn credu bod sicrhau'r annibyniaeth honno yn gwbl allweddol ar gyfer y corff hwn i weithio ac i gael ei dderbyn gan y cyhoedd. Rydym hefyd yn credu y dylai'r cadeirydd gael ei ethol gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae hyn yn y pen draw yn ymwneud a chyflawni tryloywder a bod yn agored.

As I said before, I do appreciate the Minister's difficulties in this area, in that there is a difficult balance to be achieved between, on the one hand, appropriate ministerial direction and, on the other, arm's-length independence—that's never an easy balance to make. So, there are difficulties here. However, I believe that the amendment that the Welsh Conservatives have put forward does put on the face of the Bill the need for that independence to be achieved, and it does propose a way that it can be clarified. I urge the Assembly to support our amendment.

Fel y dywedais o'r blaen, rwy'n gwerthfawrogi anawsterau'r Gweinidog yn y maes hwn, gan fod cydbwysedd anodd ei gyflawni rhwng, ar y naill law, cyfeiriad gweinidogol priodol ac, ar y llaw arall, annibyniaeth hyd braich—nid yw hynny byth yn gydbwysedd hawdd ei gyflawni. Felly, mae anawsterau yma. Fodd bynnag, credaf fod y gwelliant y mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi ei gyflwyno yn rhoi ar wyneb y Bil yr angen i annibyniaeth gael ei gyflawni, ac mae yn cynnig ffordd y gellir ei egluro. Anogaf y Cynulliad i gefnogi ein gwelliant.

15:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 7 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 14, there voted against 35. Therefore, amendment 7 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 7 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 14 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 7 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 7: O blaid 14, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment 7 not agreed: For 14, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7.

Result of the vote on amendment 7.

15:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay, amendment 8.

Nick Ramsay, gwelliant 8.

*Cynigiwyd gwelliant 8 (Nick Ramsay).*

*Amendment 8 (Nick Ramsay) moved.*

15:47 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

15:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 8 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 35. Therefore, amendment 8 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 8 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 8 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 8: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment 8 not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8.

Result of the vote on amendment 8.

15:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay, amendment 9.

Nick Ramsay, gwelliant 9.

*Cynigiwyd gwelliant 9 (Nick Ramsay).*

*Amendment 9 (Nick Ramsay) moved.*

15:48 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

15:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 9 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 35. Therefore, amendment 9 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 9 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 9 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 9: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment 9 not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9.

Result of the vote on amendment 9.

15:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay, your amendment 10.

Nick Ramsay, eich gwelliant 10.

*Cynigiwyd gwelliant 10 (Nick Ramsay).* *Amendment 10 (Nick Ramsay) moved.*

15:48 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. Cynnig.

15:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 10 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 35. Therefore, amendment 10 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 10 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 10 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 10: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.* *Amendment 10 not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 10. Result of the vote on amendment 10.

15:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay, amendment 11. Nick Ramsay, gwelliant 11.

*Cynigiwyd gwelliant 11 (Nick Ramsay).* *Amendment 11 (Nick Ramsay) moved.*

15:48 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. Cynnig.

15:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 11 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 35. Therefore, amendment 11 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 11 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 11 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 11: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.* *Amendment 11 not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 11. Result of the vote on amendment 11.

15:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay, amendment 12. Nick Ramsay, gwelliant 12.

*Cynigiwyd gwelliant 12 (Nick Ramsay).* *Amendment 12 (Nick Ramsay) moved.*

15:49 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. Cynnig.

15:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 12 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 35. Therefore, amendment 12 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 12 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 12 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 12: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.* *Amendment 12 not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 12.] [Result of the vote on amendment 12.]

15:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 1. | Weinidog, gwelliant 1.

*Cynigiwyd gwelliant 1 (Jane Hutt, gyda chefnogaeth Nick Ramsay).* | *Amendment 1 (Jane Hutt, supported by Nick Ramsay) moved.*

15:49 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. | Cynnig.

15:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 1 be agreed. Does any Member object? Then amendment 1 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* | *Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay, amendment 13. | Nick Ramsay, gwelliant 13.

*Cynigiwyd gwelliant 13 (Nick Ramsay).* | *Amendment 13 (Nick Ramsay) moved.*

15:49 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move. | Cynnig.

15:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 13 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 35. Therefore, amendment 13 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 13 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 13 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 13: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.* | *Amendment 13 not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 13.] [Result of the vote on amendment 13.]

15:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay, amendment 14. | Nick Ramsay, gwelliant 14.

*Cynigiwyd gwelliant 14 (Nick Ramsay).* | *Amendment 14 (Nick Ramsay) moved.*

15:50 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move. | Rwy’n cynnig.

15:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 14 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 35. Therefore, amendment 14 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 14 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 14 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 14: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment 14 not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 14.

Result of the vote on amendment 14.

**Grŵp 3: Gweithdrefnau (Gwelliannau 15, 16)**

**Group 3: Procedures (Amendments 15, 16)**

15:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The next group of amendments relates to procedures. The lead amendment in this group is amendment 15, and I call on Nick Ramsay to move and speak to the lead amendments and the other amendment in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â gweithdrefnau. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 15, a galwaf ar Nick Ramsay i gynnig a siarad am y prif welliannau a'r gwelliant arall yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 15 (Nick Ramsay).*

*Amendment 15 (Nick Ramsay) moved.*

15:50

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm pleased to move amendment 15, the lead amendment in group 3. This amendment is based on recommendation 10 of the Finance Committee's report that the Welsh revenue authority should produce a publication scheme and that all decisions taken by committees and sub-committees of the authority should be made publicly available. If there is a valid reason not to publish a decision, the reasons for this should be made publicly available, in accordance with the publication scheme. Ultimately, in accordance with recommendation 10 of the Finance Committee report, Welsh Conservatives want to ensure transparency is legislated into every aspect of the new body.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch i gynnig gwelliant 15, y prif welliant yn grŵp 3. Mae'r gwelliant hwn yn seiliedig ar argymhelliad 10 adroddiad y Pwyllgor Cyllid y dylai awdurdod cyllid Cymru lunio cynllun cyhoeddi ac y dylid sicrhau bod yr holl benderfyniadau a wneir gan bwyllgorau ac is-bwyllgorau'r awdurdod ar gael i'r cyhoedd. Os oes rheswm dilys dros beidio â chyhoeddi penderfyniad, dylai'r rhesymau am hyn eu rhoi ar gael i'r cyhoedd, yn unol â'r cynllun cyhoeddi. Yn y pen draw, yn unol ag argymhelliad 10 adroddiad y Pwyllgor Cyllid, mae'r Ceidwadwyr Cymreig eisiau sicrhau bod tryloywder yn cael ei ddeddfu i bob agwedd ar y corff newydd.

15:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister.

Weinidog.

15:51

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Amendment 15 is unnecessary as section 10 already provides the Welsh revenue authority with a sufficiently wide discretion in relation to its procedural rules to do what the amendment envisages. There is no need for the Bill to include express wording along the lines set out in the amendment.

Mae gwelliant 15 yn ddiangen gan fod adran 10 eisoes yn darparu disgresiwn digon eang i awdurdod cyllid Cymru o ran ei reolau gweithdrefnol i wneud yr hyn y mae'r gwelliant yn ei ragweld. Nid oes angen i'r Bil gynnwys geiriad penodol ar y llinellau a nodir yn y gwelliant.

Amendment 16 is also unnecessary as the Freedom of Information Act 2000 already requires the WRA to have a publication scheme.

Mae gwelliant 16 hefyd yn ddiangen gan fod Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyllid Cymru fod â chynllun cyhoeddi.

15:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Nick Ramsay to reply.

Nick Ramsay i ateb.

15:51 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Thank you. I'm sorry that the Minister feels unable to accept this amendment, which is geared at increasing openness and transparency in the operation of the new authority. I'm sure we'd all agree it's essential that the new body is not just open and transparent, but is seen to be. I do hear what the Minister is saying about other Acts and their impingement on this Act. However, I think it is so important that we get this process right at the start, and believe that this amendment enhances the openness of the Bill, so I wish to ask for it to be supported.

Diolch. Mae'n ddrwg gennyf fod y Gweinidog yn teimlo na all dderbyn y gwelliant hwn, sydd â'r nod o gynyddu tryloywder a bod yn agored wrth weithredu'r awdurdod newydd. Rwy'n siŵr y byddem i gyd yn cytuno ei bod yn hanfodol bod y corff newydd nid yn unig yn agored ac yn dryloyw, ond ei fod yn cael ei weld i fod yn hynny. Rwyf yn clywed yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud am Ddeddfau eraill a'u gwrthdrawiad â'r Ddeddf hon. Fodd bynnag, credaf ei bod mor bwysig ein bod yn cael y broses hon yn iawn ar y dechrau, ac rwyf yn credu bod y gwelliant hwn yn gwella natur agored y Bil, felly hoffwn ofyn am iddo gael ei gefnogi.

Senedd.tv Fideo Video

15:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 15 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 35. Therefore, amendment 15 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 15 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 15 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 15: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment 15 not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 15.

Result of the vote on amendment 15.

Senedd.tv Fideo Video

15:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Nick Ramsay, amendment 16.

Nick Ramsay, gwelliant 16.

*Cynigiwyd gwelliant 16 (Nick Ramsay).*

*Amendment 16 (Nick Ramsay) moved.*

Senedd.tv Fideo Video

15:52 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

I move.

Rwy'n cynnig.

Senedd.tv Fideo Video

15:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 16 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 35. Therefore, amendment 16 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 16 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 16 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 16: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment 16 not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 16.

Result of the vote on amendment 16.

Senedd.tv Fideo Video

### Grŵp 4: Annibyniaeth ACC (Gwelliannau 17, 18)

### Group 4: Independence of WRA (Amendments 17, 18)

15:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The next group of amendments relates to the independence of the WRA. The lead amendment in this group is amendment 17. I call on Nick Ramsay to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud ag annibyniaeth awdurdod cyllid Cymru. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 17. Galwaf ar Nick Ramsay i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliant arall yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 17 (Nick Ramsay).*

*Amendment 17 (Nick Ramsay) moved.*

Senedd.tv Fideo Video

15:53 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Group 4 specifically relates to the need for independence in the establishment and operation of the new Welsh revenue authority. The Welsh Conservative amendment, my amendment, seeks to restrict the level of control that the Welsh Government can exercise over the new body—control that we feel could otherwise develop into interference and intervention.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae grŵp 4 yn ymwneud yn benodol â'r angen am annibyniaeth wrth sefydlu a gweithredu awdurdod cyllid newydd Cymru. Mae gwelliant y Ceidwadwyr Cymreig, fy ngwelliant i, yn ceisio cyfyngu ar lefel y rheolaeth y gall Llywodraeth Cymru ei harfer dros y corff newydd—reolaeth yr ydym yn teimlo y gallai fel arall ddatblygu yn ymyrraeth ac ymyriad.

The independence of the body needs to be explicit on the face of the Bill. Again, this is a question of achieving the right balance between giving guidance to the new authority and also allowing it freedom to operate in an unprejudiced manner. This is not, I accept, an easy balance to get right, but, as I've said before, it's one that has to be achieved, and we believe that this amendment and the subsequent amendments do achieve this. I urge the Chamber to support it.

Mae angen i annibyniaeth y corff fod yn eglur ar wyneb y Bil. Unwaith eto, mae hwn yn gwestiwn o gyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng rhoi arweiniad i'r awdurdod newydd a chaniatáu'r rhyddid iddo hefyd i weithredu mewn modd diragfarn. Nid yw hwn, rwy'n derbyn, yn gydbwysedd hawdd ei gael yn iawn, ond, fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, mae'n un y mae'n rhaid ei gyflawni, ac rydym yn credu bod y gwelliant hwn a'r gwelliannau dilynol yn cyflawni hyn. Rwy'n annog y Siambr i'w gefnogi.

15:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Eluned Parrott.

Eluned Parrott.

15:54 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. My group will be supporting the amendments in this group. We believe that enshrining the independence of the Welsh revenue authority on the face of the Bill is an opportunity to state very clearly how we expect that authority to be operated in the future, and it's crucial to its ability to operate as intended without political interference. Whilst we are sure that no-one would suggest that the current Government would behave in such an undemocratic way, we do have to legislate for all possible futures. We do not know the character of future Governments, and so this is a safety net that enables us to state very clearly that this is the principle upon which we expect the current and future taxation powers of this place to be conducted.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Bydd fy ngrŵp i yn cefnogi'r gwelliannau yn y grŵp hwn. Rydym yn credu bod corffori annibyniaeth awdurdod cyllid Cymru ar wyneb y Bil yn gyfle i ddatgan yn glir iawn sut y disgwyliwn i'r awdurdod hwnnw gael ei weithredu yn y dyfodol, ac mae'n hanfodol i'w allu i weithredu fel y bwriedir, heb ymyrraeth wleidyddol. Er ein bod yn sicr na fyddai unrhyw un yn awgrymu y byddai'r Llywodraeth bresennol yn ymddwyn mewn ffordd mor annemocrataidd, mae'n rhaid i ni ddeddfu ar gyfer pob dyfodol posibl. Nid ydym yn gwybod cymeriad Llywodraethau'r dyfodol, ac felly mae hon yn rhwyd ddiogelwch sy'n ein galluogi i ddatgan yn glir iawn mai dyma'r egwyddor yr ydym yn disgwyl i bwerau trethu presennol a dyfodol y lle hwn gael eu cynnal arni.

15:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister.

Weinidog.

15:55 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I've indicated previously, the operational independence of the WRA is key, and the Bill does ensure that the WRA has that operational independence. I reflected on the committee's comments in its Stage 1 report concerning any ministerial general directions that might be given. As a consequence, I brought forward an amendment at Stage 2, which was agreed. The Bill now provides that all directions given by the Welsh Ministers must be published. This will provide complete transparency, and goes further, in fact, than HMRC and Revenue Scotland. It will enable others to scrutinise any directions and the reasons why they are being given.

Fel yr wyf wedi nodi eisoes, mae annibyniaeth weithredol ACC yn allweddol, ac mae'r Bil yn sicrhau bod gan ACC yr annibyniaeth weithredol honno. Rwyf wedi myfyrio ar sylwadau'r pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1 ynghylch unrhyw gyfarwyddiadau gweinidogion cyffredinol y gellid eu rhoi. O ganlyniad, cyflwynais welliant yng Nghyfnod 2, a chytunwyd ar hyn. Mae'r Bil bellach yn darparu bod yn rhaid i bob cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru gael ei gyhoeddi. Bydd hyn yn darparu tryloywder llwyr, ac mae'n mynd ymhellach, mewn gwirionedd, na CThEM a Revenue Scotland. Bydd yn galluogi pobl eraill i graffu ar unrhyw gyfarwyddiadau a'r rhesymau pam y maent yn cael eu rhoi.

In relation to Nick Ramsay's amendments 17 and 18, I believe these amendments are inconsistent with the organisational model that I considered to be the most appropriate for tax collection and management in Wales. Furthermore, amendment 18 would provide less transparency than the Bill currently provides, in that it introduces circumstances where guidance given by the Welsh Ministers to the WRA would not be published. As such, I will not be supporting it.

O ran gwelliannau 17 a 18 Nick Ramsay, rwy'n credu bod y gwelliannau hyn yn anghyson â'r model sefydliadol yr oeddwn yn ystyried i fod y mwyaf priodol ar gyfer casglu a rheoli trethi yng Nghymru. Ymhellach, byddai gwelliant 18 yn darparu llai o dryloywder nag y mae'r Bil yn ei ddarparu ar hyn o bryd, gan ei fod yn cyflwyno amgylchiadau lle na fyddai canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru i ACC yn cael eu cyhoeddi. Fel y cyfryw, ni fyddaf yn ei gefnogi.

Tax collection is a function of Government, and the WRA will deliver Welsh Ministers' tax policy, and the Welsh Ministers need the scope to be able to give strategic direction, not guidance, to the WRA on their tax policy and priorities. To this end, section 15 of the Bill allows the Welsh Ministers to give general directions, in the same way that the Treasury can give general directions to HMRC. It does not, however, allow the Welsh Ministers to provide any specific direction to the WRA.

Mae casglu'r dreth yn swyddogaeth Llywodraeth, a bydd ACC yn cyflwyno polisi treth Gweinidogion Cymru, ac mae angen i Weinidogion Cymru gael y cwmpas i fod yn gallu rhoi cyfarwyddyd strategol, nid canllawiau, i ACC ar ei bolisïau treth a'i flaenoriaethau. I'r perwyl hwn, mae adran 15 y Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau cyffredinol, yn yr un modd ag y gall y Trysorlys roi cyfarwyddiadau cyffredinol i Gyllid a Thollau EM. Nid yw, fodd bynnag, yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi unrhyw gyfarwyddyd penodol i ACC.

It's important, in terms of the way in which we are directing this, having considered arrangements that we scrutinised and consulted on, that my preference is to remain consistent with the well-established HMRC model, although with a much greater degree of transparency, because Welsh Ministers will be under a duty to publish all directions.

Mae'n bwysig, o ran y ffordd yr ydym yn cyfarwyddo hyn, wedi ystyried trefniadau y buom yn craffu ac yn ymgynghori arnynt, mai fy newis i yw aros yn gyson â'r model CThEM sydd wedi'i hen sefydlu, er gyda llawer mwy o dryloywder, oherwydd bydd Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i gyhoeddi pob cyfarwyddyd.

15:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay to reply.

Nick Ramsay i ateb.

15:57 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I thank the Minister for those comments. I have had discussions with her about this amendment, and I do appreciate some of the concerns about the amendment actually working opposite to what we originally intended. However, after much thought about it, I do think that, as Eluned Parrott said in her contribution, putting transparency on the face of the Bill at the outset does have a benefit, so I will push forward with this amendment. At the end of the day, this is about achieving independence for the new authority. We believe that this group of amendments adds to the Bill, and I wish to move the lead amendment.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r Gweinidog am y sylwadau yna. Rwyf wedi cael trafodaethau gyda hi am y gwelliant hwn, ac rwy'n gwerthfawrogi rhai o'r pryderon am y gwelliant yn gweithio mewn gwirionedd yn groes i'r hyn a fwriadwyd gennym yn wreiddiol. Fodd bynnag, ar ôl llawer o feddwl am y peth, rwy'n credu, fel y dywedodd Eluned Parrott yn ei chyfraniad, bod rhai manteision mewn rhoi tryloywder ar wyneb y Bil o'r cychwyn, felly byddaf yn gwthio ymlaen â'r gwelliant hwn. Yn y pen draw, mae hyn yn ymwneud â chyflawni annibyniaeth ar gyfer yr awdurdod newydd. Rydym yn credu bod y grŵp hwn o welliannau yn ychwanegu at y Bil, ac rwy'n dymuno cynnig y prif welliant.

15:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 17 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 35. Therefore, amendment 17 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 17 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 17 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 17: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment 17 not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 17.

Result of the vote on amendment 17.

### Grŵp 5: Swyddogaethau Dirprwyedig ACC (Gwelliannau 4, 5)

### Group 5: WRA Delegated Functions (Amendments 4, 5)

15:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The next group of amendments relates to the WRA delegated functions. The lead amendment in this group is amendment 4, tabled in the name of Peter Black. I call on Eluned Parrott to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â swyddogaethau dirprwyedig ACC. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 4, a gyflwynwyd yn enw Peter Black. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig a siarad am y gwelliant arweiniol a'r gwelliant arall yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 4 (Peter Black).*

*Amendment 4 (Peter Black) moved.*

15:58 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. In designing a system that's based in Wales and serving Wales, we have an opportunity to ensure that it truly reflects our own priorities and needs. However, I have concerns about the level of customer service that the WRA will provide, especially to its Welsh-speaking customers.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wrth ddylunio system sy'n seiliedig yng Nghymru ac yn gwasanaethu Cymru, mae gennym gyfle i sicrhau ei fod wir yn adlewyrchu ein blaenoriaethau a'n hanghenion ein hunain. Fodd bynnag, mae gennyf bryderon am lefel y gwasanaeth i gwsmeriaid y bydd ACC yn ei ddarparu, yn enwedig i'w gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg.

As services may not sit solely with the WRA but also with delegated bodies, I believe that duties should apply to them equally. Following recommendation 14 from the Finance Committee's report, these amendments ensure that the WRA's statement of service standards guarantees provision in the medium of Welsh as well as English. I believe it's crucial that we make it explicit on the face of the Bill that service standards guaranteeing access to tax expertise and support through the Welsh language is a priority for us. We would expect that the Welsh revenue authority will ensure that any delegation of functions puts the Welsh language at the centre of the service that they provide.

Oherwydd efallai na fydd gwasanaethau yn eistedd gydag ACC yn unig ond hefyd gyda chyrff a ddirprwywyd, rwy'n credu y dylai dyletswyddau fod yn berthnasol iddynt hwy yn gyfartal. Yn dilyn argymhelliad 14 adroddiad y Pwyllgor Cyllid, mae'r gwelliannau hyn yn sicrhau bod datganiad ACC o safonau gwasanaeth yn gwarantu darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Rwy'n credu ei bod yn hanfodol ein bod yn ei wneud yn glir ar wyneb y Bil bod safonau gwasanaeth sy'n gwarantu mynediad at arbenigedd a chymorth treth drwy gyfrwng y Gymraeg yn flaenoriaeth i ni. Byddem yn disgwyl y bydd awdurdod cyllid Cymru yn sicrhau bod unrhyw ddirprwyo o swyddogaethau yn rhoi'r iaith Gymraeg wrth wraidd y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu.

I have noted the evidence given in committee by the Minister, and the suggestion that she does not feel that it's appropriate or necessary to impose a separate legal duty of this sort on a delegated body, noting the Welsh Language (Wales) Measure 2011 and the Welsh Language Commissioner. However, I would respectfully suggest that we all will have awareness of constituents who have struggled to gain support and advice from HMRC in the medium of Welsh, and HMRC may well be one of the delegated bodies asked to work on our behalf. I would respectfully suggest that this is now an opportunity for us to set a clear future expectation that any organisation collecting taxes on behalf of Wales will be able to provide the level of service in both of our languages that we would expect.

Rwyf wedi nodi'r dystiolaeth a roddwyd yn y pwyllgor gan y Gweinidog, a'r awgrym nad yw hi'n teimlo ei bod yn briodol neu'n angenrheidiol i osod dyletswydd gyfreithiol ar wahân o'r math hwn ar gorff dirprwyedig, gan nodi Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Chomisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag, byddwn yn awgrymu'n barchus y bydd gennym i gyd ymwybyddiaeth o etholwyr sydd wedi cael trafferth i gael cefnogaeth a chyngor gan Gyllid a Thollau EM trwy gyfrwng y Gymraeg, a gall Cyllid a Thollau EM wir fod yn un o'r cyrff a ddirprwywyd y gofynnir iddynt weithio ar ein rhan. Byddwn yn barchus yn awgrymu bod hyn yn awr yn gyfle i ni osod disgwyliad clir i'r dyfodol y bydd unrhyw sefydliad sy'n casglu trethi ar ran Cymru yn gallu darparu'r lefel o wasanaeth yn y ddwy iaith y byddem yn ei ddisgwyl.

16:00 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n bwriadu cefnogi'r gwelliant sydd wedi cael ei osod yn enw Peter Black. Mae unrhyw un sydd wedi delio â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi trwy gyfrwng y Gymraeg wedi gorfod dioddef gwasanaeth eilradd ac israddol yn amlach na pheidio. Mi ddylwn i yn fan hyn ganmol gwaith y ganolfan ardderchog ym Mhorthmadog. Yn anffodus, mae'r ganolfan honno yn mynd i gau, yn ôl cynlluniau'r Llywodraeth yn Llundain, ac mae'r arbenigedd sydd wedi cronni yno dros y blynyddoedd yn mynd i gael ei golli. Yn anffodus beth bynnag, nid wyf yn cael delio â staff ardderchog y ganolfan honno am wahanol resymau. Felly, nid wyf yn credu y gallwn ni ddweud y bydd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ddigonol i sicrhau gwasanaeth trwyadl dwyieithog yn y maes yma, ac felly rwy'n credu y byddai'n fuddiol tanlinellu ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau gwasanaeth dwyieithog llawn i bobl sy'n delio ag awdurdod refeniw Cymru, a dyna pam rwy'n cefnogi gwelliant Peter Black. Diolch yn fawr.

I intend to support Peter Black's amendment. Anyone who's dealt with HMRC through the medium of Welsh has had to suffer a secondary and substandard service more often than not. I should praise, here, the work of the excellent centre in Porthmadog. Unfortunately, that centre's going to close, according to the UK Government's plans, and the expertise that has been accumulated there over the years will be lost. Unfortunately, however, I cannot deal with the excellent staff at that centre, for different reasons. Therefore, I don't believe that we can say that the Welsh Language Act 1993 will be sufficient to ensure a bilingual service in this area, and, therefore, I believe that it would be beneficial to underline the commitment of the Government to ensure a full bilingual service for the people who want to deal with WRA, and that is why I support Peter Black's amendment. Thank you very much.

16:01 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Following the Finance Committee's original Stage 1 recommendation and subsequent discussion at Stage 2, I have reflected further on what the Bill includes in relation to WRA service standards. As a consequence, I have tabled amendments 2 and 3, which we will discuss in the next group, proposing that the charter prepared by the WRA under section 26 must now include service standards as well as standards of behaviour and values to which the WRA is expected to adhere. It's important to note that my amendments ensure that service standards are set for the WRA and, as such, their application will not be limited to circumstances where functions are being delegated.

Yn dilyn argymhelliad gwreiddiol Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid a thrafodaeth ddilynol yng Nghyfnod 2, rwyf wedi myfyrio ymhellach ar yr hyn y mae'r Bil yn ei gynnwys ynglŷn â safonau gwasanaeth ACC. O ganlyniad, rwyf wedi cyflwyno gwelliannau 2 a 3, y byddwn yn eu trafod yn y grŵp nesaf, yn cynnig bod yn rhaid i'r siarter a baratowyd gan ACC o dan adran 26 bellach gynnwys safonau gwasanaeth yn ogystal â safonau ymddygiad a gwerthoedd y disgwylir i ACC lynu wrthynt. Mae'n bwysig nodi bod fy ngwelliannau yn sicrhau bod safonau gwasanaeth yn cael eu gosod ar gyfer ACC ac, fel y cyfryw, ni fydd eu cymhwyso yn cael ei gyfyngu i amgylchiadau pan fo swyddogaethau yn cael eu dirprwyo.

Peter Black has tabled amendments 4 and 5 to put a duty on the WRA to prepare a statement of service standards, including Welsh language standards prior to delegating any of its functions. The amendments mirror those Peter tabled, of course, at Stage 2. I did say at that time that the WRA will remain legally responsible for the exercise of its functions even when such functions have been delegated to another body. The Bill makes this clear at section 14(6)(b). As such, the responsibility for service standards will apply equally to WRA and anyone undertaking delegated functions on its behalf. Furthermore, WRA will be subject to the requirements of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 and the relevant standards set under it. Those standards will apply equally to anybody delegated under section 14.

Mae Peter Black wedi cyflwyno gwelliannau 4 a 5 i osod dyletswydd ar ACC i baratoi datganiad o safonau gwasanaeth, gan gynnwys safonau iaith Gymraeg cyn dirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau. Mae'r gwelliannau yn adlewyrchu'r rhai a gyflwynodd Peter, wrth gwrs, yng Nghyfnod 2. Dywedais ar y pryd y bydd awdurdod cyllid Cymru yn parhau i fod yn gyfreithiol gyfrifol am arfer ei swyddogaethau, hyd yn oed pan fydd swyddogaethau o'r fath wedi eu dirprwyo i gorff arall. Mae'r Bil yn gwneud hyn yn glir yn adran 14 (6) (b). Fel y cyfryw, bydd y cyfrifoldeb am safonau gwasanaeth yr un mor berthnasol i ACC ag i unrhyw un sy'n ymgymryd â swyddogaethau dirprwyedig ar ei ran. Yn ogystal, bydd ACC yn ddarostyngedig i ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r safonau perthnasol a osodir oddi tano. Bydd y safonau hynny yr un mor berthnasol i unrhyw un gaiff ei ddirprwyo o dan adran 14.

16:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Eluned Parrott to reply.

Eluned Parrott i ateb.

16:03 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for her answer, but I would ask: is this a priority for us? We have to ask that question. Let us demonstrate our commitment in this instance and put this on the face of the Bill. This is an amendment that does no harm to the functions of the Bill, but it may do some good in outlining our absolute commitment to the Welsh language as a means for people to communicate with Welsh public bodies. And, as we have already stated, we are concerned that, despite the duties that are already on public bodies in Wales when it comes to cross-border services that are delivered by bodies that are based largely or wholly in England, those services have fallen down. They have not provided us with what we need. I would ask you to reconsider, Minister.

Rwy'n diolch i'r Gweinidog am ei hateb, ond byddwn yn gofyn: a yw hyn yn flaenoriaeth i ni? Mae'n rhaid i ni ofyn y cwestiwn hwnnw. Gadewch i ni ddangos ein hymrwymiad yn yr achos hwn a rhoi hyn ar wyneb y Bil. Mae hwn yn welliant nad yw'n gwneud unrhyw niwed i swyddogaethau'r Bil, ond gall wneud rhywfaint o ddaioni o ran amlinellu ein hymrwymiad llwyr i'r Gymraeg fel modd i bobl gyfathrebu â sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru. Ac, fel yr ydym eisoes wedi ei nodi, rydym yn pryderu, er gwaethaf y dyletswyddau sydd eisoes ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru pan ddaw at wasanaethau trawsffiniol a ddarperir gan gyrff sydd â'u cartref yn bennaf neu'n gyfan gwbl yn Lloegr, mae'r gwasanaethau hynny wedi methu. Nid ydynt wedi rhoi i ni yr hyn yr ydym ei angen. Byddwn yn gofyn ichi ailystyried, Weinidog.

16:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 4 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 35. Therefore, amendment 4 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 4 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 4 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 4: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment 4 not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4.

Result of the vote on amendment 4.

16:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Eluned Parrott, amendment 5.

Eluned Parrott, gwelliant 5.

*Cynigiwyd gwelliant 5 (Peter Black).*

*Amendment 5 (Peter Black) moved.*

16:04 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 5 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24, there voted against 26. Therefore, amendment 5 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 5 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid, pleidleisiodd 26 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 5 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 5: O blaid 24, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment 5 not agreed: For 24, Against 26, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5.

Result of the vote on amendment 5.

16:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay, amendment 18.

Nick Ramsay, gwelliant 18.

*Cynigiwyd gwelliant 18 (Nick Ramsay).*

*Amendment 18 (Nick Ramsay) moved.*

16:04 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

16:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 18 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 35. Therefore, amendment 18 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 18 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 18 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 18: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment 18 not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 18.

Result of the vote on amendment 18.

### Grŵp 6: Siarter o Safonau a Gwerthoedd (Gwelliannau 19, 2, 20, 21, 22, 3)

### Group 6: Charter of Standards and Values (Amendments 19, 2, 20, 21, 22, 3)

16:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relates to the charter of standards and values. The lead amendment in this group is amendment 19. I call on Nick Ramsay to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â'r siarter safonau a gwerthoedd. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 19. Galwaf ar Nick Ramsay i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 19 (Nick Ramsay).*

*Amendment 19 (Nick Ramsay) moved.*

16:05 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As members of the Finance Committee will know, I took a keen interest—probably obsessional, actually—in the development of the charter of standards during the progress of this Bill and the compilation of the report. I believe there’s a real chance here to develop a charter that works and that delivers a better level of service for the taxpayer in Wales— potentially even better than that which they get at the moment. And the odds might be against this, but this must be our aim.

Fel y bydd aelodau o'r Pwyllgor Cyllid yn gwybod, cymerais ddiddordeb brwd— obsesiynol yn ôl pob tebyg, mewn gwirionedd—yn natblygiad y siarter safonau yn ystod hynt y Bil hwn a llunio'r adroddiad. Rwy'n credu bod cyfle gwirioneddol yma i ddatblygu siarter sy'n gweithio ac sy'n darparu lefel gwell o wasanaeth i drethdalwyr yng Nghymru—o bosibl hyd yn oed yn well na'r hyn y maent yn ei gael ar hyn o bryd. Efallai bod hyn yn anhebygol, ond mae'n rhaid i hyn fod ein nod.

There is considerable concern amongst the public—well, those of the public who are aware of tax devolution at any rate—about the consequences of a number of taxes coming to Wales, and the potential for confusion and disruption in terms of the collection of those taxes. Amendment 19 seeks a quality service for the taxpayer in its application to delegated bodies with responsibility for the collection and management of taxes. We support the Minister’s amendment 2 in this group.

Mae cryn bryder ymhlith y cyhoedd—wel, yr aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n ymwybodol o ddatganoli treth beth bynnag—am ganlyniadau nifer o drethi yn dod i Gymru, a'r potensial ar gyfer dryswch a tharfu o ran casglu rhai trethi. Mae gwelliant 19 yn ceisio gwasanaeth o ansawdd i'r trethdalwr wrth ei gymhwyso i gyrff dirprwyol sydd â chyfrifoldeb am gasglu a rheoli trethi. Rydym yn cefnogi gwelliant 2 y Gweinidog yn y grŵp hwn.

Can I welcome the Welsh Government’s commitment to replace the reference to ‘from time to time’ with a firm commitment to a review at least once in the first five years of being published, and then at least once in the period of five years following a review? We accept that, but our amendment goes further, in the sense that the charter is reviewed as swiftly and as soon as operations take effect. It is absolutely critical, as I’ve pointed out in the previous debates, that the new Welsh revenue authority applies the standards of behaviour and values set out in the charter from the outset; we can’t afford to get this wrong.

A gaf i groesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddisodli’r cyfeiriad at 'o bryd i'w gilydd' gydag ymrwymiad cadarn i adolygiad o leiaf unwaith yn y pum mlynedd cyntaf ar ôl ei gyhoeddi, ac yna o leiaf unwaith yn y cyfnod o bum mlynedd yn dilyn adolygiad? Rydym yn derbyn hynny, ond mae ein gwelliant yn mynd ymhellach, yn yr ystyr bod y siarter yn cael ei adolygu mor gyflym a chyn gynted ag y daw gweithrediadau i rym. Mae'n gwbl hanfodol, gan fy mod i wedi tynnu sylw at y ffaith yn y dadleuon blaenorol, bod awdurdod refeniw newydd Cymru yn cymhwyso'r safonau ymddygiad a’r gwerthoedd a nodir yn y siarter o'r cychwyn cyntaf; ni allwn fforddio cael hyn yn anghywir.

I wish to withdraw amendment 21. I'm content that the changes made at Stage 2 are adequate to ensure that the charter is reviewed every three months.

Hoffwn dynnu gwelliant 21 yn ôl. Rwy'n fodlon bod y newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2 yn ddigonol i sicrhau bod y siarter yn cael ei adolygu bob tri mis.

Amendment 22 seeks to bolster the charter, amending the Bill to ensure it is itself laid before this Assembly, and also that it is made publicly available so that taxpayers have easy access to the document and can hold it up against the service they receive.

Mae gwelliant 22 yn ceisio atgyfnerthu'r siarter, gan ddiwygio'r Bil i sicrhau ei fod ei hun yn cael ei osod gerbron y Cynulliad hwn, a hefyd ei fod ar gael i'r cyhoedd fel bod trethdalwyr yn cael mynediad hawdd at y ddogfen ac y gallant ei chymharu â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn.

16:07

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Dim ond siarad yn fyr i welliant 22 Nick Ramsay. Rydym ni wedi bod yn gwrthwynebu gwelliannau Nick yn gyffredinol gan ein bod ni'n credu mai corff ydy hwn sydd yn rhan o'r Llywodraeth ond, wrth gwrs, mae'n atebol, mewn ffordd, i'r Cynulliad, ac mae angen i'r Cynulliad ffeindio dulliau o'i sgrwtineiddio. Rwy'n credu bod y gwelliant yma yn tanlinellu bod yn rhaid i'r awdurdod fod yn atebol i gael ei sgrwtineiddio gan y Cynulliad, ac yn hynny o beth rydym yn gefnogol iddo fo.

I just wanted to speak briefly to amendment 22 in the name of Nick Ramsay. We have opposed Nick's amendments, generally speaking, because we do believe that this is an authority that is a part of Government, but of course it is accountable, in a way, to the Assembly, and the Assembly needs to find ways of scrutinising its activities. I think that this amendment does underline the fact that the authority must be accountable and be scrutinised by the Assembly, and in that sense we are supportive of the amendment.

16:08

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Following the Finance Committee's original Stage 1 recommendation and subsequent discussion at Stage 2, I've reflected further on what the Bill includes in relation to WRA service standards. As I said in response to the previous group, and as a consequence, I've tabled amendments to ensure that the charter prepared by the WRA under section 26 must now include service standards, as well as standards of behaviour and values to which the WRA is expected to adhere.

Yn dilyn argymhelliad Cyfnod 1 gwreiddiol y Pwyllgor Cyllid a thrafodaeth ddilynol yn ystod Cyfnod 2, rwyf wedi myfyrio ymhellach ar yr hyn y mae'r Bil yn ei gynnwys ynglŷn â safonau gwasanaeth ACC. Fel y dywedais mewn ymateb i'r grŵp blaenorol, ac o ganlyniad, rwyf wedi cyflwyno gwelliannau i sicrhau bod yn rhaid i'r siarter a baratowyd gan awdurdod cyllid Cymru dan adran 26 bellach gynnwys safonau gwasanaeth, yn ogystal â safonau ymddygiad a gwerthoedd y disgwylir i ACC lynu wrthynt.

I've also tabled a consequential amendment to ensure that the annual report prepared by the WRA under section 28 must include an assessment of the extent to which, during the financial year, WRA has demonstrated the service standards. And I considered that this reporting requirement is key, and that the WRA is under a duty to lay its annual report before the Assembly, and therefore the opportunity for scrutiny has been provided.

Rwyf hefyd wedi cyflwyno gwelliant canlyniadol i sicrhau bod yn rhaid i'r adroddiad blynyddol a baratoir gan awdurdod cyllid Cymru o dan adran 28 gynnwys asesiad o i ba raddau y mae, yn ystod y flwyddyn ariannol, ACC wedi arddangos y safonau gwasanaeth. Ac roeddwn yn ystyried bod y gofyniad adrodd hwn yn allweddol, a bod awdurdod cyllid Cymru dan ddyletswydd i osod ei adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad, ac felly mae'r cyfle i graffu wedi ei ddarparu.

I'd also like to reiterate that whilst WRA may delegate its functions, it will still retain responsibility for the exercise of its functions as set out in section 14(6)(b) of the Bill. As such, the responsibility for service standards will apply equally to WRA and anyone undertaking delegated functions on its behalf.

Hoffwn hefyd ailadrodd er y gall ACC ddirprwyo ei swyddogaethau, bydd yn dal yn cadw cyfrifoldeb am arfer ei swyddogaethau fel y nodir yn adran 14 (6) (b) y Bil. Fel y cyfryw, bydd y cyfrifoldeb am safonau gwasanaeth yr un mor berthnasol i ACC ag i unrhyw un sy'n ymgymryd â swyddogaethau dirprwyedig ar ei ran.

Nick Ramsay rightly draws attention to the need to raise awareness of our new tax responsibilities, and it's essential that the new relationship between devolved taxes, taxpayers and the WRA can be positive and constructive to help facilitate tax compliance. In preparation for this, I launched my 'Welsh Taxes: A Conversation' engagement programme last week, which I referred to at Stage 2. I'm seeking the views of stakeholders on a range of issues relating to the Welsh revenue authority, including consideration of service standards and the approach and content of a taxpayers' charter.

Mae Nick Ramsay yn briodol yn tynnu sylw at yr angen i godi ymwybyddiaeth o'n cyfrifoldebau treth newydd, ac mae'n hanfodol bod y berthynas newydd rhwng trethi datganoledig, trethdalwyr ac ACC yn gadarnhaol ac yn adeiladol i helpu i hwyluso cydymffurfiad treth. I baratoi ar gyfer hyn, lansiais fy rhaglen ymgysylltu 'Trethi Cymru: Sgwrs' wythnos diwethaf, y cyfeiriais ati yng Nghyfnod 2. Rwy'n ceisio barn rhanddeiliaid ar ystod o faterion sy'n ymwneud ag awdurdod cyllid Cymru, gan gynnwys ystyried safonau gwasanaeth a dull a chynnwys siarter trethdalwyr.

Amendment 19 requires that the charter will provide for a quality service for the taxpayer. I believe this amendment is unnecessary because section 26 already allows WRA to include provision for a quality service in the charter.

Mae gwelliant 19 yn ei gwneud yn ofynnol bod y siarter yn darparu ar gyfer gwasanaeth o ansawdd i'r trethdalwr. Rwy'n credu bod y gwelliant hwn yn ddiangen oherwydd bod adran 26 eisoes yn caniatáu i ACC gynnwys darpariaeth ar gyfer gwasanaeth o ansawdd yn y siarter.

Amendment 20 seeks to ensure that the first review of the charter is undertaken within 12 months. It will take time for the charter to bed in and create the positive culture between tax authority and taxpayers that we're looking for. Changing it after a year will not enable that relationship to develop. I believe also that this is overly burdensome on the WRA and urge the Assembly not to vote for this amendment.

Mae gwelliant 20 yn ceisio sicrhau bod adolygiad cyntaf y siarter yn cael ei gynnal o fewn 12 mis. Bydd yn cymryd amser i'r siarter ymwreiddio a chreu'r diwylliant cadarnhaol rhwng awdurdod treth a threthdalwyr yr ydym yn chwilio amdano. Ni fydd ei newid ar ôl blwyddyn yn galluogi'r berthynas honno i ddatblygu. Credaf hefyd fod hyn yn rhy feichus ar ACC ac rwy'n annog y Cynulliad i beidio â phleidleisio dros y gwelliant hwn.

Amendment 22 creates a duty for the WRA to publish an annual report on the charter. Again, this amendment is unnecessary, because section 28 already requires the WRA to publish an annual report, which must include an assessment of the extent to which it has demonstrated the standards and values set out in the charter. The annual reporting is in addition to the five-yearly reviews required under section 26(3)(b) of the Bill.

Mae gwelliant 22 yn creu dyletswydd i ACC gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y siarter. Eto, mae'r gwelliant hwn yn ddiangen, gan fod adran 28 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i ACC gyhoeddi adroddiad blynyddol, y mae'n rhaid iddo gynnwys asesiad o i ba raddau y mae wedi arddangos y safonau a'r gwerthoedd a nodir yn y siarter. Mae'r adroddiadau blynyddol yn ychwanegol at yr adolygiadau pum mlynedd sy'n ofynnol o dan adran 26 (3)(b) y Bil.

16:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Nick Ramsay to reply.

Nick Ramsay i ateb.

16:11

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thanks, Deputy Presiding Officer. I suspect I'm not going to change the Minister's mind on this one, but there is actually more agreement here than might appear at first glance. I think the purpose of the amendments that have been put forward is to enhance the transparency and the openness of this new organisation at the outset, rather than us look back in the future and think, 'If only we'd done that at that point in time'. That's the spirit in which these amendments have been laid.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n amau nad wyf yn mynd i newid meddwl y Gweinidog ar yr un yma, ond mae mewn gwirionedd fwy o gytundeb yma nag y gallai ymddangos ar yr olwg gyntaf. Rwy'n meddwl mai diben y gwelliannau sydd wedi'u cynnig yw gwella tryloywder a pha mor agored y bydd y sefydliad newydd hwn ar y cychwyn, yn hytrach na'n bod ni yn edrych yn ôl yn y dyfodol ac yn meddwl, 'O na byddem wedi gwneud hynny ar yr adeg honno'. Dyna'r ysbryd y mae'r gwelliannau hyn wedi cael eu cyflwyno ynddo.

The nub of this, Minister, is that this charter can be a real success or it can be a failure. The committee took evidence and, let's be frank, there are lots of charters in this world that are not worth the paper they are written on. This charter can, and we believe should, be different. It certainly needs to be different because of the huge importance of getting this new Welsh revenue authority right.

Craidd hyn, Weinidog, yw y gall y siarter hwn fod yn llwyddiant gwirioneddol neu gall fod yn fethiant. Cymerodd y pwyllgor dystiolaeth a, gadewch i ni fod yn onest, mae llawer o siarteri yn y byd hwn nad ydynt werth y papur y maent wedi eu hysgrifennu arno. Gall y siarter hwn, ac rydym yn credu y dylai, fod yn wahanol. Yn sicr mae angen iddo fod yn wahanol oherwydd y pwysigrwydd enfawr o gael awdurdod cyllid Cymru newydd hwn yn iawn.

We can't afford—pardon the pun—to get this wrong. The charter needs to be strong, it needs to be kept under review, it needs to be adhered to—and we had enough discussions about that word in committee and about the differences between 'adhering to' and other competing words that could have been used—it needs to be transparent and it needs to be publicly available. I would urge Members to support these amendments in order to avoid this charter joining a list of charters that sat on dusty shelves and never really helped to deliver better service delivery anywhere.

Ni allwn fforddio—maddeuwch y gair mwys—cael hyn yn anghywir. Mae angen i'r siarter fod yn gryf, mae angen iddo gael ei gadw dan adolygiad, mae angen glynu ato—ac fe gawsom ddigon o drafodaethau am y gair hwnnw yn y pwyllgor ac am y gwahaniaethau rhwng 'glynu at' a geiriau eraill sy'n cystadlu y gellid bod wedi eu defnyddio—mae angen iddo fod yn dryloyw ac mae angen iddo fod ar gael i'r cyhoedd. Byddwn yn annog yr Aelodau i gefnogi'r gwelliannau hyn er mwyn osgoi gweld y siarter hwn yn ymuno â rhestr o siarteri oedd yn eistedd ar silffoedd llychlyd ac nad oeddent fyth o gymorth mawr i sicrhau cyflwyno gwasanaethau gwell mewn unrhyw le.

16:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 19 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25, voted against 25. In accordance with the relevant Standing Order, I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 19 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid, pleidleisiodd 25 yn erbyn. Yn unol â'r Rheol Sefydlog berthnasol, rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 19: O blaid 25, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment 19 not agreed: For 25, Against 25, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 19.

Result of the vote on amendment 19.

16:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 2.

Weinidog, gwelliant 2.

*Cynigiwyd gwelliant 2 (Jane Hutt).*

*Amendment 2 (Jane Hutt) moved.*

16:13 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is amendment 2 be agreed. Does any Member object? Then amendment 2 is agreed.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly caiff gwelliant 2 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay, amendment 20.

Nick Ramsay, gwelliant 20.

*Cynigiwyd gwelliant 20 (Nick Ramsay).*

*Amendment 20 (Nick Ramsay) moved.*

16:13 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 20 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, voted against 35. Therefore, amendment 20 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 20 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, ni chaiff gwelliant 20 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 20: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment 20 not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 20.

Result of the vote on amendment 20.

*Tynnwyd gwelliant 21 yn ôl.*

*Amendment 21 withdrawn.*

16:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nick Ramsay, amendment 22.

Nick Ramsay, gwelliant 22.

*Cynigiwyd gwelliant 22 (Nick Ramsay).*

*Amendment 22 (Nick Ramsay) moved.*

16:13 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 22 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25, voted against 25. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 22 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid, pleidleisiodd 25 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 22: O blaid 25, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment 22 not agreed: For 25, Against 25, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 22.

Result of the vote on amendment 22.

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 3.

Weinidog, gwelliant 3.

*Cynigiwyd gwelliant 3 (Jane Hutt).*

*Amendment 3 (Jane Hutt) moved.*

16:14 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 3 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 38, voted against 12. Therefore amendment 3 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 3 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 38 o blaid, pleidleisiodd 12 yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 3 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 3: O blaid 38, Yn erbyn 12, Ymatal 0.*

*Amendment 3 agreed: For 38, Against 12, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3.

Result of the vote on amendment 3.

## Grŵp 7: Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwelliant 6)

## Group 7: Standing Orders of the National Assembly for Wales (Amendment 6)

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The final group relates to Standing Orders of the National Assembly for Wales. The only amendment in this group is amendment 6, tabled in the name of Peter Black. I call on Eluned Parrott to move and to speak to the amendment.

Mae'r grŵp olaf yn ymwneud â Gorchmynion Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 6, a gyflwynwyd yn enw Peter Black. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig ac i siarad am y gwelliant.

*Cynigiwyd gwelliant 6 (Peter Black).*

*Amendment 6 (Peter Black) moved.*

16:14

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. This amendment has been tabled following recommendation 21 of the Finance Committee report, which received cross-party support at that time. The amendment states that the Bill should include provisions that enable the National Assembly to authorise a committee to scrutinise the Welsh revenue authority. The amendment makes provisions so that the Assembly can decide for itself how that scrutiny should be undertaken. I think it's important that there is provision in the Bill so that the Assembly can carry out that scrutiny and, if necessary, authorise a committee to carry out that scrutiny in the same way as, for example, the Finance Committee scrutinises the public services ombudsman's accounts and the Wales Audit Office accounts. The Minister will once again tell us, I think, that section 37 of the Government of Wales Act 2006 provides the Assembly with the powers to require a person to give evidence or documents and that our Standing Orders require that every area of Government and associated public bodies are subject to committee scrutiny. However, providing this provision on the face of the Bill will ensure that a committee carries out this function, ultimately strengthening the WRA and Welsh taxation.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'r gwelliant hwn wedi ei gyflwyno yn dilyn argymhelliad 21 adroddiad y Pwyllgor Cyllid, a gafodd gefnogaeth drawsbleidiol ar y pryd. Mae'r gwelliant yn nodi y dylai'r Bil gynnwys darpariaethau sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi pwyllgor i graffu ar awdurdod cyllid Cymru. Mae'r gwelliant yn gwneud darpariaethau fel y gall y Cynulliad benderfynu drosto'i hun sut y dylid cynnal y craffu hwnnw. Rwy'n credu ei fod yn bwysig bod darpariaeth yn y Bil fel y gall y Cynulliad wneud y craffu ac, os oes angen, awdurdodi pwyllgor i gynnal y craffu hwnnw yn yr un ffordd ag, er enghraifft, y mae'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar gyfrifon yr ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus a chyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd y Gweinidog unwaith eto yn dweud wrthym, rwy'n credu, bod adran 37 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu'r pwerau i'r Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i berson roi tystiolaeth neu ddogfennau a bod ein Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol bod pob maes o Lywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig yn destun craffu gan bwyllgor. Fodd bynnag, bydd darparu'r ddarpariaeth hon ar wyneb y Bil yn sicrhau bod pwyllgor yn cyflawni'r swyddogaeth hon, gan gryfhau ACC a threthi Cymru yn y pen draw.

The WRA is a statutory body: it's set up to deliver a particular function by an Act of the Assembly, and therefore I think it is right that this provision is detailed on the face of the Bill. The collection of taxes is no small matter. And, with future devolution, hopefully one that will become an increasingly significant part of this Assembly's work. I think it would be extraordinary to think that this body would be not subject to the same level of scrutiny as, for example, the Wales Audit Office. It signals, I would suggest, an expectation that this Assembly, however it may be composed in a few months' time, will assign a committee of the Assembly to carry out the scrutiny. Otherwise, we risk the scrutiny of the WRA slipping through the cracks.

Mae ACC yn gorff statudol: mae wedi ei sefydlu i ddarparu swyddogaeth benodol gan Ddeddf y Cynulliad, ac felly rwy'n meddwl ei bod yn iawn bod y ddarpariaeth hon yn cael ei manylu ar wyneb y Bil. Nid mater bach yw casglu trethi. A, gyda datganoli yn y dyfodol, gobeithio y bydd yn un a fydd yn dod yn rhan gynyddol bwysig o waith y Cynulliad hwn. Rwy'n credu y byddai'n anhygoel i feddwl na fyddai'r corff hwn yn ddarostyngedig i'r un lefel o graffu ag, er enghraifft, Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n arwydd, byddwn yn awgrymu, o ddisgwyliad y bydd y Cynulliad hwn, beth bynnag y bydd ei gyfansoddiad ymhen ychydig fisoedd, yn aseinio pwyllgor y Cynulliad i wneud y gwaith craffu. Fel arall, rydym mewn perygl o weld craffu ar awdurdod cyllid Cymru yn llithro drwy'r craciau.

16:16

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wish to support the amendment tabled in the name of Peter Black, moved by Eluned Parrott—it will be moved by her—based on Finance Committee recommendation 21. The Bill should undoubtedly include provision for the National Assembly or a relevant committee to scrutinise the new authority. Scrutiny is going to be a vital part of the process of people accepting this new body. As far as I'm concerned, we can't have enough scrutiny of the new Welsh revenue authority when it is established, and I think it is bizarre to make an argument against a committee here playing a leading role. I know that there will be arguments that this is already catered for and that this is unnecessary—'We don't need to do this'—and whatever way the Welsh Government wish to package this. But I think that, in saying those things, you undermine the process of scrutiny that we need for this authority, and I think it should be, as Eluned Parrott said, on the face of the Bill.

Hoffwn gefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd yn enw Peter Black, a gynigiwyd gan Eluned Parrott—bydd yn cael ei gynnig ganddi hi—yn seiliedig ar argymhelliad 21 y Pwyllgor Cyllid. Dylai'r Bil yn ddiamau gynnwys darpariaeth ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol neu bwyllgor perthnasol i graffu ar yr awdurdod newydd. Mae craffu yn mynd i fod yn rhan hanfodol o'r broses o bobl yn derbyn y corff newydd hwn. Cyn belled ag yr wyf i yn y cwestiwn, ni allwn gael digon o graffu ar yr awdurdod cyllid Cymru newydd pan gaiff ei sefydlu, ac rwy'n meddwl ei bod yn rhyfedd iawn i wneud dadl yn erbyn pwyllgor yma yn chwarae rhan flaenllaw. Gwn y bydd dadleuon y darperir eisoes ar gyfer hyn a bod hyn yn ddiangen—'Nid oes angen i ni wneud hyn'—a pha bynnag ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno pecynnu hwn. Ond rwy'n credu, wrth ddweud y pethau hynny, y byddwch yn tanseilio'r broses o graffu sydd ei angen arnom ar gyfer yr awdurdod hwn, ac rwy'n meddwl y dylai fod, fel y dywedodd Eluned Parrott, ar wyneb y Bil.

I also hear what is being said about this authority not being a totally independent body but being a wing of Government. Yes, that might be true in many ways, but it is a completely different type of body to any which we have had before and it is going to be dealing with a completely new area of legislation for this Assembly. In conclusion today from me, Presiding Officer, we only have one chance to get this right, Minister. Let's, as Eluned Parrott said, get it right now so that future Members of this Assembly don't have to in future debate what went wrong with the Welsh revenue authority, rather than what went right.

Rwyf hefyd yn clywed yr hyn sy'n cael ei ddweud am nad yw'r awdurdod hwn yw'n gorff cwbl annibynnol ond yn adain o'r Llywodraeth. Ie, gallai hynny fod yn wir mewn nifer o ffyrdd, ond mae'n fath hollol wahanol o gorff i unrhyw un yr ydym wedi'i gael o'r blaen ac mae'n mynd i fod yn ymdrin â maes cwbl newydd o ddeddfwriaeth ar gyfer y Cynulliad hwn. I gloi heddiw oddi wrthyf i, Lywydd, dim ond un cyfle sydd gennym i gael hyn yn iawn, Weinidog. Gadewch i ni, fel y dywedodd Eluned Parrott, ei gael yn iawn yn awr fel na fydd yn rhaid i Aelodau'r Cynulliad hwn yn y dyfodol drafod yr hyn a aeth o chwith gydag awdurdod cyllid Cymru, yn hytrach na'r hyn a aeth yn iawn.

16:18

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Amendment 6, tabled by Peter Black, seeks to make provisions so that the Bill enables the National Assembly to authorise a committee to scrutinise the Welsh revenue authority. Arrangements such as this, which say which committee should undertake scrutiny, are actually for the Assembly to decide, not for the Welsh Government to prescribe in legislation. Eluned Parrott and Nick Ramsay have referred to committee recommendation 21 in the Finance Committee report. In my letter to the committee of 4 November, regarding my response to committee recommendation 21, I did refer to section 37 of the Government of Wales Act 2006. I drew attention to this because this section already confers broad powers on the Assembly to require a person to attend to give evidence or produce documents. The powers can be exercised by the audit committee or such other committee as the Assembly expressly authorises. Standing Order 16.4 already requires that every area of the Government and associated public bodies must be subject to committee scrutiny. My letter of 16 December also mentioned that the Bill includes several provisions that require the Assembly to be provided with information to assist it to scrutinise the WRA. Taken together, these provisions enable the Assembly to undertake scrutiny of the WRA separate from the Welsh Ministers. For those reasons, I don't think the amendment proposed by Peter Black is needed.

Mae gwelliant 6, a gyflwynwyd gan Peter Black, yn ceisio gwneud darpariaethau fel bod y Bil yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi pwyllgor i graffu ar awdurdod cyllid Cymru. Mae trefniadau fel y rhain, sy'n dweud pa bwyllgor ddylai wneud gwaith craffu, mewn gwirionedd yn fater i'r Cynulliad benderfynu arno, nid i Lywodraeth Cymru ei ragnodi mewn deddfwriaeth. Mae Eluned Parrott a Nick Ramsay wedi cyfeirio at argymhelliad 21 y pwyllgor yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid. Yn fy llythyr i'r pwyllgor ar 4 Tachwedd, o ran fy ymateb i argymhelliad 21 y pwyllgor, cyfeiriais at adran 37 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Tynnais sylw at hyn oherwydd bod yr adran hon eisoes yn rhoi pwerau eang i'r Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i berson fod yn bresennol i roi tystiolaeth neu gyflwyno dogfennau. Gall y pwerau gael eu harfer gan y pwyllgor archwilio neu unrhyw bwyllgor arall y mae'r Cynulliad yn ei awdurdodi yn benodol. Mae Rheol Sefydlog 16.4 eisoes yn mynnu bod yn rhaid i bob rhan o'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig fod yn destun craffu gan bwyllgor. Mae fy llythyr ar 16 Rhagfyr hefyd yn sôn bod y Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gael gwybodaeth i'w helpu i graffu ar ACC. Gyda'i gilydd, mae'r darpariaethau hyn yn galluogi'r Cynulliad i graffu ar awdurdod cyllid Cymru ar wahân i Weinidogion Cymru. Am y rhesymau hynny, nid wyf yn credu bod angen y gwelliant a gynigiwyd gan Peter Black.

In considering the provision in detail, the amendment, which draws from the Public Audit (Wales) Act 2013, inserts a new section that provides the National Assembly for Wales with the power to, by Standing Orders, make provision regarding the exercise of its functions conferred upon it in the Bill. Such a provision would not work here, as there are no functions conferred on the National Assembly for Wales by the Bill.

Wrth ystyried y ddarpariaeth yn fanwl, mae'r gwelliant, sy'n codi o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, yn mewnosod adran newydd sy'n darparu'r pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy Reolau Sefydlog, i wneud darpariaeth ynghylch arfer y swyddogaethau a roddwyd iddo yn y Bil. Ni fyddai darpariaeth o'r fath yn gweithio yn y fan yma, gan nad oes unrhyw swyddogaethau wedi'u rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Bil.

16:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Eluned Parrott to reply.

Eluned Parrott i ateb.

16:20

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Minister, the Bill before us today sets out a pattern for how the Welsh revenue authority will exercise powers conferred on it, not only now, but also as future devolution brings further responsibilities. For that reason, this Bill is incredibly important in setting down the founding principles of the Welsh tax system.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, mae'r Bil ger ein bron heddiw yn gosod patrwm ar gyfer sut y bydd awdurdod cyllid Cymru yn arfer pwerau a roddwyd iddo, nid yn unig yn awr, ond hefyd wrth i ddatganoli yn y dyfodol ddod â chyfrifoldebau ychwanegol. Am y rheswm hwnnw, mae'r Bil hwn yn hynod bwysig o ran pennu egwyddorion sylfaenol y system dreth yng Nghymru.

Transparency in this regard is in the interests of us all. It helps us to win the trust of the public for what is, let's face it, not going to necessarily be the most popular creation of any Welsh Government in that it brings about the ability to tax people. But that transparency also will help us to drive forward better public services and improve delivery.

Mae tryloywder yn hyn o beth er lles pob un ohonom. Mae'n ein helpu i ennill ymddiriedaeth y cyhoedd am yr hyn nad yw, gadewch i ni ei wynebu, o reidrwydd yn mynd i fod yn greadigaeth fwyaf poblogaidd unrhyw Lywodraeth Cymru gan ei bod yn cyflwyno'r gallu i drethu pobl. Ond bydd y tryloywder hwnnw hefyd yn ein helpu i sbarduno gwell gwasanaethau cyhoeddus a gwella darpariaeth.

I think that there is an obvious difference, a significant difference, between requiring a body to give evidence occasionally, from time to time, whether in writing or in person, and providing for the routine regular and thorough scrutiny of a body that we are creating. There is a significant difference between those two things and I believe that it is appropriate that we legislate appropriately for that. I would urge Members to support this amendment today on that basis.

Rwy'n meddwl bod gwahaniaeth amlwg, gwahaniaeth sylweddol, rhwng ei gwneud yn ofynnol i gorff roi tystiolaeth yn achlysurol, o bryd i'w gilydd, boed hynny yn ysgrifenedig neu yn bersonol, a darparu ar gyfer craffu rheolaidd a thrylwyr arferol ar gorff yr ydym yn ei greu. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y ddau beth, ac rwy'n credu ei bod yn briodol ein bod yn deddfu'n briodol ar gyfer hynny. Rwyf yn annog yr Aelodau i gefnogi'r gwelliant hwn heddiw ar y sail honno.

16:21

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 6 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, voted against 35, therefore amendment 6 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 6 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn, felly ni chaiff gwelliant 6 ei dderbyn.

*Gwrthodwyd gwelliant 6: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment 6 not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6.

Result of the vote on amendment 6.

16:21

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

We have reached the end of our Stage 3 consideration of the Tax Collection and Management (Wales) Bill. I declare that all sections of the Bill are deemed agreed.

Rydym wedi dod i ddiwedd ein hystyriaeth Cyfnod 3 o'r Bil Casglu a Rheoli'r Dreth (Cymru). Rwy'n datgan y barnwyd y cytunwyd ar bob adran o'r Bil

*Barnwyd y cytunwyd ar bob adran o'r Bil.*

*All sections of the Bill deemed agreed.*

16:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

That concludes Stage 3 proceedings, and that concludes today's proceedings. Thank you.

Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3, a dyna ddiwedd trafodion heddiw. Diolch.

*Daeth y cyfarfod i ben am 16:22.*

*The meeting ended at 16:22.*